**Atodiad A**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

**ADRODDIAD YMGYNGHORI**

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL – ADDYSG A CHYMORTH I DEULUOEDD**

# RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION: CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD AR GYNNIG I WNEUD ADDASIAD RHEOLEDIG I EHANGU YSGOL GYMRAEG BRO OGWR I YSGOL 2.5 DOSBARTH MYNEDIAD, GYDA DOSBARTH MEITHRIN SYDD Â 90 LLE CYFWERTH Â LLAWN AMSER A DOSBARTH ARSYLWI AC ASESU SYDD AG 8 LLE AR DIR GER FFORDD CADFAN, GAN AGOR DDECHRAU TYMOR YR HYDREF 2025.

## 1. Diben yr adroddiad

1.1 Testun yr adroddiad cyhoeddus hwn yw canlyniad yr ymgynghoriad ar gynnig i wneud addasiad rheoledig i ehangu Ysgol Gymraeg (YG) Bro Ogwr i ysgol 2.5 dosbarth mynediad, gyda dosbarth meithrin sydd â 90 lle cyfwerth â llawn amser a dosbarth arsylwi ac asesu sydd ag 8 lle ar dir ger Ffordd Cadfan.

## 2. Cysylltiad ag amcanion llesiant corfforaethol/blaenoriaethau corfforaethol eraill

2.1 Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion hon yn gymorth i gyflawni'r amcanion llesiant corfforaethol canlynol o dan **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**:

- **Cefnogi economi gynaliadwy, lwyddiannus -** cymryd camau i wneud y fwrdeistref sirol yn lle ardderchog i wneud busnes, i bobl fyw, gweithio ac astudio ynddi ac ymweld â hi, ac i sicrhau bod ein hysgolion yn canolbwyntio ar fagu'r sgiliau, y cymwysterau a'r amcanion ar gyfer pawb yn y fwrdeistref sirol.

- **Defnyddio adnoddau yn fwy doeth** – sicrhau bod ein holl adnoddau (ariannol, ffisegol, ecolegol, dynol a thechnolegol) yn cael eu defnyddio mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, a chefnogi'r gwaith o greu adnoddau ar draws y gymuned a all helpu i gyflawni amcanion llesiant y Cyngor.

## 3. Cefndir

3.1 Fis Hydref 2021, cymeradwyodd y Cabinet i ddechrau proses ymgynghori statudol er mwyn ehangu YG Bro Ogwr i ysgol 2.5 dosbarth mynediad, gyda dosbarth meithrin sydd â 90 lle cyfwerth â llawn amser a dosbarth arsylwi ac asesu sydd ag 8 lle ar dir ger Ffordd Cadfan, gan agor ddechrau tymor yr hydref 2025.

3.2 Yn yr adroddiad hwn, ceir amlinelliad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

## 4. Y broses ymgynghori

4.1 Er mwyn mynd ymlaen gyda'r cynnig, cynhaliwyd ymarferion ymgynghori rhwng 7 Chwefror 2022 a 21 Mawrth 2022 yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 statudol. Cyhoeddwyd copi o'r ddogfen ymgynghori yn ystod y cyfnod hwn ar wefan y Cyngor:

https://www.bridgend.gov.uk/media/12775/ysgol-gymraeg-bro-ogwr-consultation-report.pdf

4.2 Roedd y ddogfen ymgynghori yn gwahodd safbwyntiau a barnau i'w cyflwyno mewn perthynas â'r cynnig. Mae rhestr o'r rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw i'w chael yn Atodiad 13.

## 5. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

5.1 Gweler y canlynol am bwyntiau allweddol o'r ymarfer ymgynghori, ac mae'r manylion llawn i'w cael ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Cynhaliodd yr awdurdod lleol 6 chyfarfod 'rhithiol' gyda dysgwyr, staff, llywodraethwyr a Chynghorau Cymuned Coety a Bracla ac aelodau'r gymuned. Cyfrannodd aelodau lleol at y broses yn weithredol, a'i chefnogi. Mynychodd 4 cynrychiolydd o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yr holl gyfarfodydd. Cynigwyd gwasanaethau cyfieithu i'r Gymraeg, a'u darparu ar gais.

5.2 **Ymgynghori â'r corff llywodraethu**

Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori rhithiol dros alwad 'Zoom' gyda chynrychiolwyr o YG Bro Ogwr ddydd Llun 7 Mawrth 2022. Mae manylion llawn trafodaethau'r cyfarfod, ymatebion ac esboniadau manwl i'w cael yn Atodiad 1 yr adroddiad ymgynghori hwn.

Holodd llywodraethwyr yr ysgol am briffyrdd, mynediad i'r safle newydd a beth yw'r cynlluniau ar gyfer ardal danfon a chasglu plant yn yr ysgol. Eglurodd swyddogion fod trafodaeth agored gyda'r adran briffyrdd yn dal i fynd rhagddi mewn perthynas â'r ardal danfon a chasglu plant. Mae'r awdurdod lleol yn bwriadu cynnal gweithdy i bennu a yw'r mesurau lliniaru sydd ar waith yn ysgolion eraill y sir yn gweithio'n effeithiol ai peidio. Mae'r adran briffyrdd wedi comisiynu a chasglu Asesiad Effaith ar Drafnidiaeth sydd wedi'i adrodd i'r Cabinet fel rhan o'r dichonolrwydd. Bydd yr Asesiad Effaith ar Drafnidiaeth yn cael ei adolygu a byddwn y sicrhau ei fod yn darparu unrhyw seilwaith teithio llesol sydd ei angen fel rhan o'r cynllun hwn. Rhaid i'r awdurdod lleol fodloni gofynion y priffyrdd.

Bydd mynediad ar gyfer cerbydau trafnidiaeth ysgolion y tu ôl i'r ysgol a'r mynediad i rieni, ymwelwyr a staff y tu blaen i'r ysgol. Mae nifer o ddysgwyr sy'n mynychu YG Bro Ogwr yn teithio i'r ysgol ar fws gan nad ydynt yn gymwys am gludiant ysgol, yn unol â'r polisi Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol/Coleg. Bydd angen i'r ysgol ddatblygu cynllun cludiant ysgol er mwyn cefnogi cais cynllunio.

Codwyd pryder ynghylch parcio. Mae nifer o staff yn teithio o bell a bydd y diffyg lleoedd parcio yn cael effaith sylweddol ar recriwtio a chadw staff. Mae'r strategaeth Datgarboneiddio 2030 yn hyrwyddo teithio cynaliadwy, ac fel datblygwr, rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r canllawiau parcio. Bydd y pryderon hyn yn cael eu trosglwyddo i dîm priffyrdd y Cyngor a bydd rhagor o drafodaethau yn mynd rhagddynt i drafod yr agwedd bwysig hon.

Bydd tir yr ysgol yn ddiogel. Bydd ffens ddiogelwch uchel rhwng 2m a 2.4m o uchder o amgylch y terfyn allanol ac yn ardaloedd megis buarthau, caeau a mannau bysiau (er mwyn cadw cerbydau / cerddwyr ar wahân). Bydd clo ar y giatiau mynediad. Bydd digonedd o olau i'r llwybrau troed a'r mannau allanol fel rhan o'r cynllun. Ni fydd pobl anawdurdodedig yn gallu cael mynediad i'r ysgol.

Nid yw llifoleuadau ar gyfer y cae wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn. Wedi dweud hynny, bydd y seilwaith ar gyfer llifoleuadau yn cael ei gynnwys, fel y gellid eu gosod yn y dyfodol. Bydd cryn dipyn o ardaloedd gwyrdd, mae cynlluniau ar gyfer corstir a bydd y Cyngor yn anelu at wella ecoleg a bioamrywiaeth y safle.

Gofynnwyd i swyddogion sut y cyrhaeddwyd y fformiwla ysgol 2.5 dosbarth mynediad. Ystyriwyd cyfuniad o opsiynau, costau a strategaeth er mwyn uchafu addysg cyfrwng Cymraeg yr ardal. Yr opsiwn ysgol 2.5 dosbarth mynediad oedd yr opsiwn dewisol. Y cynnig hwn fydd yr ysgol fwyaf sydd gennym ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae rhagor o gynlluniau i wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal, fel y nodir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfeirio at y posibilrwydd o ysgol uwchradd 3 i 18 oed. Codwyd pryderon ynghylch pa un ai a fydd digon o alw ar gyfer dwy ysgol gyda'r un grwpiau oedran, a'r rheini mor agos at ei gilydd. Mae cynlluniau i ddatblygu ysgol ddwyieithog ar safle Parc Afon Ewenni, sy'n ddatblygiad preswyl newydd arfaethedig. Mae angen i'r Cyngor gael darpariaeth addysg i wneud lle ar gyfer preswylwyr y datblygiad tai newydd arfaethedig. Byddai'r ysgol arfaethedig ym Mharc Afon Ewenni yn ysgol 2 ddosbarth mynediad; 1 dosbarth mynediad cyfrwng Cymraeg ac 1 dosbarth mynediad cyfrwng Saesneg. Drwy greu lleoedd addysg cyfrwng Cymraeg, dylai'r Cyngor ddenu dysgwyr i lenwi'r lleoedd hynny o ardal y de-ddwyrain. Mae'r awdurdod lleol yn cwrdd â phennaeth yr ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg i ystyried yr opsiynau sydd ar gael i wneud addysg uwchradd yn fwy canolog o fewn y sir.

## 5.3 Ymgynghoriad â Chyngor Cymuned Bracla

Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori 'rhithiol' gyda Chyngor Cymuned Bracla ar 10 Mawrth 2022. Mae manylion llawn trafodaethau'r cyfarfod, ymatebion/esboniadau manwl i'w cael yn Atodiad 2 yr adroddiad ymgynghori hwn. Gofynnwyd cwestiynau yn ymwneud ag agenda Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru sef cyflawni 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2025, defnydd y gymuned, asesiadau traffig a chynlluniau ar gyfer ysgol bresennol YG Bro Ogwr.

Eglurodd cynrychiolwyr y cyngor y pennwyd ysgol 2.5 dosbarth mynediad yn opsiwn dewisol ar gyfer yr ysgol ac fel y soniwyd uchod, mae'n ffurfio rhan o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ehangach dros 10 mlynedd i gynyddu addysg cyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Bydd yr ysgol wedi'i dylunio i hwyluso defnydd gan y gymuned, a bydd yn cynnwys dau gae chwarae, cegin gymunedol a chyfleusterau beicio gyda chawodau ac ystafelloedd newid. Ymgymerwyd ag Asesiad Effaith ar Draffig llawn a fydd yn nodi pa gyfleoedd y gellir eu creu i gysylltu llwybrau teithio llesol â'r ardal ehangach. Mewn perthynas ag ysgol bresennol YG Bro Ogwr, eglurodd swyddogion fod posibl gwneud ysgol cyfrwng Saesneg newydd ar y safle, wedi dweud hynny, mae hyn yn amodol ar ganlyniad llwyddiannus y cynnig YG Bro Ogwr a bydd yn gofyn proses ymgynghori ar wahân.

5.4 **Ymgynghoriad â Chyngor Cymuned Coety**

Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori 'rhithiol' gyda Chyngor Cymuned Coety ar 10 Mawrth 2022. Mae manylion llawn trafodaethau'r cyfarfod, ymatebion / esboniadau i'w cael yn Atodiad 3 yr adroddiad ymgynghori hwn. Gofynnwyd cwestiynau yn bennaf yn ymwneud â'r briffordd, parcio ac ardaloedd danfon, llwybrau teithio llesol, cynlluniau ar gyfer yr ysgol bresennol a chapasiti'r ysgol newydd.

Eglurodd swyddogion fod trafodaeth yn mynd rhagddi gyda'r adran Briffyrdd. Mae gweithdy wedi'i chynllunio i bennu a fydd y mesurau sydd ar waith yn ysgolion eraill yn effeithiol yn YG Bro Ogwr. Yn dilyn canlyniad y gweithdy, gall y tîm gytuno ar ffordd ymlaen ar gyfer y parth danfon, boed wedi'i leoli ar dir yr ysgol, neu'r tu allan iddo. Pennwyd maint yr ysgol gan broses gwerthuso opsiynau a wnaethpwyd gan yr awdurdod lleol er mwyn uchafu addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal a bydd dyluniad safle'r ysgol yn caniatáu estyniad yn y dyfodol i wneud lle am gynnydd mewn galw. Trafodwyd y cynlluniau posibl i greu ysgol cyfrwng Saesneg ar y safle presennol, ynghyd â'r cynlluniau i ymgymryd â gwaith nawr i fynd i'r afael â'r ôl-groniad mewn gwaith cynnal a chadw.

5.5 **Ymgynghori â staff**

Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori 'rhithiol' gyda staff YG Bro Ogwr ar 14 Mawrth 2022. Mae manylion llawn trafodaethau'r cyfarfod a'r ymatebion/esboniadau a roddwyd i'w cael yn Atodiad 4 yr adroddiad ymgynghori hwn. Gofynnwyd cwestiynau yn bennaf ynghylch cynyddu addysg cyfrwng Cymraeg, recriwtio a chadw staff, mynediad at fannau awyr agored, parcio ac ardaloedd danfon.

Eglurodd cynrychiolwyr y cyngor fod detholiad o opsiynau wedi'u harchwilio i uchafu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal ac mae rhagor o gynlluniau i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg i'w gweld yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae dyluniad yr ysgol yn sicrhau ei dyfodol ar gam cynnar er mwyn gwneud lle ar gyfer twf. Bydd gan yr ysgol faes dysgu (stryd) a bydd o leiaf dau set o risiau i'r dysgwyr fynd ar y buarth. Bydd gan bob un yn y Cyfnod Sylfaen fynediad uniongyrchol at yr awyr agored o'u dosbarthiadau. Bydd swyddogion yn gweithio gyda'r ysgol i sicrhau bod y buarth yn addas a byddant yn ymgynghori'n ffurfiol â staff yn y dyfodol mewn perthynas â gofynion dylunio, os bydd y Cabinet yn cymeradwyo'r cynllun hwn. O ran llefydd parcio ac ardaloedd danfon, rhaid i swyddogion lynu wrth bolisi

cynllunio Llywodraeth Cymru. Nododd y swyddogion y pryderon a godwyd a byddant yn cynnal gweithdy ar wahân gyda'n tîm priffyrdd i drafod priffyrdd a pharcio fel rhan o ddatblygu'r dyluniad.

5.6 **Ymgynghori â dysgwyr**

Cyfarfu Cyngor Ysgol YG Bro Ogwr yn rhithiol â chynrychiolwyr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ddydd Llun 7 Mawrth 2022 i drafod y cynnig. Rhoddwyd fersiwn addas i blant o'r ddogfen ymgynghori i'r disgyblion cyn y cyfarfod a gofynnwyd iddynt am eu safbwyntiau. Mae manylion llawn trafodaethau'r cyfarfod a'r ymatebion/esboniadau a roddwyd i'w cael yn Atodiad 5 yr adroddiad ymgynghori hwn.

Roedd gan Gyngor Eco yr ysgol ddiddordeb mewn ynni adnewyddadwy, cyfleusterau ailgylchu ac arbed dŵr ac awgrymwyd mannau gwefru ar gyfer cerbydau trydan. Gofynnodd y Cyngor Ysgol pa gyfleusterau fyddai ar gael yn yr ysgol newydd a pha un ai a allent ddod ag eitemau i gofio o'u hysgol bresennol i'r ysgol newydd. Eglurodd cynrychiolwyr y cyngor er nad oes dyluniad manwl wedi'i wneud hyd yn hyn, y byddai digonedd o ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored yn cael eu darparu, gan gynnwys man cylchdroi, caeau chwarae, cyrtiau gemau, mannau chwarae meddal, mannau chwarae caled a chynefinoedd. Petai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai rhagor o gyfarfodydd yn cael eu trefnu er mwyn i ddisgyblion gyfrannu at y broses ddylunio.

Ar ddiwedd y cyfarfod, cafwyd pleidlais gan y Cyngor Ysgol yn ymwneud â pha un ai a oedd y cynnig yn syniad da neu ddrwg ar y cyfan. Cytunodd y 12 disgybl a oedd yn bresennol ei fod yn syniad da.

5.7 **Digwyddiad ymgynghori agored – galwad rhithiol dros Zoom**

Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori rhithiol ar 'Zoom' ddydd Mawrth 15 Mawrth 2022. Mae manylion llawn trafodaethau'r cyfarfod, ymatebion ac esboniadau a roddwyd i'w cael yn Atodiad 6 yr adroddiad ymgynghori hwn.

Codwyd cwestiynau mewn perthynas â diffyg dalgylch ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y sir a pha un ai a yw'r awdurdod lleol yn ystyried cyflwyno dalgylchoedd ai peidio. Eglurodd cynrychiolwyr y cyngor fod cynlluniau yn cael eu datblygu i gynyddu lleoedd addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir a bod dalgylchoedd yn rhywbeth y bydd swyddogion yn eu hystyried wrth fynd ymlaen. Croesewir adborth gan rieni i helpu i wneud penderfyniadau.

Codwyd pryderon ynghylch y cynnig i roi ysgol cyfrwng Saesneg ar safle presennol YG Bro Ogwr a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar ysgolion cyfrwng Saesneg yr ardal. Eglurodd swyddogion fod rhagor o waith yn mynd rhagddo ar gynllun ehangach, gan gynnwys adnabod y dalgylch. Mae'r cynllun hwn yn ddibynnol ar gynnig ar wahân ac ni fydd yn parhau nes bod y broses ar gyfer YG Bro Ogwr wedi'i chasglu. Bydd rhanddeiliaid yn cymryd rhan lawn yn y cynnig. Mae gan yr ysgol ôl-groniad o waith cynnal a chadw gwerth £750k a bydd peth gwaith uniongyrchol yn cael ei wneud ar gyfer gwelliannau, gan fydd yr ysgol yn cael ei defnyddio hyd at 2025.

Mae angen cynyddol am ragor o gapasiti yn YG Bro Ogwr. Mae'r safle ar Ffordd Cadfan yn ddigon mawr i ysgol 2.5 dosbarth mynediad. Bydd yr ysgol wedi'i dylunio i ganiatáu estyniad 4 dosbarth os bydd angen yn y dyfodol, a fydd yn gwneud yr ysgol yn ysgol 3 dosbarth mynediad. Y prosiect hwn yw'r cam cyntaf yn y cynllun ehangach i adeiladu mwy o ysgolion. Y prosiect hwn yw cam cyntaf cynllun hirdymor i gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y fwrdeistref sirol fel rhan o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Pen-y-bont ar Ogwr. Mae cynlluniau i wella darpariaeth yn y de-ddwyrain a chanol Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n cynnwys cynnig am ysgol ddwy ffrwd ym Mharc Afon Ewenni (1 dosbarth mynediad cyfrwng Cymraeg ac 1 dosbarth mynediad cyfrwng Saesneg), ysgol 1 dosbarth mynediad ym Mhorthcawl ac ysgol cyfrwng Cymraeg pob oedran ar gyfer disgyblion 3 i 19 oed, wedi'i lleoli yng nghanol sir Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd y cynlluniau hyn yn cyd-fynd â'r datblygiadau tai arfaethedig a'r gyllideb sydd ar gael.

Bydd yr awdurdod lleol yn gweithio'n agos â'r ysgol i ddeall effaith y nifer ychwanegol o ddysgwyr a pha grwpiau oedran fyddai angen eu hehangu. Bydd darpariaeth ran amser a llawn amser i'r dosbarth meithrin. Bydd 75 o leoedd cyfwerth â llawn amser ar gyfer disgyblion 3 i 4 oed a bydd darpariaeth ran amser yn gwneud y pymtheg o leoedd cyfwerth â llawn amser eraill (hynny yw, cyfanswm o dri deg yn rhan amser). Yn ogystal, bydd dosbarth arsylwi ac asesu gydag 8 lle ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Gofynnwyd i'r tîm pam mae'r awdurdod lleol yn ystyried adeiladu ysgol newydd nawr. Nid oedd gan yr ysgol ddigon o gapasiti ym 1994 ac erbyn hyn mae mewn cyflwr gwael ac yn angen buddsoddiad. Awgrymwyd y dylai Ysgol Gynradd Maes yr Haul yn Broadlands fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg er mwyn rhoi darpariaeth gyfartal ar draws y sir. Mae'r awdurdod lleol wedi adeiladu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg (sef Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd ym Metws, yn lle Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Garw). Uchelgais yr awdurdod lleol yn y dyfodol yw creu mwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo ar gyfer dau leoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg ym Metws a Chwm Ogwr. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi caniatâd mewn egwyddor i greu ysgol egin cyfrwng Cymraeg ym Mhorthcawl ac mae cynlluniau i greu darpariaeth yn y de-ddwyrain ac yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr, ynghyd â chynlluniau posibl i symud Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd i leoliad mwy canolog. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (2022-2032) drafft yr awdurdod lleol yn sefydlu ein huchelgeisiau ar gyfer y 10 mlynedd nesaf ac rydym yn gwbl ymrwymedig i hyrwyddo a thyfu addysg cyfrwng Cymraeg.

5.8 **Crynodeb o'r sylwadau ysgrifenedig**

Cafwyd pum eitem o ohebiaeth uniongyrchol yn ystod y cyfnod ymgynghori a daeth un i law ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Derbyniwyd yr eitem hon gan ei bod yn amlwg yr anfonwyd hi yn ystod y cyfnod ymgynghori, ond roedd y cyfeiriad e-bost a ddefnyddiwyd yn anghywir. Gweler Atodiad 7 yr adroddiad ymgynghori hwn am ymatebion/esboniadau.

5.9 Anfonwyd ymatebion i awduron yr eitemau o ohebiaeth yn diolch iddynt am eu cyflwyniadau ac i nodi y byddai eu sylwadau yn cael eu hystyried.

5.12 **Crynodeb o'r ymatebion i'r holiadur ar-lein**

Llenwodd gyfanswm o 50 o ymatebwyr yr holiadur ar-lein. Mewn perthynas â'r cwestiwn yn holi a oeddynt yn cefnogi'r cynnig, ymatebodd 31 yn nodi eu bod yn cefnogi a 15 yn nodi nad oeddynt yn ei gefnogi. Gweler Atodiad 8 yr adroddiad ymgynghori hwn am fanylion ac am ymatebion/esboniadau'r awdurdod mewn perthynas â'r materion a godwyd.

## 6. Safbwynt Estyn, Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

6.1 Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol ar y cynnig. Gweler Atodiad 9 yr adroddiad ymgynghori hwn am fanylion llawn. Casglodd Estyn y canlynol:

"Mae Estyn yn credu bod y cynnig yn debygol, fan leiaf, o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal."

## 7 Asesiadau Effaith

7.1 Cynhaliwyd Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o'r cam ymgynghori ac fe'i cyhoeddwyd fel rhan o'r ddogfen ymgynghori. Casglodd yr asesiad fod y cynnig yn annhebygol o gael effaith anghymesur ar unrhyw grŵp gwarchodedig. Ar ôl darllen yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r casgliad yn parhau'n ddilys.

7.2 Mae Asesiad Effaith ar y Gymraeg wedi'i gynnal fel rhan o'r cam ymgynghori ac fe'i cyhoeddwyd fel rhan o'r ddogfen ymgynghori. Casglodd y rhagwelir y byddai'r cynnig hwn yn gwella'n sylweddol y cyfleoedd addysgu a dysgu ac mae'n debygol y bydd y nifer o bobl sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn cynyddu o ganlyniad i'r ddarpariaeth ysgol gymunedol gynaliadwy, ac felly byddai'n cefnogi targedau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol, yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac yn cynyddu'r nifer o ddysgwyr meithrin sy'n pontio i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg. Dylid gweld effaith gadarnhaol ar grwpiau iaith Gymraeg gan fydd yr adeilad newydd yn hygyrch i'r gymuned leol. Gallai hyn gynnwys dosbarthiadau Cymraeg i oedolion a chyfarfodydd grwpiau iaith Gymraeg.

7.3 Cynhaliwyd Asesiad Effaith ar Gymuned fel rhan o'r cam ymgynghori ac fe'i cyhoeddwyd fel rhan o'r ddogfen ymgynghori.
Y pellter rhwng ysgol bresennol YG Bro Ogwr a'r safle newydd ar Ffordd Cadfan yw 0.2 milltir. Felly, ni ragwelir potensial sylweddol am effaith negyddol ar y gymuned. Mae'n bosibl y ceir effaith gadarnhaol ar gydlyniad cymunedol. Petai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai'r disgyblion yn mynychu adeilad ysgol newydd a fydd yn ymgorffori cyfleusterau cymunedol pwrpasol. Mae'n ofynnol i ni weithio gyda'n tîm priffyrdd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Canllawiau Statudol, ond hefyd i sicrhau ein bod yn darparu digon o gyfleusterau parcio, ardaloedd danfon a chysylltiadau priffyrdd a lleihau tagfeydd traffig yn yr ardal leol. Pwysleisir yn yr ymgynghoriad bod recriwtio a chadw staff yn dibynnu'n fawr ar y cyfleusterau hynny.

7.4 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'i hystyried wrth ffurfio'r cynnig (gweler Atodiad 10).

## 8. Casgliad

Yn dilyn y broses ymgynghori, mae'r awdurdod lleol wedi ail-ystyried y cynnig i bennu'r effaith debygol ar hyrwyddo'r iaith Gymraeg, ansawdd a safonau mewn addysg, y gymuned a defnydd posibl yr hen YG Bro Ogwr yn y dyfodol.

### Hyrwyddo'r iaith Gymraeg

Bwriedir cyflawni'r gwaith ehangu arfaethedig i YG Bro Ogwr yn ystod cam cyntaf y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd (sy'n nodi strategaeth yr awdurdod lleol i hyrwyddo a darparu rhagor o leoedd addysg cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau daearyddol allweddol yn y fwrdeistref sirol).

Mae'r cynnig yn cynyddu'n sylweddol y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion y blynyddoedd cynnar, yr ystyrir yn rhan hanfodol o hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Yn ogystal, bydd yr ysgol newydd yn cynnwys dosbarth arsylwi ac asesu gydag 8 lle ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Ystyrir bod y buddsoddiad cyfalaf sylweddol hwn mewn darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn cefnogi, yn ysgogi ac yn hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a'r iaith Gymraeg.

Mae'r YG Bro Ogwr 2.5 dosbarth mynediad yn briodol; mae'n mynd i'r afael â'r galw am leoedd i ddisgyblion ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae Tîm Prosiectau Mawr Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cadarnhau y bydd y safle yn caniatáu am estyniad yn y dyfodol, petai galw ychwanegol am leoedd cyfrwng Cymraeg yn y lleoliad hwn.

### Ansawdd a safonau

Bydd y cynnig yn cyflwyno ysgol Cymunedau Dysgu Cynaliadwy mewn amgylchedd addysgu a dysgu o'r radd uchaf. Byddai'r adeilad a'r mannau awyr agored wedi'u dylunio i fodloni anghenion staff a disgyblion yr ysgol. Mae Estyn yn credu bod y cynnig yn debygol, fan leiaf, o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.

### Cymuned

Ymgymerwyd ag Asesiad Effaith ar y Gymuned fel rhan o'r broses ymgynghori ac mae wedi'i adolygu wedi hynny.

Byddai'r ysgol arfaethedig wedi'i lleoli ar dir ger Ffordd Cadfan, sy'n cael ei ystyried y lleoliad mwyaf addas ar gyfer yr ysgol newydd o ran maint, ei bellter oddi wrth yr ysgol bresennol a'i leoliad daearyddol yn yr ardal, ac mae cysylltiadau da yno â thref Pen-y-bont ar Ogwr, Porth y Cymoedd ac ardaloedd Pencoed, sydd felly yn golygu ei fod yn lleoliad addas i'r gymuned ei ddefnyddio.

Byddai'r ysgol newydd wedi'i dylunio gyda'r defnydd gan y gymuned mewn golwg ac yn cynnwys cyfleusterau y gellid eu defnyddio gan grwpiau iaith Gymraeg, yr Urdd a sefydliadau chwaraeon.

**Defnydd hen safle YG Bro Ogwr yn y dyfodol**

Yng ngoleuni'r adborth i'r ymgynghoriad hwn, bydd yr awdurdod lleol yn adolygu'r gwerthusiad opsiynau mewn perthynas ag adeilad/safle ysgol bresennol YG Bro Ogwr.

## 9. Proses statudol o ran pennu cynigion

9.1 Yn y tabl canlynol, ceir yr amserlen dros dro:

| Gweithgaredd | Dyddiad |
|---|---|
| Cyfnod ymgynghori lle mae'r Cyngor yn croesawu'ch safbwyntiau a'ch arsylwadau ynghylch y cynnig*. | 7 Chwefror 2022 hyd at 21 Mawrth 2022 |
| Adroddiad Ymgynghori drafft i'r Cabinet ynghylch canlyniadau'r ymgynghoriad. | 14 Mehefin 2022 |
| Cyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori cymeradwy ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a sicrhau bod copïau caled ar gael ar gais. | 15 Mehefin 2022 |
| Os cytunir gan y Cabinet, cyhoeddir hysbysiad statudol a bydd cyfnod o 28 diwrnod i gyflwyno unrhyw wrthwynebiadau ysgrifenedig i'r cynnig. | 30 Mehefin 2022 |
| Os nad oes unrhyw wrthwynebiadau, gall y cabinet benderfynu pa un ai a yw am barhau ai peidio. Os oes unrhyw wrthwynebiadau, bydd Adroddiad Gwrthwynebiadau yn cael ei anfon i'r Cabinet ei ystyried a gwneud penderfyniadau dilynol. Yna, bydd yr adroddiad cymeradwy yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a bydd copïau caled o'r adroddiad ar gael ar gais.<br>Cyhoeddi llythyr y penderfyniad. | Medi 2022 |
| Gweithredu. | Medi 2025 |

*Mae Copïau Caled o'r adroddiad hwn ar gael ar gais.*

**Swyddog Cyswllt:** Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Uned Gefnogi'r Gyfarwyddiaeth)

**Ffôn:** (01656) 643643

**E-bost:** edsu@bridgend.gov.uk

**Cyfeiriad Postio** Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr,
CF31 4WB

**ATODIAD 1**

| **Ysgol Gymraeg Bro Ogwr**<br>**Cyfarfod Ymgynghori**<br>**gyda Llywodraethwyr Ysgol**<br>**Dydd Llun 7 Mawrth 2022**<br>**5pm-7pm** |
|---|

Yn bresennol: 4 x staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
1 x Pennaeth
1 x Cyfieithydd Cymraeg
12 x Llywodraethwyr Ysgol

Cyflwynodd Rheolwr y Rhaglen Ysgolion y sesiwn ymgynghori a sefydlu diben y cyfarfod, natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellu'r cynnig. Rhoddodd y Prif Gynorthwyydd Pensaernïol drosolwg o strwythur y safle a'r pwyntiau mynediad.

| **Cwestiynau/Materion** | **Atebion/Sylwadau** |
|---|---|
| Mae mynediad, priffyrdd a'r parth danfon yn destun pryder. | Mae trafodaeth gyda'n hadran briffyrdd yn dal i fynd rhagddi mewn perthynas ag ardaloedd danfon. Bydd swyddogion yn cynnal gweithdy i bennu a yw'r mesurau lliniaru sydd ar waith yn ysgolion eraill y sir yn gweithio'n effeithiol ai peidio. Yn dilyn canlyniad y gweithdy, gall y tîm gytuno ar ffordd ymlaen ar gyfer y parth danfon. Bydd swyddogion yn gweithio gyda'r ysgol mewn perthynas â'r dyluniad.<br><br>Bydd mynediad ar gyfer trafnidiaeth ysgol y tu cefn i'r ysgol. Teimlai mai dyma'r opsiwn mwyaf diogel. Bydd mynediad ar gyfer rhieni, ymwelwyr a staff y tu blaen i'r ysgol.<br><br>Mae'r adran briffyrdd wedi comisiynu a chasglu Asesiad Effaith ar Drafnidiaeth sydd wedi'i adrodd i'r Cabinet. Rhoddir ystyriaeth i'r Asesiad Effaith ar Drafnidiaeth a bydd angen i'r awdurdod lleol ddarparu unrhyw seilwaith teithio llesol sydd ei angen fel rhan o'r cynllun hwn.<br><br>Er mwyn sicrhau caniatâd cynllunio, rhaid i ni fodloni gofynion priffyrdd. |
| Rydym wedi mapio codau post ein dysgwyr a phrin iawn yw'r rhai sy'n byw o fewn pellter cerdded i'r ysgol. Mae nifer o ddisgyblion yn teithio i'r ysgol ar y bws. Mae gennym gyfle i wneud hwn yn | Bydd angen i'r ysgol ddatblygu cynllun cludiant ysgol er mwyn cefnogi cais cynllunio. Dylai bod gan bob ysgol ei chynllun teithio ei hun, byddwn yn gweithio gyda'r ysgol i ddatblygu cynllun cludiant |

| | |
|---|---|
| gyfleuster gwych, ac mae'n bwysig ein bod yn taro'r hoelen ar ei phen. Nid ydym am i'r ardal fanwerthu brysuro'n ormodol gyda thraffig, a fyddai'n beryglus i'n dysgwyr. Rydym wedi ystyried yr opsiwn o fws cerdded, ond nid yw darpariaeth cludiant ysgol dan ein rheolaeth, ac nid ydym yn barod i ymgysylltu â hynny ar hyn o bryd, cyfrifoldeb i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yw hwn. | ysgol. Yn ogystal, bydd angen cynllun cludiant ar safle'r ysgol newydd. |
| Mae'r lleoliad newydd a hygyrchedd y safle yn gadarnhaol iawn ac rydym yn edrych ymlaen at gael ysgol newydd yr 21ain ganrif. Rwy'n bryderus ynghylch yr amserlen o ran y cais cynllunio a'r hysbysiad cyhoeddus. Nid yw'n caniatáu i rieni fod yn ymwybodol o fannau mynediad etc.<br><br>Os ydym yn gobeithio agor yr ysgol newydd fis Medi 2025, pa amserlen ydym ni'n gweithio tuag ati ar ôl i ni gwblhau'r 3 cham a'r broses dendro? | Mae'r broses hon ar wahân i'r broses gynllunio. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn broses statudol ar wahân y mae'n rhaid ei gwneud ymlaen llaw. Gall yr hysbysiad statudol gynnwys nodyn esboniadol yn nodi sut ydym yn rhagweld y bydd y safle yn gweithio, e.e. mynediad i gludiant ysgol. Mae 3 phroses ar wahân ar ôl: y Cod Trefniadaeth Ysgolion, caniatâd cynllunio ac achos busnes llawn Llywodraeth Cymru.<br><br>Ar hyn o bryd, bydd y gwaith adeiladu yn cymryd deunaw mis. Yr unig beth a fydd yn newid yr amserlen yw os yw amodau'r tir neu'r gwaith priffyrdd yn fwy nag ydym yn eu rhagweld. |
| A yw'r asesiad yn cynnwys y 62 o dai newydd arfaethedig ger Shepherds Vets? Mae'r briffordd tuag at yr allfa manwerthu eisoes dan ei sang gyda thraffig. Rydym yn bryderus os na allwn greu ardal ddanfon addas, na fydd yr ysgol newydd yn boblogaidd ymhlith preswylwyr lleol. Mae'r cynnig newydd yn haneru'r nifer o leoedd parcio, a nodoch mai cyfrifoldeb llywodraethwyr yr ysgol yw sicrhau bod staffio yn cyd-fynd â nifer cynyddol o ddisgyblion. Bydd mwy o ddisgyblion yn golygu mwy o draffig. Os ydym yn cynyddu'r nifer o leoedd parcio, dywedwyd y bydd y cais cynllunio yn cael ei wrthod. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gynyddu cerdded a beicio i'r ysgol, sy'n glodwiw, ond mae'n destun pryder gan fod cyllidebau staff a recriwtio eisoes yn heriol. Mae parcio yn destun pryder gan y bydd yn cael effaith ar recriwtio a chadw staff.<br><br>Nid yw staff yn dueddol o fyw yn yr ardal leol, ac maent yn teithio o bell. Mae staff asiantaeth yn gofyn am dâl uwch er mwyn | Mae'r cynnig yn ymwneud â'r 62 o gartrefi newydd yn y cam cyn cyflwyno'r cais, ac felly nid yw'r rheini wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith ar Drafnidiaeth.<br><br>Bydd swyddogion yn cynnal gweithdy ar wahân i drafod priffyrdd a pharcio fel rhan o ddatblygu'r dyluniad. Rhaid i swyddogion gydymffurfio â'r canllawiau parcio a bydd angen datblygu achos cryf i'w gyflwyno i'n cydweithwyr yn yr adran briffyrdd i egluro'r pryderon yn ymwneud â recriwtio a chadw staff. Mae angen datblygu cynllun cludiant ysgol. Mae'n bwysig casglu gwybodaeth ynghylch materion staffio a pharcio presennol a chasglu data cod post er mwyn cefnogi hyn. Mae'r strategaeth Datgarboneiddio 2030 yn hyrwyddo teithio cynaliadwy. |

| | |
|---|---|
| eu hatal rhag cymryd gwaith yn agosach at eu cartref.<br>Rydym eisoes wedi trafod y gallai'r staff ddefnyddio'r parthau danfon i barcio eu ceir. Nid yw hyn am fod yn effeithiol gan eu bod ar ddyletswydd cyn i'r ysgol agor ac ar ôl iddi gau; nid yw'n bosibl iddynt symud eu ceir i leoedd parcio gwahanol byth a beunydd. | |
| Rwy'n deall bod angen i ni ddatblygu ein cynlluniau teithio ac ystyried teithio cynaliadwy. Nid yw'r rhan fwyaf o'n dysgwyr yn byw o fewn pellter cerdded i'r ysgol. Os yw ein hysgol yn symud mymryn i lawr y ffordd ac nad ydym yn agor ysgol cyfrwng Cymraeg arall, ni allwn fabwysiadu cynllun teithio sy'n cynnwys cerdded a beicio. Eto, bydd hyn yn effeithio ar recriwtio a chadw staff. | Mae cynllun hirdymor yn bodoli i gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y fwrdeistref sirol fel rhan o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Er mai'r prosiect cyntaf yw hwn, mae cynlluniau i gynyddu darpariaeth yn y de-ddwyrain ac yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. |
| Mae'r ysgol cyfrwng Cymraeg newydd arfaethedig yn gyfle cyffrous. Darllenais erthygl ynghylch cadw staff ysgolion cyfrwng Cymraeg, a oedd yn nodi o blith yr holl athrawon a gymhwysodd yn 2010, mae 40% ohonynt wedi gadael y proffesiwn erbyn hyn. Mae problemau staffio ledled Cymru. Mae'n rhaid i mi deithio awr i gyrraedd fy ngwaith ac mae'n fy mhoeni os bydd staff yn wynebu problemau parcio a mynediad. Bydd yn anodd denu athrawon i'r ysgol, a'u cadw. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen i ni warchod yr amgylchedd, ond ymddengys bod hyn yn mynd yn groes i recriwtio a chadw aelodau da o staff. | XX yn cytuno gyda XX. Rydym ni, fel ysgol cyfrwng Cymraeg, yn cynrychioli addysg cyfrwng Cymraeg. Rwy'n ymwybodol bod nifer o bobl yn erbyn addysg cyfrwng Cymraeg fel egwyddor ac os nad ydym yn taro'r hoelen ar ei phen, bydd hynny'n gwaethygu'r achos os ydym yn creu problemau i breswylwyr lleol. Rwy'n deall bod angen i ni warchod yr amgylchedd, ond mae angen i ni gydbwyso gyda'r bobl sy'n byw yn agos at yr ysgol a'u hagweddau at addysg cyfrwng Cymraeg. |
| Ymwelodd Estyn â'r ysgol yn 2017 a chodasant bryder yn ymwneud â mynediad a diogelwch y safle. A oes ffensys a giatiau i atal mynediad anawdurdodedig i'r safle?<br><br>A fydd mynediad i'r gymuned y tu hwnt i oriau, a fydd yr ysgol gyfan yn hygyrch? | Rhannodd XX gynllun o'r safle ac egluro ffin ddiogelwch y ffensys a lleoliad y giatiau a'r mannau mynediad. Ni fydd unrhyw un yn gallu cerdded drwy'r ysgol. Bydd ffens ddiogelwch yn ardaloedd, gan gynnwys mannau bysiau er mwyn cadw cerbydau / cerddwyr ar wahân. Bydd ffens ar y buarthau a bydd gan y caeau eu ffens eu hunain. Bydd uchder o rhwng 2m i 2.4m i'r ffens o amgylch y safle. Bydd clo ar y giatiau.<br><br>Bydd yn dibynnu ar ba ddefnydd ydych chi fel ysgol eisiau ei gynnig i'r gymuned. Gall fod mor hyblyg ag y dymunech. Mae cyfleusterau cymunedol yn yr ysgol, yn |

| | |
|---|---|
| | ogystal â chaeau. Gellir gwneud yr ysgol a'r tir mor ddiogel ag y dymunech. |
| Byddwn yn defnyddio safle ein hysgol bresennol hyd at 2025 o leiaf. Mae'r holiadur cyflwr wedi adnabod gwaith sydd angen ei wneud. A oes cynlluniau i ymgymryd â pheth o'r gwaith hwn nawr? | Mae'r Adran Landlordiaid Corfforaethol yn edrych ar yr holiadur cyflwr ar hyn o bryd ac mae ganddynt gynlluniau i wneud gwaith yn yr ysgol. Bydd y tîm yn cysylltu â'r ysgol i drafod. |
| A fydd maes parcio'r ysgol ar gael i'r gymuned y tu hwnt i oriau? | Yr ysgol fydd yn penderfynu ar ddefnydd y gymuned. Os yw'r ysgol am i barcio fod ar gael ar gyfer y gymuned, gellid defnyddio maes parcio'r staff a'r ardal ddanfon. |
| Sut wnaethoch chi gyrraedd y fformiwla o ysgol 2.5 dosbarth mynediad? | Ystyriodd swyddogion gyfuniad o opsiynau er mwyn uchafu'r addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Ar hyn o bryd, nid oes gennym ysgol fwy nag ysgol 2.5 dosbarth mynediad ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Y cynnig hwn fydd yr ysgol fwyaf sydd gennym ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Byddai ysgol 3 dosbarth derbyn yn fawr iawn ac yn cael ei hystyried yn rhy fawr. Mae rhagor o gynlluniau i wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal, fel y nodir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. |
| O ran mynediad i'r gymuned, pa oleuadau fydd yn cael eu darparu y tu hwnt i oriau? | Nid yw llifoleuadau ar gyfer y cae wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn; wedi dweud hynny byddwn yn cynnwys y seilwaith ar gyfer llifoleuadau er mwyn eu gosod yn y dyfodol. Bydd digonedd o olau i'r llwybrau troed a'r mannau allanol fel rhan o'r cynllun. |
| Rydym wedi trafod y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac adeiladau ychwanegol ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'r de-ddwyrain, ai ar gyfer ysgolion cynradd neu uwchradd yw hwn? | O ran y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae cynnig yn bodoli am ysgol ddwy ffrwd ym Mharc Afon Ewenni (1 dosbarth mynediad cyfrwng Cymraeg ac 1 dosbarth cyfrwng Saesneg), ac mae'r awdurdod lleol yn ymgymryd â gwerthusiad opsiynau ar hyn o bryd ar gynnig am ysgol cyfrwng Cymraeg i bob oed rhwng 3 a 19 oed, wedi'i lleoli yng nghanol sir Pen-y-bont ar Ogwr. |
| Mae gennym nifer o ardaloedd o laswelltir a byddwn wrth fy modd yn gweld mwy yn cael eu cynnwys. | Mae cryn dipyn o ardal werdd, edrycha'n llawer llai ar y dyluniad nag ydyw go iawn. Byddwn yn trafod hyn ymhellach yn y cam dylunio. |
| A oes rhaid i ni gynnwys llyn ar y safle? | Mae cynlluniau am gorstir ac mae angen cynnwys cynllun Datrysiad Draenio Trefol Cynaliadwy. Byddwn yn ceisio gwella ecoleg a bioamrywiaeth y safle. |
| Ymhellach i'r drafodaeth yn ymwneud ag ystyried ysgol 3 dosbarth mynediad. Crybwyllwyd nad oes ysgol fwy nag ysgol | Ystyriodd swyddogion nifer o opsiynau. Roedd y gost a'r strategaeth hirdymor yn ymwneud â darpariaeth addysg cyfrwng |

| | |
|---|---|
| 2.5 dosbarth mynediad yn y sir. Pam nad ydych chi'n ystyried ysgol 3 dosbarth mynediad?<br><br>Sawl dysgwr fydd ym mhob grŵp oedran?<br><br>Beth am gadw'r Ysgol Gymraeg Bro Ogwr bresennol yn ysgol 2 ddosbarth mynediad ac adeiladu ysgol 2.5 dosbarth mynediad yn ne'r sir? Bydd hyn yn cynyddu addysg cyfrwng Cymraeg.<br><br>A fydd yr ysgol ym Mhorthcawl yn ysgol newydd, neu a fydd Ysgol y Ferch o'r Sgêr yn symud i Borthcawl? | Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ffactorau pwysig. Yr opsiwn ysgol 2.5 dosbarth mynediad oedd yr opsiwn dewisol. Ychwanegodd XX ein bod wedi edrych ar sawl opsiwn gwahanol, gan gynnwys costau, maint y safle a'r addasrwydd. Mae'r awdurdod lleol yn awyddus i greu mwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn adrannau sydd i ddod o'r rhaglen. Ysgol 2.5 dosbarth mynediad yw'r adeilad ysgol mwyaf yn y rhaglen bresennol.<br><br>75 fesul grŵp blwyddyn ac mae lle i 90 yn y dosbarth meithrin.<br><br>Mae buddsoddiad sylweddol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn y rhan hon o'r rhaglen. Yn ogystal â hyn, mae gennym fuddsoddiad cyfalaf gan Lywodraeth Cymru. Pen-y-bont ar Ogwr yw un o dderbynwyr mwyaf gofal plant cyfrwng Cymraeg ar draws holl awdurdodau lleol Cymru. Mae rhaglen uchelgeisiol sy'n cael cyllid cyfatebol gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn falch o fynd ymlaen â'r ysgol egin cyfrwng Cymraeg ym Mhorthcawl fel ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ym Mand C ym Mhorthcawl. Y bwriad yw ehangu addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg a darparu ysgol ar gyfer disgyblion 3-19 oed.<br><br>Bydd ysgol egin y blynyddoedd cynnar ac ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd. Bydd Ysgol y Ferch o'r Sgêr yn aros ar ei safle presennol. |
| Nid yw'r Llywodraethwyr wedi cael unrhyw ohebiaeth neu gyfathrebiad ynglŷn â datganiad i'r wasg diweddar Prif Weinidog Cymru, sy'n mynegi diddordeb am ddosbarth dwbl symudol ychwanegol. A fydd ein nifer derbyniadau disgyblion yn ymestyn i baratoi at yr adeilad newydd?<br><br>Gwnaethpwyd y datganiad i'r wasg Ddydd Gŵyl Dewi a daeth yr e-bost i law ar y dydd Gwener. | Mae angen gwneud mwy o waith i bennu'r nifer derbyniadau disgyblion ac mae angen i'r swyddogion gael trafodaeth gyda'r pennaeth. Yn dilyn y cyhoeddiad, anfonwyd e-bost i'r ysgol. Er y cymeradwywyd y mynegiant o ddiddordeb, mae proses achos busnes yn bodoli ar gyfer Llywodraeth Cymru, a fydd yn cael ei gyflwyno erbyn 31 Mawrth. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried opsiynau ynglŷn â lleoliad posibl ar gyfer yr uned symudol ar safle'r ysgol.<br><br>Ymddiheurwn am y pryderon a godwyd gan y corff llywodraethu na wnaethom gyfathrebu'n effeithiol. Nid oedd yr awdurdod lleol yn disgwyl y cyhoeddiad ac ni chawsant rybudd ymlaen llaw. Mae |

| | |
|---|---|
| | Llywodraeth Cymru wedi cydnabod ein huchelgais i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg. |
| Nid wyf wedi gweld cynlluniau ar gyfer ysgol ddwyieithog. Rwy'n credu bod y bwriad o ysgol uwchradd i ddisgyblion 3 i 19 oed yn dda. A fydd digon o alw am 2 ysgol gyda'r un grwpiau oedran, a'r rheini mor agos at ei gilydd. | Mae swyddogion yn parhau i gwrdd â'r ysgolion ynghlwm ac yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael i ganoli addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir.<br><br>Mae cynlluniau i ddatblygu ysgol ddwyieithog ar safle Parc Afon Ewenni, sy'n ddatblygiad preswyl newydd arfaethedig. Mae angen darpariaeth addysg arnom i wneud lle ar gyfer preswylwyr y datblygiad tai newydd arfaethedig. Bydd yn ysgol 2 ddosbarth mynediad; 1 dosbarth mynediad cyfrwng Cymraeg ac 1 dosbarth mynediad cyfrwng Saesneg.<br>Os ydym am greu lleoedd addysg cyfrwng Cymraeg, dylem ddenu dysgwyr i lenwi'r lleoedd hynny o ardal y de-ddwyrain. |
| Nid oes darpariaeth i fyfyrwyr awtistig yn y cyfnod sylfaen i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae nifer o blant yn credu nad yw plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. | |
| Po fwyaf o ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yr ydym yn ei chreu, po fwyaf fydd y galw am staff. Gyda phwy ydym ni'n cysylltu i geisio denu mwy o athrawon Cymraeg i'r proffesiwn? Byddwn yn cystadlu â'r ysgolion Cymraeg ym Mhorthcawl. | Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynyddu'r nifer o athrawon o ansawdd yn gyffredinol. Cydnabyddwn fod hyn yn heriol. Rydym yn helpu athrawon llanw gyda chostau teithio ychwanegol. Bydd yr awdurdod lleol yn ystyried yr effaith mae cyfleusterau parcio yn ei chael wrth ddenu a chadw staff. Mae'r agenda Datgarboneiddio 2030 yn hollbwysig, yn yr un modd â'r agenda Cymraeg 2050, rydym am iddynt ffynnu gyda'i gilydd. Byddwn yn gweithio'n greadigol ac ar y cyd â grwpiau iaith Gymraeg. |
| Mae'r cynlluniau yn destun cyffro mawr. Mae ffordd o ymdrin â'r problemau drwy feddwl yn greadigol a gweithio gyda'n gilydd. | |

**ATODIAD 2**

**Ysgol Gymraeg Bro Ogwr**
**Cyfarfod Ymgynghori**
**Gyda Chyngor Cymuned Bracla**
**Dydd Iau 10 Mawrth 2022**
**10am-11am**

Yn bresennol: 4 x Staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
1 x Pennaeth
2 x Aelod o Gyngor Cymuned Bracla

Cyflwynodd Rheolwr y Rhaglen Ysgolion y sesiwn ymgynghori a sefydlu diben y cyfarfod, natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellu'r cynnig. Rhoddodd y Prif Gynorthwyydd Pensaernïol drosolwg o strwythur y safle a'r pwyntiau mynediad. Bydd yr ysgol wedi'i dylunio i gyflawni Carbon Sero Net.

| **Cwestiynau/Materion** | **Atebion/Sylwadau** |
|---|---|
| Y nifer derbyniadau disgyblion yw 75. Bwriad agenda Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yw cyflawni 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2025 ac rwy'n rhagweld y bydd y nifer o bobl sy'n ceisio addysg Gymraeg yn cynyddu. A ydych wedi ystyried capasiti ychwanegol ar gyfer y cynnydd posibl hwn ac a fyddai angen ehangu'r ysgol yn y blynyddoedd sydd i ddod? | Yr opsiwn ysgol 2.5 dosbarth mynediad oedd yr opsiwn dewisol ar gyfer lleoliad yr ysgol. Mae YG Bro Ogwr yn ffurfio rhan o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ehangach dros 10 mlynedd i gynyddu addysg cyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae cynnig yn bodoli am ysgol ddwy ffrwd ym Mharc Afon Ewenni (1 dosbarth mynediad cyfrwng Cymraeg ac 1 dosbarth cyfrwng Saesneg), a chynnig am ysgol cyfrwng Cymraeg i bob oed rhwng 3 a 18 oed, wedi'i lleoli yng nghanol sir Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Mae dyluniad y safle yn caniatáu ehangu'r ysgol i wneud lle am ragor o alw am leoedd yn y dyfodol. Mae lle ar y safle i adeiladu estyniad 4 dosbarth dau lawr, os byddai'r angen yn codi yn y dyfodol. |
| A fydd gan yr ysgol y capasiti i hwyluso dosbarth cymunedol i oedolion er mwyn cynnig mwy o gyfleoedd i ddysgu Cymraeg? | Mae defnydd cymunedol o'r ysgol yn benderfyniad i'r corff llywodraethu. Bydd neuadd a chegin gymunedol yn nhu blaen yr adeilad. Bydd y rhain wedi'u gosod oddi wrth y dosbarthiadau er mwyn sicrhau diogelwch.<br>Mae'r ysgol wedi bod yn cynnal dosbarthiadau i oedolion, ond mae diffyg lle ar hyn o bryd. Bydd hwn yn gyfle y byddwn yn manteisio arno yn yr ysgol newydd, gan weithio gyda Menter Bro Ogwr. |

| | |
|---|---|
| A fydd cyfleusterau chwaraeon ar gael i'r gymuned eu defnyddio gyda'r nos ac ar benwythnosau, a sut allant fynd ati i ddefnyddio'r cyfleusterau?<br><br>Fel cyngor cymuned, hoffem barhau i weithio â'r ysgol, cynnal trafodaeth agored a hwyluso gwaith cymunedol. | Bydd 2 gae chwarae yn yr ysgol. Bydd y caeau hyn wedi'u diogelu gan ffens ddiogelwch. Yr ysgol sydd i benderfynu ar ddefnydd y caeau. Rydym yn gobeithio y bydd y gymuned yn elwa ohonynt. Gellir codi costau/incwm rhent er mwyn helpu tuag at gynnal a chadw.<br><br>Nid yw llifoleuadau ar gyfer y cae wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn; wedi dweud hynny byddwn yn cynnwys y seilwaith ar gyfer llifoleuadau er mwyn eu gosod yn y dyfodol. Mae Cynghorau Cymuned wedi cyfrannu at y gost o lifoleuadau mewn prosiectau blaenorol.<br><br>I gydymffurfio â Dull Asesu Amgylcheddol Sefydliad Ymchwil Prydain, byddwn yn cynnwys cyfleusterau storio beiciau, gyda chawodau ac ystafelloedd newid. |
| Rwyf ar ddeall bod cais cynllunio wedi'i ganiatáu ar gyfer datblygu tai newydd ger y milfeddygon; pa asesiadau traffig sydd wedi'u gwneud yn yr ardal?<br><br>A fydd y palmentydd a'r llwybrau troed presennol yn cael eu gwella fel rhan o'r datblygiadau ysgol ehangach er mwyn hwyluso teithio llesol i'r ysgol ac oddi yno? | Mae Redstart wedi ymgymryd ag asesiad effaith ar draffig llawn a fydd yn pennu pa welliannau fyddai angen eu gwneud o ran llwybrau teithio llesol a'r brif ffordd. Gallwn roi rhagor o fanylion i chi os bydd angen. Bydd yr asesiad effaith ar draffig yn cael ei ystyried gan ein tîm priffyrdd a byddant yn sicrhau bod unrhyw awgrymiadau a wneir yn cael eu datblygu fel rhan o'r broses gwneud cais am ganiatâd cynllunio. Maent wedi ystyried goblygiadau'r safle ei hun a'r ardal ehangach mae'r ysgol yn ei gwasanaethu.<br><br>Rydym yn awyddus i leoli llwybr teithio llesol y tu allan i ffiniau'r ysgol a fydd yn cysylltu ystad ddiwydiannol Bracla â'r gylchfan. Gall ein tîm priffyrdd roi rhagor o wybodaeth. |
| A ragwelir y bydd mwy o ddysgwyr o'r tu allan i Fracla a'r dalgylch lleol yn mynychu'r ysgol hon?<br><br>A fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gwneud mwy i annog preswylwyr lleol Bracla i ystyried dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn YG Bro Ogwr? | Ni allwn gadw lleoedd ar gyfer ardal benodol, rhaid i'r ysgol dderbyn disgyblion yn ôl y nifer derbyniadau disgyblion. Yn draddodiadol, mae YG Bro Ogwr wedi bod yn gwasanaethu Porth y Cymoedd, Pencoed ac ardaloedd trefi Pen-y-bont ar Ogwr a bydd yn parhau i wasanaethu'r fwrdeistref sirol hyd nes y ceir ysgolion newydd eu datblygu. Byddai ysgol newydd arfaethedig yn y de-ddwyrain yn denu dysgwyr o ardaloedd Pencoed a Llangrallo, a fydd yn creu mwy o leoedd yn YG Bro |

| | |
|---|---|
| | Ogwr i ddenu dysgwyr o ardaloedd mwy canolog.<br><br>Ar hyn o bryd, mae oddeutu hanner y dysgwyr sy'n mynychu YG Bro Ogwr yn teithio i'r ysgol gyda thrafnidiaeth ysgol. Mae oddeutu 80% o ddysgwyr yn mynychu o'r tu hwnt i ardal Bracla. Nid oes gan ysgolion cyfrwng Cymraeg ddalgylch. Serch hynny, mae dalgylchoedd i drafnidiaeth ysgol ac mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr sy'n mynychu YG Bro Ogwr yn gymwys am drafnidiaeth ysgol. Ar hyn o bryd, mae saith bws ysgol mawr a thri bws mini ar y safle bob dydd. Bydd cyfarwyddo trafnidiaeth ysgol i du cefn yr ysgol yn ddelfrydol. Rwy'n credu y byddai ysgol newydd yn mynychu mwy o ddysgwyr o ardal Bracla.<br><br>Mynegodd XX fod yr ysgol eisiau gweithio gyda'r Cyngor Cymuned o ran defnydd y gymuned ac yn awyddus i geisio cyngor ac arweiniad yn ymwneud â'r hyn sydd wedi gweithio ac nad yw wedi gweithio yn ystod prosiectau ysgolion newydd eraill. |
| Mae'r cyngor cymuned yn croesawu cynnydd mewn bioamrywiaeth ac ecoleg ar y safle. Mae aelodau yn awyddus iawn i wella a phannu coed ym Mracla. | |
| Caeau chwaraeon 4G neu 3G? | Gelwir y cae llai yn garped glaswellt, sydd fel arfer yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pêl-droed 5 bob ochr a hoci etc. Bydd y cae mwy yn 3G, yn addas at ddefnydd gan y gymuned a gofynion hyfforddiant. Fel arfer, defnyddir caeau 4G ar gyfer gemau chwaraeon cystadleuol. |
| O ran safle YG Bro Ogwr, darllenais fod potensial am ysgol cyfrwng Saesneg newydd | Mae potensial am ysgol cyfrwng Saesneg newydd ar y safle, gan ddefnyddio'r adeilad presennol. Bydd yr ysgol yn llai nag ydyw ar hyn o bryd. Byddwn yn sicrhau bod y lle yn yr adeilad yn cydymffurfio â chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru. Bydd y prosiect posibl hwn yn destun canlyniad llwyddiannus y cynllun hwn a bydd yn gofyn proses ymgynghori ar wahân. |

**ATODIAD 3**

**Ysgol Gymraeg Bro Ogwr**
**Cyfarfod Ymgynghori**
**gyda Chyngor Cymuned Coety**
**Dydd Iau 10 Mawrth 2022**
**6:30pm-7pm**

Yn bresennol: 4 x Staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
1 x Pennaeth
7 x Aelod o Gyngor Cymuned Coety

Rhoddwyd cyfarwyddiadau. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd bawb i'r sesiwn a chyflwynodd Rheolwr y Rhaglen Ysgolion y sesiwn ymgynghori, gan sefydlu diben y cyfarfod, natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellu'r cynnig. Rhoddodd y Prif Gynorthwyydd Pensaernïol drosolwg o strwythur y safle a'r pwyntiau mynediad. Bydd yr ysgol wedi'i dylunio i gyflawni Carbon Sero Net.

| **Cwestiynau/Materion** | **Atebion/Sylwadau** |
|---|---|
| Mae problemau wedi codi yn yr ardaloedd danfon yn Ysgolion Cynradd Brynmenyn, Pencoed a Choety. A oes rhagor o ystyriaeth wedi bod ynghylch yr ardal ddanfon yn YG Bro Ogwr? | Rydym yn gwbl ymwybodol o'r sefyllfa yn ymwneud â'r ardaloedd danfon. Mae'r problemau hyn yn codi o ymddygiad defnyddwyr. Mae trafodaeth gyda'n hadran briffyrdd a'r tîm iechyd a diogelwch yn dal i fynd rhagddi. Byddwn yn ystyried y gwersi a ddysgwyd o ysgolion eraill a byddwn yn cynnal gweithdy i bennu pa un ai a fydd y mesurau lliniaru mewn ysgolion eraill yn gweithio'n effeithiol yn YG Bro Ogwr. Yn dilyn canlyniad y gweithdy, gall y tîm gytuno ar ffordd ymlaen ar gyfer y parth danfon, boed yn cael ei leoli ar dir yr ysgol, neu'r tu allan iddo. |
| Rwyf wedi bod yn ystyried hyn dros y flwyddyn ddiwethaf. Bydd rhai rhieni yn achosi problemau, ond y problemau mwyaf, yn enwedig ym Mrynmenyn a Choety, yw eu bod wedi'u hadeiladu yn lleoedd lle nad oedd parthau danfon yn addas. Mae Canolfan Lesiant a datblygiad newydd ym Mrynmenyn, nid oes digon o le ar y safle. Nid yw'n rhesymol rhoi'r bai ar rieni; cafwyd methiannau difrifol yng nghynllunio Brynmenyn a Choety. Mae angen strategaeth well ar gyfer parthau danfon. Mae hyn yn ymwneud â diogelwch plant, nid ydym eisiau damweiniau ac nid ydym | Gallaf eich sicrhau bod hyn yn cael ei ystyried. Mae gwaith helaeth wedi'i wneud gan ein cydweithwyr iechyd a diogelwch, swyddogion priffyrdd ac addysg a'r ysgolion eu hunain. Rydym am sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei ddarparu yn addas at y diben. Diogelwch dysgwyr sy'n hollbwysig. Mae lleoliad yr ardal ddanfon yn allweddol a byddwn yn gweithio gyda'n cydweithwyr cynllunio a phriffyrdd i sicrhau ei bod yn ddiogel. |

| | |
|---|---|
| eisiau agor parthau danfon a'u cau yn ddiweddarach. A allwch sicrhau y bydd hyn yn cael ei ystyried? | |
| Nid wy'n hyderus bod gwersi wedi'u dysgu o'r sefyllfa ym Mrynmenyn a Phencoed. Cododd y sefyllfa yng Nghoety yn gyntaf a gwn y cafodd swyddogion eu rhybuddio am Goety a gwnaethant ein sicrhau y byddai gwersi yn cael eu dysgu a'u rhoi ar waith ym Mhencoed a Brynmenyn - yn amlwg nid dyma'r achos, fel arall ni fyddwn yn y sefyllfa hon. Rwy'n fodlon i chi ymateb yn hwyrach, os nad ydych am wneud hynny nawr. | Rwy'n deall eich pryderon. Roeddwn yn gyfarwydd iawn â'r dyluniadau ar gyfer Brynmenyn, Coety a Phencoed. Cafodd yr ardaloedd danfon hyn eu dylunio ar gais ein hadran briffyrdd. Rhaid i ni weithio gyda'n tîm priffyrdd i sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei ddarparu yn addas at y diben. Rydym wedi dysgu gwersi gan bob un o'r cynlluniau hyn. Ymddengys bod yr ardal ddanfon ym Mhencoed yn well o ran ei dyluniad, yn hytrach nag ardal ddanfon hir fel y gwelir yn Ysgol Gynradd Brynmenyn. Nid yw'r ardal ddanfon yn Ysgol Gynradd Coety erioed wedi'i hagor. Bydd y gwersi a ddysgwyd yn cael eu hymgorffori yn y cynllun hwn yn YG Bro Ogwr. |
| Mae plant Coety yn mynychu YG Bro Ogwr, ac mae preswylwyr yn bryderus bod yr ysgol bresennol wedi cyrraedd ei chapasiti. Cafodd Ysgol Gynradd Coety ei hadeiladu'n rhy fach ac mae rhieni, llywodraethwyr a staff yn YG Bro Ogwr yn bryderus y gwnewch chi'r un camgymeriad eto. Nid yw perfformiad o'r gorffennol yn pennu perfformiad y dyfodol, ond nid oes gennych gefndir da iawn. Hoffwn ddeall pam eich bod wedi penderfynu ar ysgol 2.5 dosbarth mynediad, yn hytrach nag ysgol 3 dosbarth mynediad. Dylech fod yn sicrhau dyfodol yr ysgol hon. | Pennwyd maint yr ysgol gan broses gwerthuso opsiynau a wnaethpwyd gan yr awdurdod lleol er mwyn uchafu addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Yr opsiwn ysgol 2.5 dosbarth mynediad oedd yr opsiwn dewisol ar gyfer lleoliad yr ysgol. Mae YG Bro Ogwr yn ffurfio rhan o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ehangach dros 10 mlynedd i gynyddu addysg cyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae dyluniad y safle yn caniatáu ehangu'r ysgol i wneud lle am ragor o alw am leoedd yn y dyfodol. Mae lle i greu pedwar dosbarth ychwanegol. Byddai hyn yn creu ysgol 3 dosbarth mynediad, petai'r galw am leoedd yn codi yn y dyfodol. |
| Llwybr troed anffurfiol sy'n arwain o Glwb Snwcer Bracla, a oes modd ffurfioli a chynnwys y llwybr troed? | Bydd tir yr ysgol yn ddiogel. Bydd llwybr teithio llesol o amgylch terfyn allanol safle'r ysgol a bydd yn cysylltu'r ystad ddiwydiannol â'r safle preswyl. |
| Beth yw'r cynlluniau ar gyfer yr ysgol bresennol? Rydych chi'n dweud bod angen gwaith atgyweirio brys arni a'i bod yn rhy fach. | Mae potensial am ysgol cyfrwng Saesneg newydd ar y safle, gan ddefnyddio'r adeilad presennol. Bydd y prosiect posibl hwn yn destun canlyniad llwyddiannus y cynllun hwn a bydd yn gofyn proses ymgynghori ar wahân. Mae gan yr ysgol ôl-groniad o waith cynnal a chadw gwerth £750k. Bydd angen gwneud peth o'r gwaith yn YG Bro Ogwr nawr, gan y byddant yn defnyddio'r adeilad hyd at 2025, rydym eisiau sicrhau bod unrhyw waith atgyweirio a chynnal a chadw yn cael ei wneud yn syth. |

| | |
|---|---|
| Pa blant fyddai'n llenwi ysgol cyfrwng Saesneg newydd?<br><br>Felly, rydych chi'n dweud eich bod wedi adeiladu Ysgol Gynradd Coety yn rhy fach, ac y bydd rhaid i breswylwyr anfon eu plant i Fracla. Bydd polisi trafnidiaeth Rhwng yr Ysgol a'r Cartref o reol cerdded dwy filltir yn berthnasol a bydd gofyn i'r holl blant gerdded i Fracla, yn hytrach na mynychu eu hysgol agosaf.<br><br>Dalgylch Llidiart yw hwnnw, nid Coety<br><br>Does dim angen y dalgylchoedd arnaf, diolch. | Mae nifer o ddatblygiadau tai newydd yn yr ardal ac ar hyn o bryd mae galw sylweddol am leoedd i ddisgyblion. Bydd adolygiad yn cael ei wneud o ddalgylch yr ardal leol; byddant yn dod o ardal ddaearyddol dalgylchoedd Bracla a Choety.<br><br>Mae peth o ddalgylch presennol Ysgol Gynradd Coety wedi'i leoli ger y safle. Er enghraifft, y datblygiadau newydd ger Shepherds Vets.<br><br>Mae'r fan honno yn rhan o ddalgylch Ysgol Gynradd Coety. Os oes newidiadau i'r dalgylchoedd, bydd hynny'n amodol ar broses ymgynghori. Wedi dweud hynny, ni ellir gwneud hynny nes bod y broses hon yn dod i ben. Os hoffech i mi rannu'r ffiniau dalgylch ar gyfer yr ysgolion presennol, gallaf wneud hynny. |
| Mae'r tir lliw gwyrddlas yn dir mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn berchen arno. Rydym wedi cael gwybodaeth gyn-cynllunio gan Wales and West am ddatblygiad tai posibl yn yr ardal. A yw'r datblygiad hwn yn bryniant ar y cyd ac os nad yw'r tai yn mynd rhagddynt, a yw hyn yn tanseilio datblygu'r ysgol? | Mae pryniant y safle eisoes wedi'i gytuno. Nid yw'n ddibynnol ar y datblygiad tai, sydd wedi'i leoli ar dir ger Shephers Vets. Nid y tir lliw gwyrddlas ar y cynllun mohono. Credaf fod proses cyn-ymgynghori yn cael ei gwneud mewn perthynas â'r tai. |
| Yr unig fân arsylwad y byddwn i'n ei wneud ar y pwnc pwyntiau danfon, yw ei bod hi'n edrych yn debyg nad yw adran briffyrdd Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn addas at y diben. A ydych wedi ystyried cyflogi ymgynghorwyr rheoli traffig ar gyfer yr ysgol hon? Gallai liniaru problemau a allai godi yn y dyfodol. | Byddwn yn ymgysylltu â'n dylunwyr priffyrdd a byddant yn helpu gyda'n cynlluniau dylunio. Cyn hyn, mae ymgynghoriad a gweithdy yn cael eu cynnal gyda chydweithwyr priffyrdd. |
| Rydych chi'n cyfeirio at "bwyntiau danfon", credaf y byddai'n well eu galw'n "bwyntiau casglu" gan mai dyma lle mae'r prif broblemau. Mae danfon dysgwyr i'r ysgol yn broses weddol gyflym. Mae eu casglu yn cymryd llawer hirach. | Cânt eu defnyddio ar gyfer danfon a chasglu. |

| | |
|---|---|
| Dywedoch chi y bydd 90 o blant yn mynychu'r dosbarth meithrin, ond dim ond 75 fydd yn mynd i bob dosbarth ar ôl y meithrin. | Mae darpariaeth ran amser a llawn amser i'r dosbarth meithrin.  Bydd 75 o leoedd llawn amser ar gyfer disgyblion 3 i 4 oed a bydd darpariaeth ran amser yn gwneud y 15 o leoedd (cyfwerth â llawn amser) eraill (cyfanswm o 30). |
| Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad.  Os oes rhagor o gwestiynau yn dilyn y cyfarfod hwn, anfonwch nhw at y tîm. | |

**ATODIAD 4**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

**Ysgol Gymraeg Bro Ogwr**
**Cyfarfod Ymgynghori**
**gyda Staff Ysgol**
**Dydd Llun 14 Mawrth 2022**
**5pm-6pm**

Yn bresennol: 4 x Staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
1 x Pennaeth
1 x Cyfieithydd Cymraeg
19 x Staff ysgol

Cyflwynodd Rheolwr y Rhaglen Ysgolion y sesiwn ymgynghori a sefydlu diben y cyfarfod, natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellu'r cynnig. Rhoddodd y Prif Gynorthwyydd Pensaernïol drosolwg o strwythur y safle a'r pwyntiau mynediad. Bydd yr ysgol wedi'i dylunio i gyflawni Carbon Sero Net.

| **Cwestiynau/Materion** | **Atebion/Sylwadau** |
|---|---|
| Crybwylloch y bydd cae chwarae pob tywydd, rwy'n cymryd yn ganiataol mai cae 4G fydd hwnnw. A fydd cae pêl-rwyd ar wahân mewn lleoliad gwahanol neu'r un ardal? | Bydd 2 gae, cae carped glaswellt llai, sydd fel arfer yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pêl-droed 5 bob ochr a hoci etc, a chae 3G mwy, at ddefnydd y gymuned a gofynion hyfforddi. Fel arfer, defnyddir caeau 4G ar gyfer gemau chwaraeon cystadleuol. Rwyf wedi sylwi ar ddwy ardal ar y buarth chwarae ar gyfer cyrtiau pêl-rwyd a phêl fasged. |
| Crybwylloch y bydd dau lawr i'r adeilad; yr adran iau ar y llawr cyntaf, a babanod a'r meithrin ar y llawr gwaelod – mae hyn yn glynu wrth arddull cwricwlwm hen iawn. Mae Blwyddyn 3 yng nghyfnod allweddol 2 ac felly dylent fod wedi'u lleoli ym mlynyddoedd 1 a 2. Ydych chi wedi ystyried hyn? | Nid ydym wedi dechrau'r camau dylunio hyd yn hyn. Mae'r dyluniad yr ydych chi'n ei weld yn ddyluniad Ysgol Gynradd Pencoed, er mwyn sicrhau safle addas ar gyfer YG Bro Ogwr. Pan fyddwn yn dechrau dylunio, byddwn yn ymgynghori ac yn ymgysylltu'n llawn â'r ysgol i sicrhau y gallwn gyflawni'ch anghenion hyd eithaf ein gallu. |
| Faint o le gwyrdd fydd gennym ni? Does dim llawer i'w weld ar y dyluniadau. | Mae cryn dipyn o ardal werdd, edrycha'n llawer llai ar y dyluniad nag ydyw go iawn. |
| Gwnaethoch sôn am agenda Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a bod yr ysgol newydd wedi'i anelu at gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn sir Pen-y-bont ar Ogwr. Rydych yn caniatáu hanner dosbarth yn unig mewn ysgol cyfrwng Cymraeg newydd sbon, nid yw hynny'n ymddangos yn gam ymlaen o ystyried Cymraeg 2050. | Eich nifer derbyniadau disgyblion yw 54 a bydd yn cynyddu i 75. Mae hynny'n 21 lle ychwanegol fesul grŵp blwyddyn, gan gynnwys darpariaeth dosbarth meithrin mwy sydd â 90 lle (55 ar hyn o bryd). Mae YG Bro Ogwr yn ffurfio rhan o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ehangach dros 10 mlynedd i gynyddu addysg cyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae cynnig yn bodoli am ysgol ddwy ffrwd ym |

| | |
|---|---|
| <br><br><br><br><br><br>Os mai nifer derbyniadau disgyblion y dosbarth meithrin yw 90, lle'r ydych chi'n rhagweld y byddant yn mynd i ddosbarth derbyn? | Mharc Afon Ewenni (1 dosbarth mynediad cyfrwng Cymraeg ac 1 dosbarth cyfrwng Saesneg), a chynnig am ysgol cyfrwng Cymraeg i bob oed rhwng 3 a 18 oed, wedi'i lleoli yng nghanol sir Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Mae darpariaeth ran amser a llawn amser i'r dosbarth meithrin. Bydd 75 o leoedd llawn amser ar gyfer disgyblion 3 i 4 oed a bydd darpariaeth ran amser yn gwneud y 15 o leoedd (cyfwerth â llawn amser) eraill (cyfanswm o 30). |
| Mae diffyg llefydd i storio yn ein hysgol, ar gyfer offer ac o fewn dosbarthiadau. Nid oes digon o blygiau / pwyntiau trydan. Hoffem weithio gyda chi ar y cam dylunio er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau hyn yn gywir.<br><br><br><br><br><br>Hoffem gynnwys ardal sgrin werdd. | Gan gyfeirio at brosiectau Band A: mae gan bob dosbarth ei storfa ei hun, a bydd gan bob dosbarth gegin, gyda lle i storio mewn cypyrddau cegin. Y tu hwnt i'r dosbarthiadau, bydd siopau cwricwlwm a chryn dipyn o le i storio o dan y grisiau. Os allwch drefnu ymweliad ag Ysgol Gynradd Pencoed, gallwch weld yr hyn yr ydym wedi'i gynnwys yno. Bydd yr un peth yn berthnasol i bwyntiau trydan.<br><br>Bydd lle yn y maes dysgu am sgrin werdd a byddwn yn gweithio gyda chi i greu gofod defnyddiol. |
| O fewn y ddogfen gynllunio, mae gwybodaeth yn nodi na fydd digon o leoedd parcio ar gyfer staff addysgu? | Rhaid i ni lynu wrth bolisi cynllunio Llywodraeth Cymru. Rydym yn ymwybodol eich bod yn bryderus ynghylch parcio. Bydd angen i ni gynnal gweithdy ar wahân gyda'n tîm priffyrdd i drafod priffyrdd a pharcio fel rhan o ddatblygu'r dyluniad. |
| Hoffa XX ategu at y sylwadau a godwyd gan XX yn ymwneud â pharcio a XX yn ymwneud â'r cwricwlwm.<br>Mae'n siom nad ydych yn ystyried ysgol 3 dosbarth mynediad, ond rwy'n deall y rhesymau wrth wraidd y penderfyniad. | Fel y trafodwyd uchod, mae'n ffurfio rhan o gynllun a fforddiadwyedd ehangach. |
| Hoffwn drafod cyfleusterau parcio. Rydym yn recriwtio o ardal eang yn ne Cymru, a'r fan bellaf yw Caerfyrddin. Nid yw'n dderbyniol teithio mor bell a methu â chael lle parcio. Rwy'n deall bod polisi cynllunio yn bodoli, ond mae hyn yn broblem. | Mae'n bwysig bod yr awdurdod yn cydnabod y problemau sydd gan yr ysgol ar hyn o bryd ac rydym am sicrhau y cânt eu datrys wrth i ni symud ymlaen. |
| A fydd yr ysgol yn ddigon mawr? Mae YG Bro Ogwr wedi'i hehangu ddwywaith ac wedi cael dau ddosbarth symudol. | Rydym yn adeiladu'r ysgol â 2.5 dosbarth mynediad, ond mae dyluniad y safle yn caniatáu ehangu'r ysgol er mwyn gwneud lle am ragor o alw am leoedd yn y dyfodol. Mae cyfle i adeiladu estyniad 4 dosbarth. Byddai hyn yn gwneud yr ysgol yn ysgol 3 dosbarth mynediad. Mae'r prosiect hwn yn rhan o gynllun ehangach i adeiladu mwy o |

| | |
|---|---|
| | ysgolion yn lleol i Ben-y-bont ar Ogwr a'r de-ddwyrain. |
| Diolchodd XX i bawb am eu hadborth. Y prif beth yw sicrhau bod y strwythur yn gywir a sicrhau ei fod yn addas ar gyfer y cwricwlwm i Gymru; maint ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored, cyfleusterau storio, pwyntiau trydan a'r caeau chwarae. Mae'r mater parcio yn codi ym mhob cyfarfod ac rwyf wedi codi'r pryderon gyda'n tîm cymunedau. Rwy'n ymwybodol o'r mater bod angen i ni recriwtio a chadw staff cyfrwng Cymraeg ac nid ydym am i broblemau parcio atal hynny. Mae staff cefnogi yn hynod werthfawr, a gallwn weld y buddion sydd ynghlwm ag athrawon a staff cefnogi yn cael mynediad at yr un cyfleusterau. | Mae sicrhau dyfodol yr ysgol yn bwysig ac rydym am weithio gyda chi i ddylunio'r ysgol. Rydym wedi cael adborth cryf gan aelodau fforwm Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn ymwneud ag adeiladu mwy o ysgolion, yn hytrach na llai o ysgolion mwy. Rydym yn ymrwymedig i ddatblygiad sydd i ddod ym Mhorthcawl, y de-ddwyrain a chanol Pen-y-bont ar Ogwr. Rydym am i hyn weithio. Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw sylwadau neu syniadau. |
| A allwch egluro lle mae'r ardal ar gyfer ehangu yn y dyfodol?<br><br>Petai estyniad yn cael ei adeiladu, o le fydd y buarth ychwanegol yn dod? | Bydd y bloc addysgu dau lawr yn cael ei ddylunio er mwyn ei ehangu petai angen. Caiff ei adnabod yn "fuarth" ar y dyluniadau.<br><br>Mae'r safle yn ddigon mawr ar gyfer buarth yn yr ardal bresennol. Byddwn yn marcio ar y dyluniad "tir ar gyfer datblygiad y dyfodol". Mae'r dyluniad yn sicrhau dyfodol yr ysgol ar gam cynnar. |
| Mae'n dda iawn eich bod yn awyddus i weithio gyda ni a gwneud yr adeilad yn addas ar gyfer y cwricwlwm newydd yng Nghymru. Gall ysgol 2.5 dosbarth mynediad fod yn rhwystr, byddai'n well rhoi'r arian tuag at ysgol cyfrwng Cymraeg arall ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn hytrach na rhoi 2.5 dosbarth mynediad i ni. Os oes rhaid lleoli blwyddyn 3 i fyny'r grisiau, byddai angen i blant y babanod ddringo'r grisiau er mwyn ceisio'r cwricwlwm gan y byddant yn cael eu cyfrif yn ddosbarth blwyddyn 2 a blwyddyn 3 wedi'i rannu. | Mae meintiau dosbarth yn ysgol bresennol YG Bro Ogwr yn rhy fach ac mae angen datrys hyn. Rhaid i ni sicrhau bod maint dosbarthiadau yn cael ei bennu yn ôl canllawiau Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru. Rydych yn defnyddio'r adeilad hyd ei eithaf, dylai fod yn ysgol 1.5 dosbarth mynediad. Mae galw am leoedd yn yr ysgol ac mae angen i ni fodloni hwnnw. Mae cynllun tymor hir yn bodoli. Rhaid i ni hyrwyddo'r iaith Gymraeg a rhaid i ni gyflawni'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae Llywodraeth Cymru am i ni greu ysgolion cyfrwng Cymraeg. |
| A fydd llwybr cerdded ar dir yr ysgol? | Bydd tir yr ysgol yn ddiogel. Bydd llwybr teithio llesol o amgylch terfyn allanol safle'r ysgol a bydd yn cysylltu'r ystad ddiwydiannol â'r safle preswyl. |
| Pam na ystyriwyd ysgol 3 dosbarth mynediad o'r dechrau un? | Ymgymerasom â chyfuniad o opsiynau er mwyn uchafu addysg cyfrwng Cymraeg yr ardal. Ar hyn o bryd, nid oes gennym ysgol fwy nag ysgol 2.5 dosbarth mynediad ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Y cynnig hwn fydd yr ysgol fwyaf sydd gennym ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Byddai ysgol 3 dosbarth derbyn |

| | |
|---|---|
| | yn fawr iawn ac yn cael ei hystyried yn rhy fawr. Mae rhagor o gynlluniau i wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal, fel y nodir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. |
| A fydd lifftiau i'r llawr uchaf a mynediad anabl? | Bydd yr adeilad yn cydymffurfio'n llawn, gan gynnwys lifftiau a rampiau. |
| Rydym eisiau i chi ofyn cwestiynau a rhannu cyngor. Os ydych chi'n sylwi ar bethau nad ydych chi'n credu a fyddai'n gweithio, mae angen i ni wybod hynny. Os oes rhagor o gwestiynau yn dilyn y cyfarfod hwn, anfonwch nhw at y tîm. | |

**ATODIAD 5**

**Ysgol Gymraeg Bro Ogwr**
**Cyfarfod Ymgynghori**
**Cyngor Ysgol**
**Dydd Mawrth 15 Mawrth 2022**
**2pm-3pm**

Yn bresennol: 4 x Staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
1 x Pennaeth
1 x Cyfieithydd Cymraeg
12 x Aelod o gyngor / dysgwyr yr ysgol

Cyflwynodd Pennaeth YG Bro Ogwr y sesiwn ymgynghori a chroesawu'r dysgwyr sy'n rhan o'r Cyngor Ysgol. Rhoddodd y Rheolwr Prosiect drosolwg o'r ddogfen ymgynghori dysgwyr ac amlinellu'r cynnig. Rhoddodd y Prif Gynorthwyydd Pensaernïol drosolwg o strwythur y safle a'r pwyntiau mynediad, gan egluro ein bod yn gweithio i gyflawni ysgol Carbon Sero Net.

| Cwestiynau/Materion | Atebion/Sylwadau |
|---|---|
| A fydd paneli solar ar yr ysgol newydd? | Bydd, bydd paneli solar ar yr ysgol. Byddwn hefyd yn darparu ynni i adeilad yr ysgol drwy bympiau gwres o'r awyr a phympiau gwres o'r ddaear. Byddwn yn osgoi'r defnydd o danwyddau ffosil. |
| Beth yw'r cynlluniau ar gyfer cyfleusterau ailgylchu ac arbed dŵr? | Rhaid i ni nodi ffitiadau a gosodiadau penodol er mwyn arbed dŵr yn yr ysgol. Er enghraifft, pan fyddwch yn fflysio toiled; bydd y sistern o faint penodol er mwyn lleihau'r dŵr a ddefnyddir. Rydym yn ymchwilio i opsiynau i gasglu dŵr glaw er mwyn ei ail-ddefnyddio i fflysio toiledau. |
| A fydd pwyntiau gwefru ar gyfer ceir trydan? | Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda'n peiriannydd trydanol. Efallai y bydd yn bosibl cynnwys dau neu dri phwynt gwefru. Byddwn yn sicrhau dyfodol yr opsiwn, er mwyn i ni allu ychwanegu pwyntiau gwefru ar gyfer ceir trydan, petai angen. |
| A fydd enw newydd i'r ysgol? | Mae enw'r ysgol yn fater i gorff llywodraethu'r ysgol. |
| A fydd ystafelloedd cyfarfod yn yr ysgol newydd? | Bydd, bydd ystafelloedd cyfarfod ac ystafelloedd grŵp. Bydd digonedd o leoedd aml-bwrpas yn yr ysgol. |
| A allwn fynd â phethau gyda ni yr ydym eisoes wedi'u creu, megis murluniau ar y waliau? | Byddwn yn gofyn i'r ysgol a oes unrhyw eitemau i gofio yr hoffech eu trosglwyddo i'r ysgol newydd. Os oes murluniau, bydd ein pensaer yn ystyried y ffordd orau o ymgorffori hynny yn adeilad yr ysgol |

| | |
|---|---|
| | newydd.  Mae'n bosibl y bydd gennych eitemau i gofio, megis cloch ysgol, neu garreg â dyddiad arni, a byddwn yn sicrhau bod eich eitemau pwysig yn cael eu cyflwyno i'r ysgol newydd. |
| A fydd ystafell lesiant neu ystafell i Gynorthwywyr Cefnogi Llythrennedd Emosiynol? | Byddwn yn gweithio gyda'ch pennaeth a staff yr ysgol i ddeall pa ystafelloedd penodol sydd eu hangen arnoch yn eich ysgol newydd.  Byddwn hefyd yn eich cynnwys chi, y dysgwyr, i ddeall beth hoffech chi ei gynnwys yn yr ysgol. |
| Sawl neuadd fydd yno, ac a fydd neuadd a champfa ar wahân? | Bydd dwy neuadd, un fawr ac un fach. Gellir ei defnyddio fel un lle mawr, neu gellir eu gwahanu gan wal symudol sy'n plygu. |
| A fydd toiledau ar gyfer pob grŵp oedran? | Bydd, ar gyfer pob pâr o ddosbarthiadau, bydd toiled a chyfleusterau i gadw cotiau rhyngddynt. |
| A fydd ardal wyllt er mwyn i ni allu tyfu pethau ac a fydd ardal goediog? | Bydd, mae'n bwysig cynnwys ardal wyllt i dyfu pethau ac annog bywyd gwyllt i fyw yno.  Bydd rhaid i ni blannu coed i greu ardal goediog. |
| A fydd gan y dysgwyr loceri? | Bydd rhai loceri.  Rhaid i ni fodloni safon o'r enw BREEAM (sef Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) ac fel rhan o hyn, rhaid i ni ddarparu cyfleusterau beicio.  Mae hyn yn golygu y bydd rhaid i ni ddarparu nifer o loceri, cawodydd ac ystafelloedd newid. Efallai y byddai'n annhebygol bod pob dysgwr yn cael locer, ond byddwn yn gweithio i gynnwys cynifer ag y gallwn. |
| A fydd ystafell TG? | Mae ardal fawr o'r enw maes dysgu ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf.  Gellir defnyddio'r ardal hon ar gyfer TGCh a llyfrgelloedd.  Yn ogystal, bydd cyfleusterau TGCh mewn dosbarthiadau. |
| A fydd system sain yn mynd drwy'r ysgol gyfan? | Bydd rhaid i mi wirio hyn, ond yn yr ysgol ddiwethaf y gwnaethom ei hadeiladu, roedd system sain yn mynd drwy'r ysgol gyfan. Roedd y prif banel rheoli wedi'i leoli yn y dderbynfa ac roedd panel rheoli yn y neuadd hefyd.  Roedd y system sain yn mynd drwy'r maes dysgu, nid y dosbarthiadau. |
| A fydd y wi-fi yn gweithio y tu allan? | Dydw i ddim yn sicr a fydd yn gweithio y tu allan i'r adeilad.  Bydd ardal ddysgu yn yr awyr agored, felly os allwn ymestyn y wi-fi i'r tu allan, yna byddwn yn sicr o edrych ar hyn. |

| | |
|---|---|
| Mae gennym lawer o offer TGCh yma, a fydd gennym yr un fath yn yr ysgol newydd? | Mae technoleg yn gwella drwy'r amser, felly mae'n debyg y bydd gennych dechnoleg well yn yr ysgol newydd. |
| A fydd ffrâm ddringo a bariau mwnci? | Bydd angen i ni drafod â'ch pennaeth ac ystyried unrhyw risgiau iechyd a diogelwch, ond os allwn gynnwys rhai offer chwarae mwy fel rhan o'r adeiladu, byddwn yn eu hymgorffori yn y dyluniad. |
| A fydd yr offer yn newydd sbon? | Bydd, bydd y rhan fwyaf o'r offer yn newydd sbon. Byddwn yn gweithio gyda'ch pennaeth i lunio rhestr o'r eitemau yr hoffech ddod gyda chi i'r ysgol newydd, fel piano, llyfrau ac eitemau i'r meithrin. Bydd llawer o ddodrefn, offer a TG newydd yn yr ysgol newydd. |
| Os oes rhagor o gwestiynau yn dilyn y cyfarfod hwn, gall dysgwyr eu hanfon at y tîm, drwy eu pennaeth, neu eu hathro dosbarth.<br><br>Gofynnwyd i'r grŵp godi eu dwylo os oeddynt yn credu bod ysgol newydd yn syniad da, ac roedd y deuddeg ohonynt yn gytûn ei fod yn syniad da. | |
| Diolchwyd i bawb am eu cwestiynau. Bydd y Cyngor Ysgol yn rhoi adborth i'w ffrindiau. | |
| Diolchodd XX i bawb am eu cyfraniad heddiw. | |

**ATODIAD 6**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

**Ysgol Gymraeg Bro Ogwr**
**Cyfarfod Ymgynghori**
**Digwyddiad Agored**
**Dydd Mawrth 15 Mawrth 2022**
**4pm-5pm**

Yn bresennol: 4 x Staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
2 x Pennaeth
1 x Cyfieithydd Cymraeg
5 x Aelod o'r cyhoedd

Croesawodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd y tîm eu hunain. Cyflwynodd Rheolwr y Rhaglen Ysgolion y sesiwn ymgynghori a sefydlu diben y cyfarfod, natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellu'r cynnig. Rhoddodd y Prif Gynorthwyydd Pensaernïol drosolwg o strwythur y safle a'r pwyntiau mynediad. Bydd yr ysgol wedi'i dylunio i gyflawni Carbon Sero Net.

| Cwestiynau/Materion | Atebion/Sylwadau |
|---|---|
| Nid oes dalgylchoedd ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y sir. A ydych chi'n ystyried cyflwyno dalgylchoedd ac os nad ydych, pam ddim? O ystyried yr anfantais a geir yn rhai ardaloedd o'r sir o ran methu â gallu ceisio ysgolion cyfrwng Cymraeg a thwf sylweddol mewn datblygiadau tai yn ardaloedd fel Parc Derwen ac ardal Shepherds Vets. | Mae'r Rheolwr Grŵp ar gyfer Cymorth Busnes yn gyfrifol am ddalgylchoedd. Gallaf anfon y cwestiwn hwn ato. Rydym yn awyddus i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont a'r Ogwr a'r cyffiniau ac mae hyn yn rhywbeth y bydd rhaid i ni ei ystyried o bosibl.<br><br>Rydym yn awyddus i gynyddu lleoedd cyfrwng Cymraeg a gallai hyn fod yn rhywbeth y bydd angen i ni ei ystyried ar gyfer yr ysgolion newydd. Rydym yn croesawu adborth gan rieni. |
| Pa bryd fydd yr ysgol cyfrwng Saesneg sydd i ddod yn lle Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn agor? Rydym yn bryderus am yr effaith y bydd yn ei chael ar Ysgol Gynradd Bracla. | Rydym yn gweithio ar ddatblygu'r dalgylch gyda'r Rheolwr Grŵp ar gyfer Cymorth Busnes. Pan mae dalgylch wedi'i adnabod, byddwn yn ymgynghori â'r holl ysgolion y gellir eu heffeithio gan y dalgylch newydd. O bosibl, bydd yn ysgol 1 dosbarth mynediad. Mae rhagor o waith yn cael ei wneud ar y cynlluniau ehangach. Bydd y cynllun yn ddibynnol ar gynnig ar wahân ac ni fyddwn yn parhau gyda hwnnw nes bod y broses ar gyfer YG Bro Ogwr wedi'i chasglu. Byddwn yn ymgysylltu â'r holl randdeiliaid ynghylch y cynnig. |

| | |
|---|---|
| Mae'n hynod gyffrous ac rwy'n gobeithio bydd y cynnig yn llwyddiannus. Os yw'n llwyddiannus, a ydych yn credu y byddai'r ysgol cyfrwng Cymraeg yn agor yn nhymor yr hydref 2025? | Yn ddelfrydol, cyn gynted ag y bydd yr ysgol Gymraeg newydd yn agor, byddai'r ysgol Saesneg yn agor hefyd. Mae gan yr ysgol ôl-groniad o waith cynnal a chadw gwerth £750k. Bydd angen gwneud peth o'r gwaith yn YG Bro Ogwr nawr, gan y byddant yn defnyddio'r adeilad hyd at 2025, rydym eisiau sicrhau bod unrhyw waith atgyweirio a chynnal a chadw yn cael ei wneud yn syth. Bydd rhagor o drafodaethau yn mynd rhagddynt ynglŷn ag a fydd yr ysgol yn agor fesul cam. |
| Beth am ystyried pumed ysgol cyfrwng Cymraeg ar gyfer twf yn yr ardal? Nid oes digon o wasanaethau yn ne-ddwyrain y sir ar hyn o bryd. | Mae angen i ni fynd i'r afael â'r broblem gorlenwi yn YG Bro Ogwr ac mae angen i ni gynyddu'r nifer o leoedd yn yr ardal benodol hon.<br>Mae cynllun hirdymor yn bodoli i gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y fwrdeistref sirol fel rhan o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Pen-y-bont ar Ogwr. Er mai'r cam cyntaf yw hwn, mae cynlluniau i gynyddu darpariaeth yn y de-ddwyrain ac yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Mae cynnig yn bodoli am ysgol ddwy ffrwd ym Mharc Afon Ewenni (1 dosbarth mynediad cyfrwng Cymraeg ac 1 dosbarth cyfrwng Saesneg), ysgol 1 dosbarth mynediad ym Mhorthcawl ac ysgol cyfrwng Cymraeg i bob oed rhwng 3 a 18 oed, wedi'i lleoli yng nghanol sir Pen-y-bont ar Ogwr. Byddwn yn gweithio ar y cynlluniau hyn i gyd-fynd â datblygiadau tai a'r gyllideb. |
| Mae'r galw am leoedd yn bodoli nawr. Yn y cyfamser, rhwng nawr a phan adeiladir yr ysgol, bydd llawer o bobl yn methu allan ar addysg cyfrwng Cymraeg oherwydd nad ydyw ar gael. A oes cynllun tymor byr nes y bydd YG Bro Ogwr yn barod? | Mae gennym gynllun dros dro. Mae cyllid ar gael i ddarparu dosbarthiadau dros dro yr ydym yn bwriadu eu gosod yn YG Bro Ogwr. Ddydd Gŵyl Dewi, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru y cyllid grant cyfalaf ar gyfer cyfrwng Cymraeg, a byddwn yn cyflwyno cynnig am y cyllid hwn erbyn 31 Mawrth. |
| At bwy mae'r dosbarthiadau wedi'u hanelu ac a fydd y nifer derbyniadau disgyblion yn cynyddu? | Byddwn yn gweithio'n agos â'r ysgol i ddeall effaith y nifer ychwanegol o ddysgwyr a pha grwpiau oedran fyddai angen eu hehangu. Mae amserlen ynghlwm â'r gwaith adeiladu, rydym yn gobeithio targedu tymor yr hydref. Bydd hyn yn creu 60 lle ychwanegol. |
| Nifer derbyniadau disgyblion y dosbarth meithrin yw 90 lle cyfwerth â llawn amser, ond capasiti'r dosbarth derbyn yw 75, beth sy'n digwydd i'r 15 lle arall? | Mae darpariaeth ran amser a llawn amser i'r dosbarth meithrin. Bydd 75 o leoedd llawn amser ar gyfer disgyblion 3 i 4 oed a bydd darpariaeth ran amser yn gwneud y 15 o leoedd (cyfwerth â llawn amser) eraill |

| | |
|---|---|
| | (cyfanswm o 30). Yn ogystal, bydd dosbarth arsylwi ac asesu gydag 8 lle ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. |
| Rwy'n byw ym Mhencoed a mynychais YGG Pen-y-bont, pan oeddwn ym mlwyddyn 4 neu 5, symudais i YG Bro Ogwr. Pan gafodd ei hadeiladu, roedd gan yr ysgol gaban gan nad oedd digon o le yno. Rhwng 1994 a heddiw, pam nad oes ysgolion Cymraeg newydd wedi'u hadeiladu? Mae nifer o ysgolion Saesneg wedi'u hadeiladu yn ystod y cyfnod hwn. Pam mai nawr ydym ni'n meddwl adeiladu ysgol newydd? Dylai'r ysgol yn Broadlands fod yn ysgol Gymraeg er mwyn rhoi darpariaeth gyfartal ar draws y sir. Pam mae'r ysgol Gymraeg mewn cyflwr mor wael? Es yno rhai misoedd yn ôl a meddyliais 'lle mae'r holl fuddsoddiad?' Allwn i ddim credu fod caban y tu cefn. Pam nad yw'r ysgol yn ddigon mawr? Byddwn yn cadw'r arian, yn atgyweirio'r ysgol a chreu ysgol arall ymhellach i'r gorllewin. | Rydym wedi adeiladu ysgol Gymraeg ym Metws, Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd, yn lle Ysgol Gymraeg Cwm Garw. Allaf i ddim rhoi sylw ar a ddylai'r ysgolion cyfrwng Saesneg sydd newydd eu hadeiladu yn y gorffennol fod yn rhai cyfrwng Cymraeg. Uchelgais yr awdurdod lleol yn y dyfodol yw creu mwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg. Rydym wedi cael caniatâd mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru i greu ysgol egin cyfrwng Cymraeg ym Mhorthcawl. Ein nod yw creu darpariaeth yn y de-ddwyrain ac yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr, ynghyd â chynlluniau posibl i symud Ysgol Gymraeg Llangynwyd i leoliad mwy canolog.<br><br>Gallwch ddarllen Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 drafft yr awdurdod lleol drwy ddilyn y ddolen ganlynol: https://www.bridgend.gov.uk/media/11820/welsh-in-education-strategic-plan-2022-2032.docx<br><br>Mae'n nodi ein huchelgeisiau ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Rhennir y polisi hwn yn ddwy ran ar wahân. Yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, sefydlir mai'r ffordd orau ymlaen yw mwy o ysgolion, ond mae angen brys i ni adeiladu ysgolion mwy yn rhai ardaloedd. Mae ymgynghoriad sylweddol wedi bod â Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwbl ymrwymedig i hyrwyddo a thyfu addysg cyfrwng Cymraeg.<br><br>Pe hoffai unrhyw un gael copi o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, anfonwch e-bost i Uned Gefnogi'r Gyfarwyddiaeth Addysg.<br><br>Rydym yn symud ymlaen gyda dau brosiect ar gyfer lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg; mae'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo ym Metws a Chwm Ogwr. Bydd un ym Mhorthcawl ac o bosibl yn YG Bro Ogwr newydd, yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cabinet. |

| | |
|---|---|
| Sut ydych chi wedi gwerthuso bod maint y safle arfaethedig yn ddigonol, o ystyried bod data'r cyfrifiad a gynhwysir yn y ddogfen yn ddeg oed. Nid oes rhagor o ymgynghori wedi bod â'r cyhoedd i ddeall beth yw'r gofynion o ran yr iaith Gymraeg. Dydych chi ddim eisiau gosod caban yn yr ysgol yn ystod y pump i ddeng mlynedd nesaf i gynyddu capasiti. | Ymgynghorwyd ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drafft cyn y Nadolig a chyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet fis Ionawr. Mae'r safle yn ddigon mawr i ysgol 2.5 dosbarth mynediad, yn ogystal ag estyniad pedwar-dosbarth petai angen yn y dyfodol. Byddai hyn yn gwneud yr ysgol yn ysgol 3 dosbarth mynediad. Y prosiect hwn yw'r cam cyntaf yn y cynllun ehangach i adeiladu mwy o ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'r de-ddwyrain. |
| Mae'r cyfleoedd mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn eu cyflwyno yn cael croeso. Rwy'n bryderus fod rhannau enfawr o'r sir yn methu allan ar addysg cyfrwng Cymraeg yn y tymor byr. Rydych chi'n canolbwyntio'ch ymdrechion yng ngorllewin y sir, ac nid ydych yn rhoi digon o ffocws ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob ardal o'r sir.<br><br>Mae'r diffyg i'w weld yn arbennig ym Mhencoed a dwyrain y sir. Mae cynlluniau i ddatblygu 700 o dai newydd ym Mhencoed. Dim ond tair oed yw Ysgol Gynradd Pencoed, pan na chafodd ysgol 1 dosbarth mynediad cyfrwng Cymraeg ei hystyried fel rhan o'r gwaith adeiladu hwnnw i atgyfnerthu iaith Gymraeg yr ardal hon? | A allwch chi gadarnhau pa ardal sydd dan sylw gennych?<br><br>Mae cynlluniau i ddarparu ysgol 1 dosbarth mynediad cyfrwng Cymraeg yn y de-ddwyrain a byddwn yn mynd ymlaen gyda'r cynllun cyn gynted ag y gallwn. Mae angen i ni gofio'r gyllideb sydd ar gael i ni, dyma gam cyntaf ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Manylir darpariaeth y de-ddwyrain yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Pan fydd y Cynllun Datblygu Lleol ar gael ar-lein, bydd rhagor o ddatblygiadau tai a fydd yn cynyddu'r ddarpariaeth addysg a byddwn yn ystyried gofynion cyfrwng Cymraeg. Rydym wedi bod yn cydweithio â chynllunwyr. |
| Rwy'n cymryd hynny'n ôl, roedd y nenfwd yn gollwng dŵr – pam nad yw wedi'i chynnal a'i chadw? Mae angen adnewyddu'r dosbarth meithrin, pam nad ydym wedi cyfrannu arian at ei ehangu neu adeiladu mwy ohonynt? Mae'n rhwystredig gweld cymaint o ysgolion cyfrwng Saesneg yn cael eu hadeiladu ac nid yw'r ysgol Gymraeg a fynychais wedi cael unrhyw fuddsoddiad o gwbl ers 1994. Arferai YG | Cyfeirio at sylw XX. Hoffwn ymddiheuro os ydych chi'n credu bod yr ysgol mewn cyflwr gwael. Mae'r caban yn 25 oed. Rydym wedi gwneud cryn dipyn o welliannau yn yr ysgol, y tu mewn a'r tu allan. Rydym yn gwella ein hysgol drwy'r amser.<br><br>Gallaf eich sicrhau y byddai'r awdurdod lleol wedi buddsoddi yn yr adeilad o'r gyllideb atgyweirio a chynnal a chadw. Rwy'n sicr y byddwch yn gwerthfawrogi nad yw'r gyllideb atgyweirio a chynnal a chadw gan yr awdurdod lleol a chan ysgolion unigol yn |

| | |
|---|---|
| Bro Ogwr fwydo i Ysgol Gyfun Llanhari, tan y newidiodd Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr Ysgol Maesteg yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd. Nid oedd gan Ben-y-bont ar Ogwr ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg cyn hyn. Dylai bod mwy o ysgolion Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Ai yw hyn oherwydd nad oes unrhyw beth wedi'i wneud ac rydym bellach wedi cyrraedd adeg pan mae'n rhaid i chi adeiladu ysgol newydd? | ddigonol i fynd i'r afael â'r ôl-groniad yn y gwaith cynnal a chadw. Mae gan rai ysgolion ôl-groniad sylweddol uwch yn y gwaith cynnal a chadw. Mae'n broblem ar draws y wlad, nid yn unig mewn perthynas ag YG Bro Ogwr. Mae ei chyllideb wedi'i rhannu rhwng nifer o bethau, o adnoddau i staff. Nid oes digon o gyllid ar gyfer popeth yr hoffem, ac mae'n rhaid i ni flaenoriaethu prosiectau.<br><br>Diolch i XX am dynnu'ch sylw yn ôl ac am ymddiheuro. Rydym yn synhwyro'ch brwdfrydedd tuag at yr iaith Gymraeg, ac rydym ni i gyd yn eich cefnogi chi yn hynny o beth. Mae YG Bro Ogwr yn ysgol ragorol, sy'n darparu addysg ragorol. Nid yr adeilad ydym ni ei eisiau, hoffem adeilad gwell, ond rwy'n gwerthfawrogi eich bod wedi tynnu'ch sylw yn ôl.<br><br>A minnau hefyd yn bennaeth, hoffem fynegi fy nghefnogaeth tuag at XX. Mae YG Bro Ogwr wedi newid sawl gwaith dros y blynyddoedd ac rwyf wedi ymweld â sawl ysgol. Mae ansawdd yr addysg yn dda iawn ac mae'r arweinyddiaeth yn rhagorol. Efallai nad yw'r adeilad yn y lleoliad delfrydol, ond mae'r arian yn cael ei wario yn y llefydd cywir. Rydym yn gwerthfawrogi popeth yr ydych chi'n ei wneud ar gyfer plant YG Bro Ogwr. |
| Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad heddiw. Byddwn yn edrych ar y dalgylchoedd ac yn croesawu'ch adborth pan fyddwn yn archwilio hyn ymhellach. Rydym yn ymrwymedig i'n cynllun uchelgeisiol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn y dyfodol. Os oes rhagor o gwestiynau yn dilyn y cyfarfod hwn, anfonwch nhw at y tîm. | |

**ATODIAD 7**

**Gohebiaeth uniongyrchol a gafwyd:**

Sylw sydyn gen i. Nid ydw i'n aelod lleol, felly mi adawaf iddyn nhw roi sylw ar agweddau ar gynllunio strategol y cynnig, ond o bersbectif polisi, mae'r estyniad yn ddatblygiad a groesewir i fodloni anghenion dysgwyr Cymraeg o dymor yr hydref 2025 ymlaen.

Wedi dweud hynny, un sylw uniongyrchol (i adlewyrchu pryderon rhai o'm hetholwyr y mae'r awdurdod lleol wedi cael apeliadau ganddynt yn ddiweddar) yw'r hyn mae'r awdurdod lleol yn ei wneud rhwng nawr a 2025 i fynd i'r afael â'r diffyg lleoedd a rhoi darpariaeth ar gyfer y rhieni/gofalwyr hynny ym Mhencoed sydd eisiau i'w plant astudio yn y Gymraeg?

**Ymateb yr awdurdod lleol:**

Diolch i chi am eich e-bost yn dwyn y testun ehangiad arfaethedig YG Bro Ogwr ac yn benodol, strategaeth yr awdurdod lleol i ddarparu lleoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol ar gyfer y rhieni/gofalwyr hynny yn ardal Pencoed sydd am i'w rhieni astudio'r Gymraeg.

Fel yr ydych yn ymwybodol, mae'r broses ymgynghori yn mynd rhagddi ar gyfer ehangu arfaethedig YG Bro Ogwr i ysgol 2.5 dosbarth mynediad, dosbarth meithrin gyda 90 lle a dosbarth arsylwi ac asesu gydag 8 lle, a fydd yn agor fis Medi 2025, os ceir ei gymeradwyo. Wedi dweud hynny, fel mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r angen i gynyddu darpariaeth dros dro er mwyn bodloni'r galw am leoedd, mynegwyd diddordeb i Lywodraeth Cymru i gyllid grant cyfalaf cyfrwng Cymraeg ar gyfer gosod dosbarth dwbl symudol yn yr ysgol nes bydd yr estyniad arfaethedig i YG Bro Ogwr yn agor.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Gweinidog bod Pen-y-bont ar Ogwr wedi llwyddo o ran mynegi diddordeb. Mae'r achos cyfiawnhau busnes yn cael ei ddrafftio i'w ystyried gan Lywodraeth Cymru ac mae swyddogion technegol yr awdurdod lleol eisoes wedi dechrau gwaith ar y cynllun hwn er mwyn ei gyflawni fel mater o frys, yn amodol ar ganiatâd am gyllid gan Lywodraeth Cymru.

Cofiwch gysylltu â mi os allaf fod o gymorth eto.

**Gohebiaeth uniongyrchol a gafwyd:**

Fy enw i yw XX ac ar hyn o bryd rwy'n Swyddog Cefnogi Dysg yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr, ac rwyf wedi bod yn y swydd honno ers 32 o flynyddoedd. Yn dilyn y cyfarfod ar-lein, dymunaf ofyn cwestiynau yr wyf wedi cael amser i feddwl amdanynt.

1. A fyddai digon o neuaddau bwyta ar gyfer pob plentyn yn ystod yr amseroedd bwyta?

2. Neuadd chwaraeon ddigonol ar gyfer yr adran iau a'r babanod - gan ystyried oedran a datblygiad corfforol

3. Digon o gysgod ar y buarth, yn enwedig yn ystod tywydd poeth. Rydym yn ei chael hi'n anodd ar hyn o bryd!

4. Parcio i ymwelwyr

5. Diogelwch yn y dderbynfa - ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhy agored a hygyrch i ymwelwyr gan fod ein swyddfeydd wedi'u lleoli yng nghanol yr ysgol. Mae'n rhaid i rieni, plant ac ymwelwyr gerdded drwy fannau chwarae. Mae DIOGELWCH yn HOLLBWYSIG !!!!

Diolch am eich amser

**Ymateb yr awdurdod lleol:**

Prynhawn da XX,

Diolch am eich e-bost. Gallwn eich sicrhau fod yr holl bryderon a godwyd yn cael eu hystyried yn ystod y cam dylunio a datblygu a byddwn yn ystyried yn llawn yr ysgol drwy gydol y broses i geisio'ch anghenion a'ch syniadau.

Gweler isod ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd:

1. A fyddai digon o neuaddau bwyta ar gyfer pob plentyn yn ystod yr amseroedd bwyta?
    - Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno menter i bob plentyn yn yr ysgol gynradd gael pryd bwyd ysgol am ddim. Mae'n debyg y bydd egwyliau cinio dysgwyr yn cael eu trefnu ar draws amseroedd gwahanol.

2. Neuadd chwaraeon ddigonol ar gyfer yr adran iau a'r babanod - gan ystyried oedran a datblygiad corfforol
    - Bydd prif neuadd a stiwdio neuadd lai. Yn ystod y cam dylunio, byddwn yn ymgynghori â'r ysgol i bennu pa gyfarpar, offer etc yr hoffech eu cynnwys.

3. Digon o gysgod ar y buarth, yn enwedig mewn tywydd poeth. Rydym yn ei chael hi'n anodd ar hyn o bryd!
    - Byddwn yn darparu cysgod a/neu ganopi ar y buarth.

4. Parcio i ymwelwyr
    - Bydd parcio i ymwelwyr yn cael ei ddarparu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol. Bydd parcio i ymwelwyr wedi'i leoli y tu blaen i'r ysgol. Bydd angen i

ni gynnal gweithdy ar wahân i drafod priffyrdd a pharcio fel rhan o ddatblygu'r dyluniad.

5. Diogelwch yn y dderbynfa - ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhy agored a hygyrch i ymwelwyr gan fod ein swyddfeydd wedi'u lleoli yng nghanol yr ysgol. Mae'n rhaid i rieni, plant ac ymwelwyr gerdded drwy fannau chwarae. Mae DIOGELWCH yn HOLLBWYSIG !!!!

- Mae diogelwch wrth wraidd y dyluniad. Mae nifer o opsiynau i'w harchwilio yn y cam dylunio, gan gynnwys mynediad ag allwedd, system gyfathrebu etc.

Byddwn yn sicrhau bod eich sylwadau yn cael eu hymgorffori yn adroddiad y cabinet.

**Gohebiaeth uniongyrchol a gafwyd:**

Dyma yw ymateb y Mudiad Meithrin i'r cynnig i wneud addasiad rheoledig i ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr i ysgol 2.5 dosbarth mynediad, gyda dosbarth meithrin â 90 lle cyfwerth â llawn amser a dosbarth arsylwi ac asesu ag 8 lle ar dir ger Ffordd Cadfan, i agor ddechrau tymor yr hydref 2025.

**Mudiad Meithrin**

Sefydlwyd Mudiad Meithrin ym 1971 er mwyn cynnal tirlun cyfoethog o brofiadau chwarae a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o enedigaeth i oedran ysgol.

Fel mudiad gwirfoddol sy'n frwd dros annog a dathlu'r defnydd o'r iaith Gymraeg, rydym wedi tyfu'n sylweddol dros y blynyddoedd ac yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar fywydau plant yng Nghymru.

Mae'r brwdfrydedd, y cynnwrf a'r gofal mae cymaint o dystiolaeth ohonynt yn ein sefydliad yn parhau i ysbrydoli, annog a meithrin cenedlaethau ieuengaf Cymru; cenedlaethau a fydd yn ffynnu oherwydd eu hymdeimlad o berthyn, eu hyder ac yn ymfalchïo yn eu galluoedd a'u treftadaeth.

Ein gweledigaeth fel mudiad yw bod pob plentyn yng Nghymru yn cael yr un cyfle i chwarae, dysgu a thyfu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Ymateb i'r Cynllun**

Mae Mudiad Meithrin yn cefnogi cynlluniau sy'n cynyddu'r nifer o leoliadau cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant ym mhob sir ledled Cymru, gan gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr. Yn ogystal, rydym yn cefnogi'r bwriad i agor dosbarth arsylwi ac asesu ar gyfer plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Wedi dweud hynny, gweler y sylwadau a'r pryderon:

1. Rydym yn gwrthwynebu'r cynnig i droi lleoliad presennol YGG Bro Ogwr yn ysgol Saesneg. Byddai effeithiau hyn yn gwbl groes i darged Llywodraeth Cymru i weld TWF mewn addysg Gymraeg yn y sir. Rhaid i ni feddu ar yr hyder i hyrwyddo a hwyluso i ysbrydoli penderfyniadau rhieni sy'n ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â chydweithio â rhieni i godi ymwybyddiaeth o fanteision gofal ac addysg cyfrwng Cymraeg. Deallwn fod y sir wedi cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i gynyddu capasiti Bro Ogwr yn y

tymor byr. Yn y pendraw, os ydych yn parhau â'r syniad o greu ysgol cyfrwng Saesneg, rydych yn cynyddu capasiti cyfrwng Saesneg y sir!

2. Mae'n siom nad yw'r sir yn gweld gwerth ysgolion cymunedol. Rydym wedi annog y sir (mewn ymateb i'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg) i ystyried egwyddorion 'cymunedau 15 munud'. Sawl ysgol Saesneg ym Mhen-y-bont ar Ogwr sy'n gwasanaethu cymdogaethau penodol? Nid yw'n dderbyniol bod ymateb y sir i'r nod o weld twf yn addysg Cymru yw creu ysgolion enfawr neu 'Uwch-ysgolion'. Rhaid i'r sir ystyried agor ysgolion egin i ysgogi'r galw a gwireddu twf sylweddol i ymateb i dargedau Llywodraeth Cymru.
3. Ardal Pencoed – nid yw agor yr ysgol newydd yn ymateb i'r her sy'n bodoli **nawr**, gyda rhieni yn wynebu anfon eu plant ymhell oddi wrth eu cymunedau neu ddewis addysg Saesneg er hwylustod. Nid yw'n dderbyniol i'r sir aros nes bod yr ysgol newydd yn agor fel ymateb i'r argyfwng. Mae angen i'r sir ystyried opsiynau gwahanol sy'n amserol ac sy'n galluogi plant dderbyn eu haddysg yn Gymraeg. Ystyriwch ysgolion a chabanau egin.
4. Dalgylchoedd – mae angen ystyried dalgylchoedd ysgolion cyfrwng Cymraeg. Maent yn her enfawr ac yn rhy fawr i rieni o ran trafnidiaeth a hwylustod.

**Ymateb yr awdurdod lleol:**

**Twf addysg cyfrwng Cymraeg**

Mae'r cynnig hwn i ddisodli safle presennol YG Bro Ogwr gydag ysgol cyfrwng Saesneg yn destun cynllun ar wahân ac ni fydd yn parhau nes bod y broses ar gyfer YG Bro Ogwr wedi dod i ben.

Mae angen cynyddol am ragor o gapasiti yn YG Bro Ogwr. Mae'r safle ar Ffordd Cadfan yn ddigon mawr i ysgol 2.5 dosbarth mynediad. Bydd yr ysgol wedi'i dylunio i ganiatáu estyniad 4 dosbarth os bydd angen yn y dyfodol, a fydd yn gwneud yr ysgol yn ysgol 3 dosbarth mynediad. Y prosiect hwn yw cam cyntaf cynllun hirdymor i gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y fwrdeistref sirol fel rhan o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Pen-y-bont ar Ogwr. Mae cynlluniau i wella darpariaeth yn y de-ddwyrain a chanol Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n cynnwys cynnig am ysgol ddwy ffrwd ym Mharc Afon Ewenni (1 dosbarth mynediad cyfrwng Cymraeg ac 1 dosbarth mynediad cyfrwng Saesneg), ysgol 1 dosbarth mynediad ym Mhorthcawl ac ysgol cyfrwng Cymraeg pob oedran ar gyfer disgyblion 3 i 18 oed, wedi'i lleoli yng nghanol sir Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd y cynlluniau hyn yn cyd-fynd â'r datblygiadau tai arfaethedig a'r gyllideb sydd ar gael.

Mae gan YG Bro Ogwr ôl-groniad o waith cynnal a chadw gwerth £750k. Bydd angen gwneud peth gwaith uniongyrchol ar gyfer gwelliannau, gan fydd yr ysgol yn cael ei defnyddio hyd at 2025.

**Ysgolion cymunedol**

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi caniatâd mewn egwyddor i greu ysgol egin cyfrwng Cymraeg ym Mhorthcawl ac mae gennym gynlluniau i greu darpariaeth yn y de-ddwyrain ac yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr, ynghyd â chynlluniau posibl i symud Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd i leoliad mwy canolog. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 drafft yr awdurdod lleol yn sefydlu'r

uchelgeisiau ar gyfer y deng mlynedd nesaf ac rydym yn gwbl ymrwymedig i hyrwyddo a thyfu addysg cyfrwng Cymraeg.

Gallwch ddarllen Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 drafft yr awdurdod lleol drwy ddilyn y ddolen ganlynol: https://www.bridgend.gov.uk/media/11820/welsh-in-education-strategic-plan-2022-2032.docx

**Ardal Pencoed**

Mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r angen i gynyddu darpariaeth dros dro er mwyn bodloni'r galw am leoedd. Cyflwynwyd mynegiant o ddiddordeb i Lywodraeth Cymru am gyllid grant cyfalaf cyfrwng Cymraeg ar gyfer gosod dosbarth dwbl symudol yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr nes bydd yr estyniad arfaethedig i Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn agor.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Gweinidog bod Pen-y-bont ar Ogwr wedi llwyddo o ran mynegi diddordeb. Mae'r achos cyfiawnhau busnes yn cael ei ddrafftio i'w ystyried gan Lywodraeth Cymru ac mae swyddogion technegol yr awdurdod lleol eisoes wedi dechrau gwaith ar y cynllun hwn er mwyn ei gyflawni fel mater o frys, yn amodol ar ganiatâd am gyllid gan Lywodraeth Cymru.

**Dalgylchoedd**

Mae Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn gwasanaethu tref Pen-y-bont ar Ogwr, ardaloedd Porth y Cymoedd a Phencoed. Byddai'r ysgol arfaethedig wedi'i lleoli ar dir ger Ffordd Cadfan, sy'n cael ei ystyried y lleoliad mwyaf addas ar gyfer yr ysgol newydd o ran maint, ei leoliad daearyddol yn yr ardal mae'n ei gwasanaethu a phellter oddi wrth yr ysgol bresennol.

Nid oes dalgylchoedd ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg yn sir Pen-y-bont ar Ogwr. Wedi dweud hynny, mae oddeutu hanner o'r dysgwyr sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn gymwys ar gyfer cludiant ysgol ac yn teithio i'r ysgol yn ôl y ddarpariaeth cludiant. Mae oddeutu 80% o ddysgwyr yn mynychu o'r tu hwnt i ardal Bracla.

Cynllun y cyngor yw cynyddu'r nifer o addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir a byddwn yn ymgymryd ag adolygiad o ddalgylchoedd. Mae rhagor o waith yn mynd rhagddo ar gynllun ehangach, gan gynnwys adnabod y dalgylch a byddai'r awdurdod lleol yn croesawu adborth gan rieni i fod yn sail i benderfyniadau.

**Gohebiaeth uniongyrchol a gafwyd:**

Dymuna RhAG fynegi ei ddiolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn a wnaethpwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar y **Cynnig i wneud newid rheoledig i ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn ysgol 2.5 dosbarth mynediad, gyda dosbarth meithrin â 90 lle cyfwerth â llawn amser a dosbarth arsylwi ac asesu ag 8 lle ar dir ger Ffordd Cadfan, i agor ddechrau tymor yr hydref 2025.**

Yn gyntaf, unwaith eto, dymunwn nodi ein bod yn sylweddoli'r gwaith sydd ynghlwm ag ad-drefnu ysgolion yn 21 Ganrif. Mae RhAG wedi cydlynu perthynas gadarnhaol yn ddiweddar gyda swyddogion y sir ac wedi cyfrannu syniadau a strategaethau er

mwyn sicrhau tegwch i ddatblygu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y sir. Gyda dyfodiad y cynlluniau 10 mlynedd, mae gwir gyfle unwaith eto i wneud gwahaniaeth i hygyrchedd Addysg Gymraeg yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr.

Ein bwriad yw cynnig her a chefnogaeth i'r Sir er mwyn sicrhau y cynlluniau cryfaf, fel bod dysgwyr y sir yn cael y cyfleoedd gorau posibl o ran Addysg Gymraeg o'r blynyddoedd cynnar drwodd at y byd gwaith.

- Wrth gwrs, nid cynllun diweddar mo'r cynllun hwn. Ac mae'n bwysig tynnu sylw at ddechrau'r cynllun hwn gan nad yw wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad ond yn ein barn ni mae'n werth ei gynnwys er mwyn nodi'r effaith mae'r gweithredu cynnar hwn wedi'i chael ar weddill y cynllun.

- Dygwyd ein sylw at lythyr a anfonwyd at rieni a gofalwyr Ysgol Gymraeg Bro Ogwr gan y Prif Swyddog Addysg ar 11 Chwefror 2020. Nododd y llythyr fwriad y Cyngor ar gyfer Ysgol Gymraeg Bro Ogwr fel rhan o raglen Cynllun Band B Ysgolion y 21ain Ganrif gan Lywodraeth Cymru. Hoffwn ofyn ar ba sail resymegol a strategol y gwnaethpwyd y penderfyniad i anfon y llythyr hwn ar yr adeg hon.

- Mae cynnwys y llythyr yn nodi bwriad i ystyried rhagor o ddatblygiadau ar gyfer Ysgol Bro Ogwr, ond yn ein barn ni, nid dewis doeth oedd cyfathrebu â rhieni a gofalwyr fel hyn, mor gynnar yn y broses, heb safle penodol a heb fwriad amlwg neu gyfle i ofyn cwestiwn neu ymateb i unrhyw holiadur yn ymwneud â'r cynllun, ac mae hyn wedi codi disgwyliadau cymuned yr ysgol a'r gymuned ehangach. Yn y diwedd, nid oedd y safle a gafodd ei grybwyll yn y llythyr yn addas wedi'r cwbl – sy'n codi cwestiynau hollbwysig yn ymwneud â'r gwiriadau a wnaethpwyd gan y Cyngor cyn anfon llythyr i rieni a gofalwyr ar 11 Chwefror 2020 yn y lle cyntaf.

- Yr elfen arall o siom a ddaeth drwy anfon y llythyr yr adeg honno, mor gynnar yn y broses, oedd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi comisiynu Cefin Campbell i gynnal ymchwil tua'r un pryd, i ystyried opsiynau ar gyfer datblygu addysg Gymraeg yn y sir, yn barod ar gyfer datblygu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

- Cafodd aelodau Fforwm Addysg Gymraeg Pen-y-bont ar Ogwr adroddiad gan Cefin Campbell yn nodi, ar y pryd, nad oedd cefnogaeth amlwg ar gyfer cadw Ysgol Bro Ogwr ar ei safle presennol a datblygu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd mewn ysgol yn rhywle yng nghanol Pen-y-bont ar Ogwr. Yna, gallai'r ddwy ysgol hyn ddarparu lle ar gyfer poblogaeth gynyddol a galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg a oedd o ganlyniad i farchnata manwl o fanteision dwyieithrwydd a hyrwyddo gweithredol gan yr awdurdod lleol drwy hyrwyddo is-grŵp.

- Ac felly, nid oedd y sir eisiau clywed canlyniadau'r adroddiad pwysig hwn cyn mynd ati i gynllunio'r camau nesaf a'u cyhoeddi.

- Mae'n anodd iawn i ni, fel sefydliad, wrthwynebu unrhyw ddatblygiad mewn addysg Gymraeg. Yn y cyd-destun hwn fodd bynnag, mae'n hanfodol ystyried cynnig i symud ac ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr fel rhan o'r cynnig i'r Sir cyfan yn wyneb niferoedd cynyddol. Mae aelodau'r Fforwm Addysg Gymraeg, a

RhAG yn eu plith, wedi nodi'r angen i ymestyn y ddarpariaeth, yn hytrach nag ei symud o safle presennol Ysgol Bro Ogwr.

- Yr hyn sy'n digwydd pan mae cynllun fel hwn yn cael sylw cyhoeddus yw ei fod hefyd yn ffordd uniongyrchol ac anuniongyrchol o hysbysebu, sy'n rhywbeth da wrth gwrs. Ond rydym wedi gweld nad yw'r Sir wedi ymateb yn ddigonol i'r galw cynyddol ers 2020 ac mae hyn yn destun pryder mawr i ni. Rhaid i ni gael atebion ar gyfer mis Medi 2022.

- Rydych yn nodi ar dudalen 6: "Mae dalgylch Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn cynnwys tref Pen-y-bont ar Ogwr, ardaloedd Porth y Cymoedd a Phencoed." Mae hwn yn destun sgwrs parhaus rhwng swyddogion y sir a ninnau, gyda hwythau yn dweud nad oes dalgylchoedd ar gyfer addysg Gymraeg. Felly, pam nodi hyn mewn dogfen ymgynghori? Mae'n camarwain y cyhoedd ac yn gogwyddo dealltwriaeth y cyhoedd. Mae rhai disgyblion o ardal Pencoed wedi'u gwrthod i'r ysgol oherwydd pellter ers 2020 ac mae'r nifer o ddisgyblion o ardal Bracla sydd wedi methu â chael lle yn yr ysgol eleni wedi cynyddu i 3.

- Ar dudalen 7, mae'n nodi bod cyflwr Ysgol Gymraeg Bro Ogwr wedi'i raddio'n C yn 2019 a bod gan yr ysgol ôl-groniad gwerth £750,700 o waith cynnal a chadw. Beth fydd pwrpas y safle ar ôl symud Bro Ogwr os mai dyna'r bwriad? Mae rhai aelodau o'r Fforwm Addysg Gymraeg wedi rhoi gwybod i ni y bydd ysgol cyfrwng Saesneg yn cael ei lleoli ar y safle. Sut fydd hyn yn cyd-fynd â nodau Sir Pen-y-bont ar Ogwr i gynyddu'r ganran o ddisgyblion mewn addysg Gymraeg dros y 5 i 10 mlynedd nesaf? Byddai'n dda cael taro golwg ar y data.

- Er bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn cynyddu capasiti'r ysgol bresennol, mae niferoedd y ceisiadau i'r ysgol eisoes wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae angen ffordd i ymateb i'r cynnydd hwn cyn gynted â phosibl er mwyn i ni allu gwneud y mwyaf o'r cynnydd. Fel arall, mae methu â bodloni'r galw am addysg Gymraeg yn cyflwyno risg ddifrifol o golli dysgwyr a cholli momentwm a chredadwyedd cymuned.

- Nid yw Fforwm Addysg Gymraeg Sir Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael cyfle i fynegi ei farn ar y cynllun hwn gan fod y cynllun wedi'i gwblhau. Mae hyn yn siom oherwydd bod gan y fforwm arbenigedd helaeth a allai fod wedi taflu goleuni i swyddogion ar yr effeithiau posibl i'w cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn.

- Erbyn hyn, mae nifer o siroedd ledled Cymru yn cynnwys adborth gan aelodau Fforwm Addysg Gymraeg mewn unrhyw waith cynllunio. Pan mae cynigion am ddatblygiadau sylweddol mewn ysgolion lleol yn digwydd a allai effeithio ar addysg Gymraeg, gall mewnbwn y Fforwm Addysg Gymraeg fod yn werthfawr, yn enwedig i sicrhau bod unrhyw gynllun yn wydn o ran yr iaith Gymraeg. Byddai'r cyfle i gyfrannu adborth at y cynllun hwn er mwyn cynnwys elfen gref o gymorth gyda'r gwaith o hyrwyddo addysg Gymraeg yn yr ardal, wedi bod yn fuddiol tra'r oedd y gwaith cynllunio yn mynd rhagddo yn hytrach nag ar ddiwedd y broses.

- Ar dudalen 9, nodir y ddogfen nad yw darpariaeth y meithrin yn ddigon i fodloni'r galw presennol. Mae hyn yn broblem mae RhAG wedi'i chodi gyda'r sir yn ddiweddar iawn, ond hyd yma nid yw wedi cael unrhyw fanylion ynghylch sut fydd y galw yn cael ei fodloni yn y tymor byr. Mae 3 blynedd eto nes 2005 ac

felly beth fydd yn digwydd i'r dysgwyr newydd yn yr ardal yn y cyfamser? Beth yw'r cynlluniau dros dro?

- Nodir ar dudalen 14:

  "Rhagwelir y bydd y nifer sy'n manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn cynyddu o ganlyniad i'r cynnig, ac felly bydd yn cefnogi targedau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod, yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a chynyddu'r nifer o blant meithrin nad ydynt yn cael eu cynnal sy'n pontio i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg."

  Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn gofyn i awdurdodau lleol gyfnerthu'r galw sydd am gynyddu darpariaeth. Cytunwn y bydd hyn yn cynyddu'r ddarpariaeth, ond nid yw'n ddigonol yn yr ardal hon. Yn ogystal, mae gan y Cyngor gyfrifoldeb, dan y cynllun hwn, i hyrwyddo **addysg Gymraeg** yn benodol ac rydym yn awyddus i gynorthwyo'r Sir i wneud hyn cyn gynted â phosibl. Os nad oes capasiti i ehangu yn y tymor byr, mae'n anodd iawn hyrwyddo darpariaeth nad ydyw ar gael.

- Mae'n bosibl egluro pam mae'r cyllid cyfredol ar gyfer pob dysgwr yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn £505 yn llai na chyllid cyfartalog dysgwyr ysgolion Cynradd eraill y Sir?

**Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg**

- Mae'n hanfodol nodi'r cymunedau sy'n ehangach na Choety a Bracla sy'n cael eu heffeithio gan y cynllun hwn a bod dysgwyr yn dod o ardaloedd eraill hefyd ac felly dylai'r asesiad o'r effaith adlewyrchu cymuned wirioneddol yr ysgol.

- Diolch am gydnabod bod y cynllun hwn yn effeithio ein rhieni yn yr ardal hon. Byddai'n dda gweld camau lliniaru i gynorthwyo rhieni gan eu bod yn methu â chael lleoedd i'w plant rhwng 2022 a 2025.

- Er bod yr asesiad risg wedi adnabod nifer o gamau cadarnhaol, nid yw'r cynllun wedi cydnabod y risgiau canlynol:

1 Beth fydd yn digwydd i'r safle ar ôl gadael Ysgol Gymraeg Bro Ogwr? A oes bwriad i sefydlu ysgol Saesneg ar y safle? Os felly, a fydd rhieni yn debygol o aros ar y safle er hwylustod? Sut fydd y cynnydd mewn cynigion lleoedd Saesneg yn effeithio ar y ganran o addysg Gymraeg y Sir?

2 Mae angen cydnabod y risg i breswylwyr ardaloedd daearyddol sy'n wynebu'r posibilrwydd o fethu â chael lle yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr. Mae'n bwysig sicrhau addysg leol i ddysgwyr. Mae defnyddio'r polisi trafnidiaeth i wneud hyn yn annerbyniol gan ei fod yn osgoi cynllunio mewn ardaloedd daearyddol. Mae Pencoed yn enghraifft o ardal o'r fath ond nid yw wedi'i hadnabod yn risg i'r cynllun hwn.

Mae datblygiadau tai sylweddol yn cael eu cynllunio yn yr ardal hon ac felly a yw'r sir wedi ystyried dwy ysgol Gymraeg? A fyddai cyfnewid adeilad yr ysgol yn agosach at gymunedau Coety a Phencoed a'i gwneud yn ysgol Gymraeg yn ffordd o ddatblygu addysg Gymraeg yn yr ardal hon? Mae'n rhaid i addysg Gymraeg fod yn rhan

greiddiol o gynnig addysg Sir Pen-y-bont ar Ogwr os yw'r sir o ddifrif am gyfrannu at y filiwn. Dyma'r cyfle!

Felly, rydym yn gofyn i Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr ailfeddwl y cynllun yn ofalus, gan ystyried ein sylwadau a sylwadau rhanddeiliaid eraill y Fforwm Addysg Gymreig.

Byddwn yn barod i drafod ein hymateb gyda swyddogion a chynghorwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar unrhyw adeg gyfleus yn ôl yr arfer.

**Ymateb yr awdurdod lleol:**

Diolch am eich arsylwad ynghylch y cynnig uchod. Gweler isod ymateb yr awdurdod lleol i bob un o'ch pryderon.

Anfonwyd y llythyr â'r dyddiad 11 Chwefror 2020 at rieni/gofalwyr Ysgol Gymraeg Bro Ogwr i'w hysbysu bod y Cabinet wedi cael caniatâd i wneud astudiaeth ddichonolrwydd ar dir ym Mryn Bracla. Yn ôl eu natur, mae angen nifer o arolygon/asesiadau ar astudiaethau dichonolrwydd er mwyn eu cynnal ar safleoedd posibl.

Er mwyn deall y modd o ddatblygu'r safle, roedd yn hanfodol gwneud ymchwiliad o'r safle a oedd yn cynnwys drilio tyllau turio a phyllau profi. Mae'r gwaith hwn yn swnllyd ac o ganlyniad i hynny, ystyriwyd mai priodol fyddai rhoi gwybod i'r ysgol gyfagos (sef Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Archddiacon John Lewis) a'r preswylwyr lleol, gan y gallent fod wedi'u heffeithio gan y gwaith arolygu.

Nodwyd yn glir yn y llythyr i rieni/gofalwyr mai ei ddiben oedd eu hysbysu am y gwaith dichonolrwydd ac nid oedd, mewn unrhyw ffordd, yn gwneud ymrwymiad i ddatblygu cynllun yn y lleoliad hwn yn y dyfodol. Y prif reswm dros rannu'r wybodaeth ar yr adeg hon oedd bod gofyn ymgymryd ag asesiad trafnidiaeth, sy'n golygu y byddai'r arolygwyr yn weladwy yn ysgolion yr ardal ac ar y rhwydwaith priffyrdd yn cyfrif traffig. Felly, er mwyn sicrhau nad oedd disgwyliadau amhriodol yn cael eu codi mewn perthynas â'r datblygiad ym Mryn Bracla, cafodd y llythyr ei strwythuro'n ofalus i bwysleisio mai gwaith dichonolrwydd yn unig yw hwn. Yn amlwg, anfonwyd y llythyr cyn ymgymryd â'r arolygon.

Fel yr eglurwyd eisoes, nid yw astudiaeth ddichonolrwydd yn gynllun nac yn bolisi, a'i diben yw pennu a ellir datblygu safle ai peidio. Gall nifer o safleoedd fod yn destun astudiaethau dichonolrwydd ac nid yw cwblhau astudiaeth o reidrwydd yn arwain at gynllun yn cael ei gynnig ar gyfer safle penodol, gan y gellir cael problemau yn y gwaith datblygu a dim ond ar ôl cael gwybod canlyniad yr astudiaeth y gellir sefydlu hynny. Mynegwyd hyn yn y llythyr rhag codi disgwyliadau.

Fel yr ydych yn ymwybodol, a chithau'n ymgynghorai yn adroddiad Cefin Campbell, roedd yr adroddiad yn cynnig tri opsiwn mewn perthynas ag Ysgol Gymraeg Bro Ogwr:

**Opsiwn 1**

Mae cefnogaeth amlwg tuag at gadw Ysgol Bro Ogwr ar ei safle presennol a datblygu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn rhywle arall yng nghanol Pen-y-bont ar Ogwr. Yna, byddai'r ddwy ysgol hyn yn bodloni poblogaeth gynyddol a mwy o

alw am addysg cyfrwng Cymraeg drwy farchnata manwl y buddion sydd ynghlwm â dwyieithrwydd a thrwy'r awdurdod lleol yn hyrwyddo'n weithredol.

**Opsiwn 2**

Fel yr uchod, ond yn hytrach na sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng nghanol y dref, mae'r awdurdod addysg yn ystyried sefydlu ysgol 3 i 19 oed a fyddai'n caniatáu am dwf addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Gyda tharged y twf yn y deng mlynedd nesaf yn 170 o ddisgyblion ychwanegol fesul ysgol yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, mae achos cryf am osod y ddarpariaeth yng nghanol Pen-y-bont ar Ogwr, gan fod teimlad cryf bod lleoliad presennol Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd yn waharddol ar gyfer nifer o ddisgyblion sy'n byw yn ne neu ddwyrain ardal yr awdurdod lleol.

Gallai ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg newydd gynnwys canolfan trochi iaith a fyddai'n galluogi'r rheini sy'n hŷn i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg drochi eu hunain yn llawn yn yr iaith. Yn ogystal, gallai greu canolfan iaith Gymraeg a allai ddarparu swyddfa ar gyfer nifer o sefydliadau Cymraeg, gel yr Urdd, Menter Iaith, Mudiad Meithrin a Cymraeg i Oedolion. Drwy gynnwys hwb iaith amlbwrpas yn rhan o'r ysgol, byddai'n caniatáu i'r awdurdod lleol a sefydliadau iaith gydweithio ar ddarparu gweithgareddau yn yr iaith Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol a fyddai'n rhoi cyfleoedd cymdeithasol i bobl ifanc ddefnyddio'r iaith, gan gynyddu eu rhuglder a hyder.

**Opsiwn 3**

Yn seiliedig ar ymrwymiad i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd neu ysgol 3 i 19 oed yng nghanol Pen-y-bont ar Ogwr, byddai opsiwn i gau Ysgol Bro Ogwr ar yr amod bod ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei hagor yn y cyffiniau ehangach, o bosibl yn ardal Bracla/Coety.

Fel yr ydych yn ymwybodol, mae'r awdurdod lleol wedi ystyried canfyddiadau'r adroddiad ac yn mynd ymlaen gydag Opsiynau 2 a 3 yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd arfaethedig. Mae'r cynnig sy'n ymwneud ag Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn unol ag Opsiwn 3 Cefin Campbell uchod. Mae'r dull strategol ar gyfer y cynnig hwn wedi'i ystyried mewn perthynas â'r ddarpariaeth gyfredol a'r dyfodol ar gyfer y fwrdeistref sirol gyfan.

Fel dogfen ymgynghori gyhoeddus, mae'r iaith a ddefnyddir ynddi yn ceisio sicrhau bod y cyhoedd yn ehangach yn deall prif ddiben y cynnig. Er y cydnabyddir nad oes 'ffiniau dalgylch' ar hyn o bryd ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr, credir ei bod hi'n bwysig bod y cyhoedd (yn enwedig rhieni/gofalwyr) yn deall cyd-destun y cynnig. Ar y cyfan, deallir mai dalgylchoedd o fewn persbectif ehangach derbyniadau ysgol yw 'ardaloedd daearyddol a wasanaethir gan ysgol benodol'. Felly, byddai newid yr iaith i 'yr ysgol cyfrwng Cymraeg addas agosaf sy'n gwasanaethu cymuned ehangach Pencoed', er enghraifft, yn golygu o bosibl na fyddai rhai aelodau'r cyhoedd yn deall y cynnig gan na fyddant yn gyfarwydd â'r iaith arall ac efallai na fyddant yn ymateb.

Bydd dyfodol y safle yn cael ei bennu gyda hyn yn dilyn adolygiad o'r gwerthusiad opsiynau mewn perthynas â safle presennol Ysgol Gymraeg Bro Ogwr. Mae'r

awdurdod lleol wedi sefydlu'r strategaeth ar gyfer cynyddu'r ganran o ddisgyblion mewn addysg Gymraeg yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Cyflwynwyd mynegiant o ddiddordeb gan yr awdurdod lleol am gyllid grant cyfalaf cyfrwng Cymraeg gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor, ar gyfer gosod dosbarth dwbl symudol yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr i fynd i'r afael â'r galw uniongyrchol am leoedd, gan gynnwys dosbarth meithrin.

Diben yr ymgynghoriad yw ceisio safbwyntiau mor eang â phosibl mewn perthynas â'r cynnig. Felly, mae croeso i'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg, Rhieni dros Addysg Gymraeg a rhanddeiliaid eraill ymateb i'r broses ymgynghori. Mae cyllidebau dirprwyedig pob ysgol (cyfrwng Cymraeg a Saesneg) wedi'u hariannu yn ôl fformiwla. Mae fformiwla'r gyllideb ddirprwyedig yn dibynnu ar sawl amrywiolyn (er enghraifft arwyneb y llawr, nifer o ddisgyblion, arwyneb y tir ac ati). O ganlyniad, mae'r cyllid a gafwyd ym mhob ysgol yn ddibynnol ar amgylchiadau unigryw yr ysgol.

Pe ddatblygir y cynnig hwn, ac fel y manylwyd eisoes, bydd yr awdurdod lleol yn adolygu gwerthusiad opsiynau yn ymwneud â defnydd yr Ysgol Gymraeg Bro Ogwr bresennol yn y dyfodol. Mae'r polisi yn rhoi'r dewis i rieni o ran ysgolion dewisol.

Mae'r strategaeth arfaethedig yn ymwneud â darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg y dyfodol wedi'i nodi yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drafft sy'n cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Mae rhagor o ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg wedi'i gynllunio ar gyfer yr ardal hon a bydd yn cael ei darparu fel rhan o fand sydd i ddod o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion, fel y manylir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drafft.

**Gohebiaeth uniongyrchol a gafwyd ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, ond a dderbyniwyd gan fod y cyfeiriad e-bost gwreiddiol yn anghywir, ond cafodd ei anfon yn ystod y cyfnod ymgynghori.**

**YDW**, rwy'n cefnogi'r cynnig

**Sylwadau:**

Rwy'n llwyr gefnogi'r cynnig a amlinellwyd yn y Pro-Fforma a theimlaf fod y lleoliad newydd yn ddelfrydol ar gyfer yr ysgol newydd arfaethedig. Mae'r cynlluniau yn cynrychioli cyfle gwych i ddarparu cyfleuster ysgol o'r radd flaenaf a chyfle i hyrwyddo Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Wedi dweud hynny, fel Llywodraethwr Ysgol, Cynghorydd Cymuned lleol a phreswyliwr Bracla, rwy'n pryderu'n fawr dros y trefniadau parcio arfaethedig yn ein hysgol newydd. Yn y cynnig gwreiddiol ym Mryn Bracla, roedd digon o leoedd parcio ar gyfer 60 o aelodau o staff a 30 o leoedd ar gyfer danfon.

Er nad oes manylion yn y ddogfen ymgynghori, yn y cynllun a rannwyd â Llywodraethwyr yr Ysgol a'r Pennaeth, nodir yn glir mai dim ond 30 o leoedd parcio fydd ar gael i staff. Er fy mod yn cydnabod uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i annog mwy o bobl i gerdded a beicio i bob man a tharged Carbon Sero erbyn 2030, yn bragmataidd, os bydd y nodau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn rhy gaeth, yna bydd yn cael effaith sylweddol ar ein hysgol newydd yn fy marn i.

Mae ein niferoedd staff presennol a'r galw am barcio eisoes yn mynd y tu hwnt i'r dyraniad newydd arfaethedig. Ar ochr gadarnhaol y geiniog, ymddengys bod lle digonol ar gyfer mynediad bysiau ac mae'n dda y byddant yn mynd i'r safle o'r Ystad Ddiwydiannol. Gellid fod wedi rhannu hyn yn y ddogfen Ymgynghori.

Mae recriwtio athrawon cymwys a phrofiadol, sy'n siarad Cymraeg, yn her barhaus, yn enwedig wrth ystyried y galw gan ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill. Heb barcio digonol ar y safle i ddenu'r unigolion hyn, bydd yn hynod anodd eu denu, ac yn broses lafurus, lle caiff Staff Asiantaeth eu defnyddio ar gyfer llanw - sy'n ddrud i'n cyllideb dynn. Bydd hyn yn cael effaith ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg os nad yw'n cael ei drin yn gywir o'r cam cyntaf.

Mae pwyntiau danfon eisoes yn bwnc dadleuol, ac mae enghreifftiau o anfodlonrwydd mawr ym Mrynmenyn a Phencoed wrth i mi ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Nid yw hyn yn arwydd da ar sawl lefel mewn unrhyw ysgol, heb sôn am ysgol Cyfrwng Cymraeg Newydd, a dylid defnyddio maint y safle a'r profiad a gafwyd o'r gorffennol i ddatrys hyn.

Pan fyddwch yn cwrdd â'r Adran Briffyrdd i drafod yr Asesiad Effaith ar Drafnidiaeth, rwy'n credu y dylai effaith bosibl y 62 o Dai Fforddiadwy ac uned Fanwerthu bosibl yn lleoliad Ridgeway gael ei hystyried yn y trefniadau parcio arfaethedig terfynol ar gyfer yr ysgol o ystyried yr effaith gyfunol mae hyn am ei chael. Gan gofio pan fyddwn yn gadael ein hysgol bresennol, bydd ysgol cyfrwng Saesneg yn ei lle yn ychwanegu at lif y traffig sydd eisoes yn brysur ac yn destun tagfeydd traffig.

**Ymateb yr awdurdod lleol:**

Byddwn yn cynnal gweithdy ar wahân gyda'n timau priffyrdd ac iechyd a diogelwch i drafod effaith y traffig ar y briffordd, darpariaeth parcio ac ardaloedd danfon fel rhan o ddatblygu'r dyluniad ac i ddeall pa un ai a yw'r mesurau lliniaru sydd ar waith yn ysgolion eraill y sir yn effeithiol ai peidio.

Mae'r adran briffyrdd wedi comisiynu a chasglu Asesiad Effaith ar Drafnidiaeth sydd wedi'i adrodd i'r Cabinet. Bydd yr Asesiad Effaith ar Drafnidiaeth yn cael ei adolygu a byddwn y sicrhau ein bod yn darparu unrhyw seilwaith teithio llesol sydd ei angen fel rhan o'r cynllun hwn. Er mwyn sicrhau ein bod yn cael caniatâd cynllunio ar gyfer y prosiect, rhaid i ni fodloni telerau a gofynion yr adran briffyrdd a rhaid i ni gydymffurfio â'r Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru.

Bydd angen i ni ddatblygu achos cryf i'w gyflwyni i'n cydweithwyr yn yr adran briffyrdd i egluro'r pryderon yn ymwneud â recriwtio a chadw staff. Byddwn yn gweithio gyda'r ysgol i ddatblygu cynllun trafnidiaeth ysgol, casglu gwybodaeth ynghylch materion staffio a pharcio presennol a chasglu data cod post.

**Gohebiaeth uniongyrchol a gafwyd:**

Diolch am y cyflwyniad neithiwr.

Crybwyllwyd ardal las yn y cyflwyniad ac rydym yn chwilio am dir i'w ddefnyddio fel ail safle gardd rhandir a gofynnwyd i mi wneud ymholiadau cychwynnol ar ba un ai a yw hyn yn rhywbeth y byddwch chi'n ei ystyried?

**Ymateb yr awdurdod lleol:**

Nodwn eich cais a byddwn yn ystyried hyn maes o law, yn amodol ar ganlyniad llwyddiannus y broses ymgynghori statudol.

## ATODIAD 8

**(Holiadur Snap ar-lein) Ymatebion**

**A ydych chi'n (ticiwch os gwelwch yn dda):**

Rhiant/gwarcheidwad (29) 63%
Parti arall sydd â diddordeb (nodwch os gwelwch yn dda) (11) 24%
Staff ysgol (4) 9%
Llywodraethwr ysgol (2) 4%
Disgybl ysgol (-)

**A ydych chi'n cefnogi'r cynnig?**

Nac ydw (15) 33%
Ydw (31) 67%

**Os nad ydych yn cefnogi'r cynnig – nodwch pam:**

Dim darpariaeth ar gyfer yr holl draffig ychwanegol mae hyn yn ei achosi. Ddim yn ddiogel i blant.

Nid oes gan yr ysgol amser ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol. Os maen nhw'n credu bod gan eich plentyn broblem, yna byddant yn cael gwared arno, yn hytrach na rhoi cefnogaeth iddo, felly gyda'r staff uwch presennol yn yr ysgol, byddai'n wastraff arian darparu lle ychwanegol mewn ysgol newydd.

Mae ysgolion sydd mewn llawer mwy o angen o le newydd. Mae'r rhain yn cael eu hanwybyddu gan nad ysgolion Cymraeg iaith gyntaf mohonynt. Prin iawn yw'r lleoedd gwyrdd sydd ar ôl ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Dylid adfywio tir llwyd yn hytrach na datblygu lleoedd gwyrdd.

Gall parcio a thraffig fod yn broblem bosibl i breswylwyr. Mae angen datrys hyn gan y bydd traffig yn dod i fyny o'r ffordd ddeuol ac i lawr y ffordd ddeuol yn atal mynediad i'r stad. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd y tu allan i giatiau'r ysgol. Petai hyn yn cael ei ddatrys, byddwn yn cefnogi'r cais.

**Os nad ydych yn cefnogi'r cynnig – nodwch pam:**

A minnau wedi arwain yn llwyddiannus yr ymgyrch i arbed mannau gwyrdd agored ym Mracla rhag datblygiad ym Mryn Bracla, rwy'n parhau i gredu yn rhan helaeth o'n hymgyrch a gafodd gefnogaeth gan dros 8,000 o breswylwyr, sef bod gan Bracla ddigonedd o ysgolion ac felly ni ddylid adeiladu yn ardal Bracla. Fel y nodwyd eisoes, bydd yr ysgol yn gwasanaethu disgyblion o bob cwr o Sir Pen-y-bont ar Ogwr, nid Bracla ei hun, felly nid oes rhaid adeiladu'r ysgol yn un o'r ardaloedd sydd â'r boblogaeth uchaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Datrysiad llawer gwell fyddai ymgorffori'r datblygiad ysgol hwn yn y cynlluniau am dai a datblygiad newydd yn Waterton gan y byddai'n ganolog ac yn fwy hygyrch i bobl sy'n teithio ar draws bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr, a chadarnhawyd a chefnogwyd hyn gan y Cyn-brif Weinidog Carwyn

Jones. Byddai'r mynediad ffordd eisoes yn ei le, a byddai'n osgoi defnyddio lle sy'n gartref i rywogaethau bywyd gwyllt gwarchodedig.

Ysgol cyfrwng Cymraeg arall y mae galw amdani, yn hytrach nag adeilad newydd ar gyfer yr ysgol bresennol, yn enwedig un sy'n cynnig lle i hanner dosbarth fesul blwyddyn.

Does dim angen ysgol newydd, fwy arnoch chi.

A minnau'n rhiant yn byw yn yr ardal, rwy'n gwrthwynebu'r cynnig i droi safle presennol Ysgol Bro Ogwr yn ysgol Saesneg, gan fod hyn yn mynd yn groes i darged Llywodraeth Cymru i weld cynnydd yn yr addysg Gymraeg a chreu miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae heriau mawr eisoes yn wynebu'r sir, mewn perthynas ag ardaloedd megis Bracla a Phencoed sydd â theuluoedd wedi'u heffeithio nad ydynt wedi gallu cael lle newydd. Er y byddai Ysgol Gymraeg newydd yn cynnig mwy o leoedd, buan y byddai'n llenwi. Yn fy marn i, mae'n allweddol ystyried dalgylchoedd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr. Maent yn enfawr ac yn her ormodol i rieni o ran trafnidiaeth a hwylustod. Mae angen normaleiddio'r iaith o fewn cymunedau.

Mae angen ehangu addysg Gymraeg yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr ond nid dyma'r ateb. Nid yw symud Bro Ogwr i ysgol ychydig yn fwy dafliad carreg oddi wrth y safle presennol yn cynnig digon o dwf. Ac nid yw'n cynnig dewis o ysgolion i blant lleol gael addysg Gymraeg ychwaith. A minnau'n rhiant i ddau o blant yn yr ysgol, rwy'n hapus gyda'r adeilad, y lleoliad a maint yr ysgol. Mae ysgolion mewn cyflwr llawer gwaeth na Bro Ogwr ac nid wyf yn teimlo y byddai ychwanegu hanner ffrwd a dosbarthiadau cymysg yn fuddiol.

Nid wyf yn cefnogi'r cynnig hwn gan fy mod yn fodlon gyda'r ysgol fel y mae.

Oherwydd bod ein hysgol yn sefydledig ac nid oes angen ei symud.

Mae angen mwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws y sir. Nid yw newid y safleoedd drwy'r amser yn ddigon da. Dyma beth ddigwyddodd gydag Ysgol Calon y Cymoedd - nid yw'n ysgol newydd, ond yn safle newydd.

Mae angen agor mwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y sir er mwyn sicrhau bod y cyngor yn bodloni targedau 2050 Cymru – y cynllun sy'n cael ei ystyried yma yw symud yr ysgol.

Sylwadau/awgrymiadau/ceisiadau/cwestiynau:

**Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu opsiynau eraill i'r cynigion sydd wedi'u cyflwyno, nodwch fanylion:**

Os oes lle ar gyfer 90 yn y dosbarth meithrin, ond dim ond 75 drwy weddill yr ysgol, lle mae hanner arall y dosbarth meithrin am fynd? Mae'n allweddol sicrhau lleoedd ar gyfer y 90 sy'n y dosbarth meithrin.

Er fy mod yn cefnogi'r cais, mae'r angen yn parhau am ysgol sy'n agosach at ardal Pencoed. Nid yw hyn am fod yn ddigon mawr i'r ardal. Mae angen datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ymhellach yn yr ardal.

Os bydd lle ar gyfer 90 o ddisgyblion yn y dosbarth meithrin (3 dosbarth) ac yna tua 75 ym mhob blwyddyn arall (2.5 dosbarth), i le mae'r 15 o blant i fod i fynd ar ôl gadael y dosbarth meithrin?! Mae'n annheg iawn disgwyl i'r plant hyn adael a dechrau eto mewn ysgol arall ar ôl iddynt setlo a gwneud ffrindiau a ffurfio perthnasoedd pwysig. Rwy'n ymwybodol bod sefyllfa debyg wedi codi eleni er mawr gywilydd i'r ysgol a'r cyngor.

Mae'n warthus bod addysg Gymraeg yn cael ei gwadu i ddisgyblion ifanc y sir ar ôl iddynt fynychu'r dosbarth meithrin. Byddai'n greulon gwneud yr un fath i ddisgyblion y dyfodol.

Beth fydd dalgylch yr ysgol?

Sylwadau/awgrymiadau/ceisiadau/cwestiynau:

**Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu opsiynau eraill i'r cynigion sydd wedi'u cyflwyno, nodwch fanylion:**

Bod yn ehangach, os yn bosibl.

Newyddion gwych, yn enwedig i rieni ym Mhencoed. Mae Pencoed mewn angen taer am ddarpariaeth Gymraeg. Dylid cynllunio ysgol gyfun Gymraeg newydd yn nwyrain y sir cyn gynted ag y bo modd!

A minnau'n rhugl yn y Gymraeg, teimlaf ei bod hi'n syniad gwych rhoi lle i fwy o blant ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rwy'n credu y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddyfodol Pen-y-bont ar Ogwr.

Denu staff cymwys i'r prosiect newydd ar ôl ei gwblhau os yw'n mynd yn ei flaen i fod o fudd i'r disgyblion. Nid yw disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn cael cefnogaeth gan nad yw'r staff presennol yn gwybod sut i ymdrin â nhw

Egluro a fydd y cyfleusterau chwaraeon / mannau gwyrdd yr ysgol newydd yn agored i'r cyhoedd?

Gwych, mae'n hen bryd i ni gael ysgol Gymraeg newydd er mwyn cadw'r iaith yn fyw!

Cynnwys parth danfon/lleoedd parcio ar gyfer rhieni yn y cynlluniau i osgoi problemau parcio ar gyfer preswylwyr a thagfeydd traffig i'r lonydd cyfagos.

Mae'r cynnig hwn yn gwneud synnwyr oherwydd y tai newydd yn yr ardal ac oherwydd bod pobl yn symud o'r tu hwnt i'r ardal i Ben-y-bont ar Ogwr, mae'n wych cefnogi'r iaith Gymraeg a'r hanes sydd ynghlwm â hi. Mae angen yr ysgol, mae'n gywilydd nad oeddynt yn gallu datblygu meddygfa yn yr ardal ar gyfer y bobl ychwanegol!

Mae angen ysgol arall ym Mhen-y-bont ar Ogwr, nid hanner dosbarth arall!!

Fel y pwysleisiwyd uchod, dylid (a rhaid) ymgorffori'r datblygiad hwn fel rhan o'r datblygiad arfaethedig yn Waterton.

Ni fydd angen ysgol 3-ffrwd gyda dosbarthiadau oedran cymysg nac ysgol yn ychwanegol at Ysgol Bro Ogwr.

Dim ond hanner dosbarth ychwanegol fydd yn cael ei ddarparu yn yr adeilad newydd, nid yw'n gyfle i gynyddu'r niferoedd. Yn ogystal, nid yw cynllunio ysgol ar gyfer dosbarthiadau oedran cymysg yn ddoeth - yn ddelfrydol byddai dosbarth un oedran er mwyn cynnig y cyfleoedd dysgu gorau i'n disgyblion.

Rwy'n cytuno gyda'r adeilad newydd ac ymestyn addysg Gymraeg, mae angen hynny yn y sir hon ac mae'n hen bryd. Wedi dweud hynny, teimlaf y byddai ysgol 3 dosbarth mynediad yn well. Mae ysgol newydd yn denu nifer fawr o deuluoedd i'r ardal ac rwy'n teimlo y bydd llawer o blant eisiau mynd i'r ysgol. Nid yw cynyddu'r ysgol bresennol o hanner dosbarth yn creu digon o leoedd. Nodir yn y cynllun bod dosbarth meithrin â 90 lle, a yw 15 o blant yn methu â chael lle yn y dosbarth derbyn? Beth yw'r cynllun i fynd i'r afael â
hyn? Gall dosbarthiadau cymysg fod yn fwy anodd ar gyfer athrawon a phlant.

Rwy'n cefnogi adeiladu ysgol gynradd Gymraeg newydd, fwy ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'n hen bryd i'r sir gael un. Wedi dweud hyn, mae gennyf rai pryderon ynghylch yr ysgol 2.5 dosbarth mynediad. Nid wyf yn credu bod ysgol 2.5 dosbarth mynediad yn estyniad digonol i ysgol 2 ddosbarth mynediad. Rwy'n credu y dylai fod yn ysgol 3 dosbarth mynediad, i gyd-fynd â'r capasiti o 90 yn y dosbarth meithrin. Byddai 90 o leoedd yn y dosbarth meithrin yn gyfwerth â 3 dosbarth o 30. Beth yw cynllun y cyngor ar drawsnewid o'r dosbarth meithrin i addysg statudol? Hoffwn wybod a fydd 15
o ddisgyblion yn cael eu gwrthod i'r dosbarth Derbyn gan nad oes lle ar eu cyfer? Mae llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi dosbarthiadau llai, oni fyddai'n well cael 3 dosbarth llai na 2.5 dosbarth mwy. Rwy'n teimlo'n gryf bod angen 2 neuadd yn yr ysgol. Mae neuadd a stiwdio yn yr adeilad presennol, sy'n cael eu defnyddio drwy'r amser. Rwy'n teimlo'n gryf bod angen y 2 er mwyn cefnogi a gweithredu'r cwricwlwm newydd. Mae digon o leoedd parcio ar gyfer yr holl staff yn flaenoriaeth hefyd. Diolch am eich amser.

Mae angen ysgol arall arnoch ymhellach i ffwrdd, efallai y dylid newid yr ysgol yn Broadlands ger Tesco Express yn un cyfrwng Cymraeg. Mae angen i chi wneud addysg cyfrwng Cymraeg yn fwy deniadol drwy gael mwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd o fewn pellter cerdded i nifer o rieni yn y sir. Nid oes angen dim mwy o ysgolion Saesneg arnom, rhowch y gorau i'w hadeiladu.

Sylwadau/awgrymiadau/ceisiadau/cwestiynau:

**Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu opsiynau eraill i'r cynigion sydd wedi'u cyflwyno, nodwch fanylion:**

Er bod ymestyn yr ysgol yn syniad gwych i'r cymunedau cyfagos a'r iaith Gymraeg, mae dau beth sy'n dod i'r meddwl. Yn gyntaf, mae gennyf ddau o blant sy'n mynychu'r ysgol a'm poen i yw y byddai hyn yn achosi mwy o aflonyddwch i'w haddysg. Maent wedi colli cymaint oherwydd COVID. Mae angen i ni sicrhau nad yw hyn yn digwydd, neu byddant dan fwy o anfantais mewn cymhariaeth â phlant eraill eu hoedran nhw. Yn ail, o ystyried y sylw diweddar yn y wasg am broblemau parcio

yn ysgolion cynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a fydd ystyriaeth ar gyfer digon o leoedd parcio?

Nid yw ysgol 2.5 dosbarth mynediad yn ddigon mawr. Mae angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr feddwl am y dyfodol. Mae rhai mamau yng Nghoety sydd â babanod newydd anedig. Nid oedd gan Fro Ogwr ddigon o le eleni, felly beth yw'r rheswm dros hanner dosbarth mynediad?

Cadwch Ysgol Bro Ogwr fel y mae. Agorwch ysgol Gymraeg newydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr sydd â lle i ddisgyblion Pencoed a mwy.

Opsiwn da iawn fyddai creu ysgol gydol oes ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn y dyfodol agos a fyddai mewn lleoliad gwell ar gyfer ysgol gyfun na Llangynwyd o ran teithio ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion yr ardal ac o ran denu ac ail-hyfforddi staff, yn enwedig o ystyried pris petrol! O'r diwedd, bydd hyn yn cynnig yr ysgol gynradd Gymraeg gyntaf ers degawdau i'r sir!

Rhowch y cynnig hwn yn rhywle arall yn y Fwrdeistref er mwyn i blant eraill gael cyfle i fynychu addysg cyfrwng Cymraeg

Credaf ei bod hi'n warthus eich bod chi'n dymuno ehangu'r ysgol hon a'i symud i safle arall. Cynigiwch y cyfle hwn drwy agor ysgol Gymraeg newydd, dyna sydd angen i chi ei wneud.

Mae nifer o blant Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn dal i orfod teithio ar y bws neu gyda char i'r ysgol. Nid yw hyn yn deg – mewn cymhariaeth â chyfoedion sy'n mynychu ysgolion Saesneg, y rhan fwyaf ohonynt yn gallu cerdded i'r ysgol o'u cartrefi.

**Unrhyw sylwadau eraill:**

Mae angen sicrhau lleoedd nawr hefyd, yn hytrach nag aros tan 2025. Nid yw disgyblion dosbarth meithrin y llynedd wedi cael lle yn y dosbarth derbyn, a dim ond 27 oedd yn y dosbarth. Gwarthus!!

Beth sy'n digwydd yn yr ardal yn y cyfamser? A fydd digon o leoedd ar gyfer disgyblion Cymraeg yr ardal ym mlynyddoedd 22/23 23/24 24/25?

Rhaid sicrhau bod POB plentyn yn y dosbarth meithrin yn cael lle yn y dosbarth derbyn. Mae'n gywilydd i Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr greu sefyllfa gwbl annerbyniol a phoenus i deuluoedd eleni. Gwarthus ac annheg, yn gwbl groes i amcanion y llywodraeth.

Beth yw cynlluniau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer y presennol nes y byddant yn agor yr ysgol newydd? Rwy'n poeni bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn anwybyddu'r galw am addysg Gymraeg yn yr ardal a bod ganddo weledigaeth gyfyng iawn o ran addysg Gymraeg. Mae adeiladu ysgol 2.5 dosbarth mynediad yn wych, ond dylai fod un ar agor yn barod ac ar flaen ffordd o feddwl y cyngor lleol wrth iddynt gynllunio adeiladu lleoedd gwaith a chartrefi newydd.

Braf gweld yr iaith Gymraeg yn cael ysgol newydd a buddsoddiad am unwaith!

Tybed a fydd gwelliannau yn cael eu gwneud i'r ysgol Bro Ogwr bresennol cyn agor fel ysgol cyfrwng Saesneg?

Trist nad oes unrhyw gynlluniau eraill am siopau/meddygfa/deintyddfa etc gan nad yw Bracla yn gallu ymdopi â'r cynnydd mewn tai heb gefnogaeth o ran seilwaith i breswylwyr

Gobeithio y bydd yn mynd yn ei flaen.

Mae angen ystyried parcio a llif traffig yn yr ardal er mwyn sicrhau na fydd effaith ar y preswylwyr lleol.

**Unrhyw sylwadau eraill:**

Mae'n hanfodol dangos fel sir ein bod yn ymateb ymlaen llaw, yn cynllunio at y dyfodol, gan ymateb i darged Llywodraeth Cymru. A yw'r un 4 ysgol wedi bodoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr ers y 70au/80au? Ym mha sefyllfa mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr o ran gwneud penderfyniadau? Mae addysg Gymraeg yn ehangu ym Mro Morgannwg a Chaerdydd. Mae angen paratoi, yn hytrach na symud Bro Ogwr a rhoi ysgol Gymraeg yno yn ei lle!! Cadwch Fro Ogwr ac adeiladwch ysgol Gymraeg arall yn y dref neu'n agosach at Bencoed!!!

Ni ellir anwybyddu lleisiau 8,000 o breswylwyr lleol, ac er mai ein hymgyrch oedd atal ein mannau agored sy'n weddill ym Mracla, roedd hefyd yn pwysleisio na fyddai cymuned Bracla yn croesawu'r datblygiad hwn yn eu cymuned sydd eisoes dan ei sang oherwydd yr effaith ar draffig ychwanegol a llygredd aer, felly rhaid lleoli'r datblygiad hwn ar safle llawer mwy addas a chanolog er mwyn gwasanaethu cymuned gyfan Pen-y-bont ar Ogwr yn hytrach nag ychwanegu at y traffig a'r llygredd a gor-ddatblygu yn ardal Bracla eisoes.

Nid oes digon o leoedd parcio. Er fy mod yn deall yr ymgais i annog y gweithlu i rannu cerbydau neu deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, nid oes ystyriaeth o'r ffaith bod gweithlu ysgol Gymraeg yn wahanol i ysgolion Saesneg; mae staff addysgu a staff cymorth yn teithio cryn bellter o wahanol ardaloedd i gyrraedd y lleoliad

Diolch am eich amser

Mae angen rhagor o leoedd am addysg gynradd Gymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Rwy'n byw ym Mhencoed, allwch chi ddweud wrthyf pam nad oes ysgolion cyfrwng Cymraeg cyfagos?

Mae Ysgol Sant Baruc yn y Bari yn cael adeilad newydd sy'n dyblu maint yr ysgol. Mae angen ysgol arall arnom ym Mhen-y-bont ar Ogwr, nid yn unig i fodloni'r galw ond i ddenu mwy i ymgymryd ag addysg ddwyieithog. Mae'n duedd cenedlaethol ac mae Pen-y-bont ar Ogwr cymaint y tu ôl i siroedd eraill yn y de-ddwyrain. Mae angen ysgol arnom yn nhref Pen-y-bont ar Ogwr, ysgol ym Mhorthcawl, ysgol ym Mhencoed yn ogystal â'r ysgolion sydd gennym eisoes. Nid yw unrhyw beth wedi newid ers y 80au. Dewch ymlaen. Byddwch yn rhagweithiol!!!! Mae disgyblion yn Ysgol Iolo Morgannwg a ddylai fod ym Mro Ogwr. Nid yw rhieni yn hoffi Dosbarthiadau Mawr!!!! Ysgol newydd, nid hanner dosbarth!!!

A yw Ysgol Bro Ogwr yn cael ei symud er mwyn gwagio'r ysgol bresennol a'u bod ar gael i ysgol Saesneg newydd? Sut ydym am weld twf mewn addysg Gymraeg pan mae mwy o ysgolion Saesneg newydd yn cael eu hagor a dim ond hanner ffrwd Gymraeg? Mae angen mwy o ysgolion cynradd Cymraeg yn yr ardal – byddai llawer mwy o blant yn dewis addysg Gymraeg petai ysgolion yn agos atynt. Mae'n hanfodol cael agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg a bod yn uchelgeisiol gyda'n cynlluniau ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Nid yw ychwanegu 90 lle yn un o'r rhain yn anffodus.

Pa bryd y byddwn ni'n gweld ysgol Gymraeg arall? Dim ond 4 sydd yn y Fwrdeistref Sirol. Pa bryd y bydd gennym hawliau cyfartal ar gyfer defnyddio a thyfu ein hiaith? Agorwch fwy o ysgolion.

**Ymatebion/eglurhad gan yr awdurdod lleol i'r materion a godwyd:**

**Twf addysg cyfrwng Cymraeg**

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 drafft yr awdurdod lleol yn sefydlu'r uchelgeisiau ar gyfer y deng mlynedd nesaf ac rydym yn gwbl ymrwymedig i hyrwyddo a thyfu addysg cyfrwng Cymraeg.

Dyma gam cyntaf y rhaglen. Mae cynlluniau i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y de-ddwyrain ac yn ardal tref Pen-y-bont ar Ogwr. Mae cynnig yn bodoli am ysgol ddwy ffrwd ym Mharc Afon Ewenni (1 dosbarth mynediad cyfrwng Cymraeg ac 1 dosbarth cyfrwng Saesneg), ysgol 1 dosbarth mynediad ym Mhorthcawl ac ysgol cyfrwng Cymraeg i bob oed rhwng 3 a 18 oed, wedi'i lleoli yng nghanol sir Pen-y-bont ar Ogwr. Byddwn yn gweithio ar y cynlluniau hyn i gyd-fynd â datblygiadau tai a'r gyllideb sydd ar gael. Pen-y-bont ar Ogwr yw un o dderbynwyr mwyaf cyllid gofal plant cyfrwng Cymraeg ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.

**Maint / capasiti'r ysgol**

Y Nifer Derbyniadau Ysgolion presennol yw 54 a byddai gan yr ysgol Nifer o 75, sydd felly yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i fwy o ddysgwyr geisio addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai'r capasiti presennol o 378 yn cynyddu i 525 ar gyfer dysgwyr 4-11 oed dan y cynnig hwn.

Mae angen cynyddol am ragor o gapasiti yn YG Bro Ogwr. Pennwyd yr opsiwn am ysgol 2.5 dosbarth mynediad yn opsiwn dewisol ar gyfer lleoliad y safle arfaethedig yn Ffordd Cadfan. Sefydlwyd cyfuniad o opsiynau, costau a strategaeth er mwyn uchafu addysg cyfrwng Cymraeg yr ardal. Y cynnig hwn fydd yr ysgol fwyaf sydd gennym ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

**Darpariaeth nyrsio**

Mae'r galw am leoedd mewn dosbarth meithrin ar hyn o bryd yn fwy na chapasiti yr ysgol. Bydd gan y dosbarth meithrin ddarpariaeth lawn amser a rhan amser a byddai'n cynyddu o 55 i 90 o leoedd cyfwerth â llawn amser. Bydd saith deg a phump lle llawn amser ar gyfer dysgwyr 3 i 4 oed a bydd darpariaeth ran amser yn gwneud y pymtheg lle cyfwerth â llawn amser eraill (cyfanswm o dri deg).

**Darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol**

Byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cynnig yn cynnwys dosbarth arsylwi ac asesu gydag 8 lle, a fyddai'n cynyddu'r ddarpariaeth i blant drwy gyfrwng y Gymraeg, sydd angen cyfnod o arsylwi ac asesu er mwyn bodloni eu hanghenion unigol.

**Estyniad yn y dyfodol**

Mae dyluniad y safle yn caniatáu estyniad gyda llawr cyntaf a'r ail lawr, i greu pedwar dosbarth ychwanegol er mwyn gwneud lle am ragor o alw am leoedd yn y dyfodol, petai'r angen yn codi. Byddai hyn yn cynyddu'r ysgol i ysgol 3 dosbarth mynediad.

**Dalgylchoedd**

Mae YG Bro Ogwr yn gwasanaethu tref Pen-y-bont ar Ogwr, ardaloedd Porth y Cymoedd a Phencoed. Byddai'r ysgol arfaethedig wedi'i lleoli ar dir ger Ffordd Cadfan, sy'n cael ei ystyried y lleoliad mwyaf addas ar gyfer yr ysgol newydd o ran maint, ei leoliad daearyddol yn yr ardal mae'n ei gwasanaethu a phellter oddi wrth yr ysgol bresennol.

Nid oes dalgylchoedd ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg yn sir Pen-y-bont ar Ogwr. Wedi dweud hynny, mae oddeutu hanner o'r dysgwyr sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn gymwys ar gyfer cludiant ysgol ac yn teithio i'r ysgol yn ôl y ddarpariaeth cludiant. Mae oddeutu 80% o ddysgwyr yn mynychu o'r tu hwnt i ardal Bracla.

Cynllun y cyngor yw cynyddu'r nifer o addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir a byddwn yn ymgymryd ag adolygiad o ddalgylchoedd. Rydym yn croesawu adborth gan rieni er mwyn bod yn sail i'n penderfyniadau.

**Parcio, pryderon traffig, danfon plant i'r ysgol**

Byddwn yn cynnal gweithdy ar wahân gyda'n timau priffyrdd ac iechyd a diogelwch i drafod effaith y traffig ar y briffordd, darpariaeth parcio ac ardaloedd danfon fel rhan o ddatblygu'r dyluniad ac i ddeall pa un ai a yw'r mesurau lliniaru sydd ar waith yn ysgolion eraill y sir yn effeithiol ai peidio.

Mae'r adran briffyrdd wedi comisiynu a chasglu Asesiad Effaith ar Drafnidiaeth sydd wedi'i adrodd i'r Cabinet. Bydd yr Asesiad Effaith ar Drafnidiaeth yn cael ei adolygu a byddwn y sicrhau ein bod yn darparu unrhyw seilwaith teithio llesol sydd ei angen fel rhan o'r cynllun hwn. Er mwyn sicrhau ein bod yn cael caniatâd cynllunio ar gyfer y prosiect, rhaid i ni fodloni gofynion yr adran briffyrdd a rhaid i ni gydymffurfio â'r Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru.

**Ysgol bresennol YG Bro Ogwr**

Gradd C yw cyflwr adeilad YG Bro Ogwr ac mae ganddi ôl-groniad o waith cynnal a chadw gwerth £750,700. Bydd angen gwneud peth gwaith uniongyrchol ar gyfer gwelliannau, gan fydd yr ysgol yn cael ei defnyddio hyd at 2025.

Mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r angen i gynyddu darpariaeth dros dro fel rhan o'r prosiect hwn er mwyn bodloni'r galw am leoedd. Cyflwynwyd mynegiant o

ddiddordeb i Lywodraeth Cymru am gyllid grant cyfalaf cyfrwng Cymraeg ar gyfer gosod dosbarth dwbl symudol yn yr ysgol nes bydd yr estyniad arfaethedig i Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn agor.

**Cynlluniau i'r dyfodol am ysgol cyfrwng Saesneg ar safle presennol YG Bro Ogwr**

Byddai creu ysgol cyfrwng Saesneg ar safle presennol YG Bro Ogwr yn destun proses ymgynghori statudol ar wahân a fyddai'n mynd ymlaen dim ond os yw'r cynnig mewn perthynas ag ehangu YG Bro Ogwr yn Ffordd Cadfan yn mynd yn ei flaen.

Bydd swyddogion yn archwilio'r effaith y byddai'r cynnig hwn yn ei chael ar ysgolion cyfrwng Saesneg presennol yn yr ardal.  Mae rhagor o waith yn mynd rhagddo ar gynllun ehangach, gan gynnwys adnabod y dalgylch.

**Cyfleusterau chwaraeon/mannau gwyrdd a defnydd y gymuned**

Bydd yr ysgol yn cael ei dylunio i hwyluso defnydd gan y gymuned.  Mae defnydd cymunedol o'r ysgol yn benderfyniad i'r corff llywodraethu.

Bydd dau gae chwarae; cae llai o garped glaswellt, sydd fel arfer yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pêl-droed 5 bob ochr a hoci etc a chae 3G mwy er mwyn caniatáu defnydd gan y gymuned a gofynion hyfforddi.  Mae dwy ardal wedi'i hadnabod ar y cynllun i wneud lle ar gyfer pêl-rwyd a phêl-fasged. Bydd y caeau hyn wedi'u diogelu gan ffens ddiogelwch.

Nid yw llifoleuadau ar gyfer y cae wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn, wedi dweud hynny byddwn yn cynnwys y seilwaith ar gyfer llifoleuadau er mwyn eu gosod yn y dyfodol.  Mae Cynghorau Cymuned wedi cyfrannu at y gost o lifoleuadau mewn prosiectau blaenorol.

Bydd neuadd a chegin gymunedol yn nhu blaen yr adeilad.  Bydd y rhain wedi'u gosod oddi wrth y dosbarthiadau er mwyn sicrhau diogelwch.

Mae'r ysgol wedi bod yn cynnal dosbarthiadau i oedolion, ond mae diffyg lle ar hyn o bryd.  Bydd yr ysgol newydd yn cynnig cyfle i ni wneud y mwyaf o'r ysgol newydd, gan weithio gyda Menter Bro Ogwr.

I gydymffurfio â Dull Asesu Amgylcheddol Sefydliad Ymchwil Prydain, byddwn yn cynnwys darpariaeth fach i wneud lle ar gyfer cyfleusterau storio beiciau, gyda chawodau ac ystafelloedd newid.

Bydd ardal sylweddol o fannau gwyrdd yn cael eu cynnwys ar safle'r ysgol.  Mae cynlluniau ar gyfer corstir a byddwn yn anelu at wella ecoleg a bioamrywiaeth y safle. Bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach yn ystod y cam dylunio.

## ATODIAD 9

**Ymateb Estyn i'r cynnig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i wneud addasiad rheoledig i ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr i ysgol 2.5 dosbarth mynediad, gyda dosbarth meithrin sydd â 90 lle cyfwerth â llawn amser a dosbarth arsylwi ac asesu sydd ag 8 lle ar dir ger Ffordd Cadfan, gan agor ddechrau tymor yr hydref 2025.**

### Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Serch hynny, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn mewn perthynas â materion trefnu ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir â nhw, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar deilyngdod cyffredinol y cynigion trefnu ysgol yn unig. Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol ar y cynnig ac wedi darparu'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a nodwyd gan y cynigiwr.

Y cynnig yw ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr i gynyddu'r nifer o leoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael a throsglwyddo'r ysgol i adeilad newydd ar safle newydd.

### Crynodeb/Casgliad

Mae Estyn yn credu bod y cynnig yn debygol, fan leiaf, o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.

### Disgrifiad a buddion

Mae'r awdurdod lleol wedi nodi sail resymegol glir ar gyfer ei gynnig. Mae'n amlinellu'n gryf y nifer o fanteision sydd ynghlwm ag adeiladu ysgol newydd, gan gynnwys adnabod bod cyflwr yr adeilad presennol yn gategori C yn 2019. Yn 2019, y ffigwr a nodwyd ar gyfer mynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw hanfodol oedd £750,700.

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi disgrifiad clir o'r cynnig ac yn amlinellu amserlen dros dro ar gyfer gweithdrefnau statudol. Wedi dweud hynny, nid yw'n nodi amserlen ar gyfer gweithredu'r cynigion, ac eithrio'r dyddiad gweithredu o fis Medi 2025 ar gyfer trosglwyddo i'r safle newydd.

Mae'r cynigiwr yn nodi'n glir ac yn deg buddion ac anfanteision disgwyliedig y cynnig newydd. Yn ddigon teg, mae'n nodi y bydd cynnydd yn narpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer ardal gogledd-ddwyrain Pen-y-bont ar Ogwr, a bod y galw am leoedd mewn dosbarth meithrin ar hyn o bryd yn fwy na chapasiti yr ysgol. Mae'r awdurdod lleol yn adnabod y gall darpariaeth ychwanegol yn y dosbarth meithrin gael effaith fach ar feithrinfeydd dydd lleol eraill, ond gan fod y feithrinfa hon yn ddarpariaeth cyfrwng Saesneg, ni ddylai'r effaith fod yn sylweddol.

Yn addas, mae'r awdurdod lleol wedi nodi risgiau sydd ynghlwm â'r cynnig ac wedi adnabod mesurau priodol i liniaru'r risgiau hyn. Nodir gan yr awdurdod lleol dri dewis arall addas i'r cynigion ac mae'n darparu rhesymau dilys dros eu dewis i beidio â symud ymlaen gyda'r rheini.

Yn rhannol, mae'r cynigiwr wedi ystyried effaith y newidiadau ar drefniadau teithio dysgwyr. Nodir mai'r pellter rhwng ysgol bresennol Ysgol Gymraeg Bro Ogwr a'r safle newydd ar Ffordd Cadfan yw 0.2 milltir. Mae'r awdurdod lleol yn credu y gallai'r rheini sy'n byw yng nghyffiniau'r safle presennol barhau i gerdded i'r ysgol newydd. Mae'r cynnig hefyd yn amlinellu y bydd trafnidiaeth am ddim yn cael ei darparu ar gyfer disgyblion oedran cynradd os ydynt yn byw 2 filltir neu ymhellach oddi wrth yr ysgol a bydd dysgwyr llawn amser y dosbarth meithrin yn gymwys am drafnidiaeth am ddim os ydynt yn byw 1.5 milltir neu ymhellach oddi wrth yr ysgol.

Mae'r cynnig yn rhagweld gostyngiad bach yn y nifer o ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol, gyda'r angen am oddeutu 366 o leoedd i ddisgyblion erbyn mis Ionawr 2026. Ar yr un pryd, bydd yr adeilad newydd yn cynyddu capasiti'r ysgol o 378 i 525 o leoedd a chynyddu darpariaeth dosbarth meithrin o 55 i 90 o leoedd llawn amser. Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried yn briodol effaith bosibl datblygiadau tai ar niferoedd rhagweledig. Maent hefyd wedi adnabod y gallai adeiladau ysgol gwell arwain at fwy o ddisgyblion yn ceisio addysg cyfrwng Cymraeg yn lleol.

Mae'r cynnig yn ystyried yn fanwl effaith y cynigion ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn yr awdurdod lleol ac i ba raddau mae'r cynnig yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol. Mae'n adnabod bod gwella ac atgyfnerthu'r agwedd ffisegol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws yr awdurdod yn elfen bwysig o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Bydd y cynnig i drosglwyddo Ysgol Gynradd Gymraeg Bro Ogwr i adeilad newydd sy'n bodloni safon y 21ain ganrif yn cyfrannu at nod yr awdurdod o gynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n ceisio addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r cynnig yn amcangyfrif y bydd cost yr adeilad newydd yn £12.6 miliwn a fydd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r cynigiwr yn ystyried yn briodol agweddau addysgol ar y cynnig. Mae'n adnabod yn fanwl canlyniadau arolwg diweddaraf Estyn ac argymhellion i wella'r ysgol.

Mae'r awdurdod lleol yn ystyried yn briodol effaith y cynigion ar ansawdd a safonau addysg, gan gynnwys safonau disgyblion, eu llesiant a'u hagweddau at ddysgu, profiadau addysgu a dysgu, cymorth ac arweiniad gofal ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Er enghraifft, mae'r cynnig yn adnabod yn ddigon teg y dylai symud i ysgol sydd wedi'i hadeiladu'n bwrpasol yn ôl yr anghenion addysgu a dysgu wella'n sylweddol gallu'r ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen a cham allweddol 2. Nodir ymhellach y bydd amgylchedd dysgu gwell yn cael effaith gadarnhaol ar gefnogaeth ac arweiniad drwy ddarparu ardaloedd sy'n addas ar gyfer addysgu grwpiau bach i ddisgyblion sy'n dechrau cael trafferthion yn eu dysg.

I rai graddau, mae'r cynnig yn ystyried effaith y cynnig ar ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol ond nid oes digon o wybodaeth mewn perthynas â'r maes hwn.

Mae'n nodi y bydd dosbarth arsylwi ac asesu gydag 8 lle yn yr ysgol newydd. O ran hygyrchedd, bydd yr ysgol newydd wedi'i dylunio i gydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a fydd yn cefnogi'r holl ddysgwyr, staff ac ymwelwyr.

Nodwyd gan yr awdurdod lleol bod cynigion ad-drefnu ysgolion yn anochel yn achosi peth amhariad ac ansicrwydd. Mae'n adnabod bod profiad yn dangos y gellir achosi cyn lleied o amharu â phosibl drwy weithio'n agos â'r pennaeth, llywodraethwyr a staff a chynllunio'r rhaglen yn unol ag anghenion yr ysgol. Er gwaethaf hynny, nid yw'r cynnig yn ystyried y ffactorau penodol posibl a all achosi tarfu yng nghyd-destun yr adeilad newydd hwn, neu sut fydd yr awdurdod lleol yn mynd ati i leihau'r rhain ar gyfer dysgwyr.

**Ymatebion/eglurhad gan yr awdurdod lleol i'r materion a godwyd:**

Mae'r awdurdod lleol, yn seiliedig ar brofiad llwyddiannus o ad-drefnu ysgolion, yn hyderus er bydd y cynigion yn achosi peth darfu, bydd y rhain yn cael eu trin yn broffesiynol ac mewn modd sy'n lliniaru'r risgiau i ddysg ysgolion. Mae'r awdurdod lleol yn gweithredu proses rheoli risgiau gynhwysfawr sy'n golygu bod rheolwyr grŵp o bob maes yn yr awdurdod lleol (gan gynnwys arweinwyr ysgol) yn cwrdd yn rheolaidd i drafod unrhyw broblemau sy'n dod i'r amlwg ac yna'n gweithio drwy unrhyw ddatrysiadau priodol. Er enghraifft, ystyried y posibilrwydd o addasu'r cwricwlwm mewn amgylchedd newydd neu sut ellir addasu'r modd y rheolir y diwrnod ysgol. Yn yr un modd â phrosiectau blaenorol, lle mae ysgolion yn symud i adeilad newydd, bydd cyfathrebu rheolaidd yn digwydd gyda disgyblion a rhieni i roi diweddariadau ac i gefnogi'r pontio, gan gael gwared ar unrhyw ansicrwydd. Bydd gweithgareddau llais dysgwyr yn rhan annatod o'r gwaith hwn.

## Atodiad 10 - Asesiad Effaith ar y Gymuned

**Enw'r cynnig:**

Cynnig i wneud addasiad rheoledig i ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr i ysgol 2.5 dosbarth mynediad, gyda dosbarth meithrin sydd â 90 lle cyfwerth â llawn amser a dosbarth arsylwi ac asesu sydd ag 8 lle ar dir ger Ffordd Cadfan, gan agor ddechrau tymor yr hydref 2025.

**Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?**

Y Cabinet

**Pwy sydd wedi bod ynghlwm â datblygu'r cynnig?**

Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Pennaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Rheolwr y Rhaglen Ysgolion – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Rheolwyr Grŵp – Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Bwrdd y Rhaglen Strategol Moderneiddio Ysgolion
Rheolwr Prosiect – Moderneiddio Ysgolion
Swyddogion technegol yr awdurdod lleol

**Nodau ac amcanion:**

Cynnig i wneud addasiad rheoledig i ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr i ysgol 2.5 dosbarth mynediad, gyda dosbarth meithrin sydd â 90 lle cyfwerth â llawn amser a dosbarth arsylwi ac asesu sydd ag 8 lle ar dir ger Ffordd Cadfan, gan agor ddechrau tymor yr hydref 2025.

**Camau Gweithredu Allweddol:**

Gweithdrefn statudol i wneud addasiad rheoledig i ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr

**Canlyniadau disgwyliedig:** Bydd Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn cael ei hadeiladu ar y safle ger Ffordd Cadfan, gan ddarparu ysgol 2.5 dosbarth mynediad (525 o leoedd), gyda dosbarth meithrin sydd â 90 lle cyfwerth â llawn amser a dosbarth arsylwi ac asesu sydd ag 8 lle. Bydd yn agor ddechrau tymor yr hydref 2025.

**Ar bwy fydd hyn yn effeithio?** Staff, llywodraethwyr, dysgwyr, rhieni a'r gymuned ehangach.

**Oddeutu faint o bobl fydd yn cael eu heffeithio:** mwy na 1000 o bobl o bosibl.

**Dyddiad disgwyliedig y penderfyniad**: Gorffennaf 2022.

**Cwmpas/ffocws yr asesiad:**

Rhoi ystyriaeth i:

- defnydd cyfredol yr ysgolion gan y gymuned
- hygyrchedd i ddysgwyr, staff, rhieni a'r gymuned

- effaith symud ysgol gynradd
- effaith ar adeilad yr ysgol
- effaith ar y gymuned estynedig

**Data a/neu ymchwil perthnasol:**

- Defnydd o adeiladau'r ysgol y tu hwnt i oriau ysgol
- 'Fframwaith Strategaeth, Egwyddorion, Polisi a Chynllunio' sy'n sail i'r dull ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau strategol yn y Fwrdeistref Sirol a'r 'Ddogfen Egwyddorion' 2015 ddilynol
- rhagamcanion dysgwyr, capasiti a chyflwr adeiladau

**Canfyddiadau**

**Defnydd y gymuned:**

- Nid yw'r ysgol yn cael ei defnyddio at ddibenion gwasanaethau cymunedol yn ystod yr wythnos.
- Mae sefydliadau megis Menter Bro Ogwr a'r Urdd yn cynnal clybiau gwyliau yn ystod peth o'r gwyliau ysgol.
- Mae gan yr ysgol glwb brecwast am ddim ac mae Menter Bro Ogwr yn cynnal clwb ar ôl ysgol ar gyfer dysgwyr.
- Mae'r ysgol yn cynnal clybiau allgyrsiol ar ôl ysgol rhwng dydd Llun ac Iau.

**Prif bolisi:**

- Mae'r cynnig hwn yn cyd-fynd â 'Dogfen Egwyddorion' mis Mawrth 2015.

**Rhagamcanion dysgwyr, capasiti a chyflwr adeiladau:**

- Mae'r rhagamcanion dysgwyr sy'n effeithio ar ysgolion cynradd yn y clwstwr yn dangos bod y boblogaeth dysgwyr yn cynyddu yn ardaloedd penodol o fewn y clwstwr.
- Mae amodau adeiladau mewn perthynas â'r adeiladau sydd eisoes yn bodoli wedi'u nodi isod:

| **Ysgol** | **Ansawdd y Llety** |
|---|---|
| Ysgol Gymraeg Bro Ogwr | Sgôr gyffredinol y cyflwr yw C (gwael; diffygion sylweddol a/neu ddim yn gweithredu yn ôl y bwriad) |

**Effeithio ar y gymuned estynedig**

Mae'n debyg y bydd effaith gadarnhaol o ran cyfleusterau cymunedol modern, hygyrch, pwrpasol yn yr ysgol newydd arfaethedig.

**Effaith ar ysgolion eraill**

- Ni ddisgwylir y bydd yr ysgol newydd yn cael effaith sylweddol ar unrhyw ysgol arall o ran lleihau niferoedd disgyblion. Gan fod hon yn ysgol gynradd cyfrwng

Cymraeg, bydd yn denu disgyblion o ddalgylch llawer ehangach, ac mae'n annhebygol o gystadlu am ddisgyblion gydag ysgolion cyfagos. Felly, mae'n debygol y bydd y nifer o ddisgyblion a fydd yn symud o ysgolion cyfrwng Saesneg i'r ysgol newydd hon yn isel iawn.

- Er bod cyfraddau cadw disgyblion a'r nifer o ddisgyblion sy'n mynd ymlaen i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg eisoes yn dda yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr, rhagwelir y gall yr ysgol newydd gael effaith gadarnhaol o ran cynorthwyo'r ardaloedd hyn a bydd hynny'n fuddiol i'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn ogystal â chynorthwyo gydag ymrwymiad yr awdurdod lleol i helpu i gynyddu'r niferoedd o ddysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg (yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg). Yn ychwanegol at hyn, mae'n debyg bod unrhyw welliant mewn un ysgol cyfrwng Cymraeg am fod o fudd i'r clwstwr o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol gan fod yr ysgolion yn gweithio'n agos i rannu arfer dda.

**Sut fydd y penderfyniad yn effeithio ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol?**

Mae'n annhebygol y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar unrhyw nodwedd warchodedig. Os unrhyw beth, mae'n bosibl y byddai effaith gadarnhaol o ystyried y byddai'r ysgol newydd wedi'i dylunio i gydymffurfio'n llwyr â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anableddau, a fyddai'n cefnogi'r holl ddysgwyr, staff, ymwelwyr etc.

**Ymgynghoriad**

**A oes ymgynghori penodol wedi bod ar y penderfyniad hwn (os nad, nodwch pam a/neu ba bryd y gall hyn ddigwydd):**

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori 7 Chwefror 2022 a daeth i ben 21 Mawrth 2022.

**Beth oedd canlyniadau'r ymgynghoriad?**

Mae effaith y cynnig hwn wedi'i hystyried a'i diweddaru. Byddai'r ysgol newydd wedi'i dylunio gyda'r defnydd gan y gymuned mewn golwg ac yn cynnwys cyfleusterau y gellid eu defnyddio gan grwpiau iaith Gymraeg, yr Urdd a sefydliadau chwaraeon.

**Ar draws y nodweddion gwarchodedig, pa wahaniaethau mewn safbwyntiau a ddatgelwyd drwy ddadansoddi'r ymgynghoriad?**

Casglodd yr asesiad fod y cynnig yn annhebygol o gael effaith anghymesur ar unrhyw grŵp gwarchodedig. Byddai'r ysgol arfaethedig wedi'i lleoli ar dir ger Ffordd Cadfan, sy'n cael ei ystyried y lleoliad mwyaf addas ar gyfer yr ysgol newydd o ran maint, ei bellter oddi wrth yr ysgol bresennol a'i leoliad daearyddol yn yr ardal, ac mae cysylltiadau da yno â thref Pen-y-bont ar Ogwr, Porth y Cymoedd ac ardaloedd Pencoed, sydd felly yn golygu ei fod yn lleoliad addas i'r gymuned ei ddefnyddio.

**Pa gasgliadau sydd wedi'u llunio o'r dadansoddiad ar sut fydd y penderfyniad yn effeithio ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol?**

Mae'n annhebygol y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar unrhyw nodwedd warchodedig. Os unrhyw beth, mae'n bosibl y ceir effaith gadarnhaol o ystyried y

byddai'r ysgol newydd wedi'i dylunio i gydymffurfio'n llwyr â Deddf Cydraddoldeb 2010, a fyddai'n cefnogi'r holl ddysgwyr, staff, ymwelwyr a defnyddwyr adeilad yr ysgol.

**Asesiad effaith ar staff**

**Rhowch fanylion am effaith ar staff, gan gynnwys proffil staffio os yw'n briodol/fel sy'n briodol:**

Byddai canlyniad y cynnig, petai'n mynd yn ei flaen, yn golygu bod y strwythur staffio yn debygol o gynyddu dros gyfnod o amser. Byddai'r strwythur staffio yn cyd-fynd â phoblogaeth uwch yr ysgol. Byddai'r corff llywodraethu yn gyfrifol am y strwythur staffio, a fyddai'n cael ei bennu'n bennaf gan anghenion addysgol yr ysgol a'r gyllideb sydd ar gael.

**Asesiad effaith ar y gymuned ehangach**

**Rhowch fanylion o unrhyw effeithiau ar y gymuned ar y cyfan:**

Mae safle'r ysgol newydd arfaethedig lai na 0.2 milltir oddi wrth safle'r ysgol bresennol. Felly, ni ragwelir potensial sylweddol am effaith negyddol ar y gymuned.

Wedi dweud hynny, mae'n bosibl y ceir effaith gadarnhaol ar gydlyniad y gymuned gan, petai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai dysgwyr yn mynychu adeilad ysgol newydd, mwy a fydd yn cynnwys cyfleusterau cymunedol, pwrpasol.

**Dadansoddiad o'r effaith yn ôl nodweddion gwarchodedig**

**Rhowch grynodeb o ganlyniadau'r dadansoddiad:**

Mae'n annhebygol y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar unrhyw nodwedd warchodedig.

**Aseswch berthnasedd ac effaith y penderfyniad ar bobl sydd â nodweddion gwahanol**

**Perthnasedd** = Uchel/Isel/Dim / **Effaith** = Uchel/Isel/Niwtral

| Nodweddion | Perthnasedd | Effaith |
|---|---|---|
| Oedran | Uchel | Isel |
| Anabledd | Dim | Niwtral |
| Ailbennu rhywedd | Dim | Niwtral |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Dim | Niwtral |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Dim | Niwtral |
| Hil | Dim | Niwtral |
| Crefydd neu gredo | Dim | Niwtral |
| Rhyw | Dim | Niwtral |
| Cyfeiriadedd rhywiol | Dim | Niwtral |

| | | |
|---|---|---|
| Grwpiau eraill sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol (gan gynnwys anghydraddoldeb iechyd) | Dim | Niwtral |

**Pryd bynnag mae effaith negyddol wedi'i hadnabod, amlinellwch y mesurau sydd wedi'u cymryd i'w lliniaru:**
Nid oes effaith negyddol wedi'i hadnabod.

**Rhowch wybodaeth ar oblygiadau cyffredinol ar gydraddoldeb y dylid eu hystyried yn y penderfyniad terfynol, o ystyried perthnasedd ac effaith:**

Casglodd yr asesiad fod y cynnig yn annhebygol o gael effaith anghymesur ar unrhyw grŵp gwarchodedig.

**Llofnodwyd:**

Rheolwr Prosiect, y Tîm Moderneiddio Ysgolion, Addysg a Chymorth i Deuluoedd

**Dyddiad:**

17 Mai 2022

## Atodiad 11 - Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

**Ysgol Gymraeg Bro Ogwr**

| | |
|---|---|
| **Cynnig:** | Cynnig arfaethedig i ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr |
| **Adran:** | Tîm Moderneiddio Ysgolion – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| **Swyddog Cwblhau:** | Rheolwr y Rhaglen Ysgolion |
| **Dyddiad:** | 2 Chwefror 2022 |
| **Disgrifiad Byr:** | Y cynnig yw symud ac ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr i adeilad ysgol newydd sy'n cynnwys 2.5 dosbarth mynediad, gyda 90 lle cyfwerth â llawn amser yn y dosbarth meithrin a dosbarth asesu ac arsylwi gydag 8 lle. |
| **Ar bwy mae'r cynnig hwn yn effeithio?** | Corff llywodraethu, staff, dysgwyr a rhieni/gofalwyr - Ysgol Gymraeg Bro Ogwr.<br><br>Disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac sydd angen darpariaeth arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg, eu rhieni/gofalwyr a'r gymuned anghenion dysgu ychwanegol ehangach.<br><br>Cymunedau Coety a Bracla.<br><br>Ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>(h.y. cynradd ac uwchradd).<br><br>Ysgolion o fewn Porth y Cymoedd, Pen-y-bont ar Ogwr ac ardaloedd Pencoed y fwrdeistref sirol.<br><br>Grwpiau rhanddeiliaid (e.e. Rhieni Dros Addysg Gymraeg, Mudiad Meithrin, Fforwm Cymraeg mewn Addysg) |
| **Beth yw nodau'r polisi a sut maent yn gysylltiedig â'r iaith Gymraeg?** | Mae Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg yn Princess Way, Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr. Adeiladwyd hi ym 1994 ac mae wedi'i lleoli ar 2.7 acer o dir. Mae'r ysgol wedi cael estyniad ers iddi gael ei hadeiladu ac yn cynnwys dau ddosbarth symudol dros dro y tu cefn iddi. Y nifer derbyniadau disgyblion presennol yw 54. Mae rhai ardaloedd yr ysgol wedi'u gor-boblogi a gradd C yw cyflwr yr adeilad.<br><br>Nod y cynnig yw symud yr ysgol i adeilad ysgol newydd y 21ain Ganrif sy'n addas at y diben ar safle Ffordd Cadfan sydd wedi'i leoli 0.2 milltir oddi wrth safle'r ysgol bresennol. Byddai gan yr ysgol newydd Nifer Derbyniadau Ysgolion o 75, sydd felly yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i fwy o ddysgwyr geisio addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai'r capasiti presennol o 378 yn cynyddu i 525 ar gyfer dysgwyr 4-11 oed dan y cynnig hwn. |

| | |
|---|---|
| | Ar hyn o bryd, mae dysgwyr cyfrwng Cymraeg sydd ag anghenion dysgu ychwanegol difrifol yn cael cymorth gan dîm arbenigol, teithiol. Yn unol â gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, rhaid i bob awdurdod lleol roi darpariaeth ADY ddwyieithog. Gan mai'r nod yw cynyddu'r nifer o ddysgwyr cyfrwng Cymraeg, cynigir dosbarth asesu ac arsylwi cyfrwng Cymraeg pwrpasol i gefnogi dysgwyr ADY.<br><br>Bydd adeilad yr ysgol yn amgylchedd dysgu modern, hyblyg y bydd modd ei addasu. Bydd ganddo neuadd fawr a stiwdio (h.y. ar gyfer gwasanaethau, ymarfer corff a bwyta) a maes/'stryd' ddysgu amlbwrpas. Bydd ardaloedd mewnol ac allanol wedi'u dylunio'n addas i'r ysgol a'r gymuned eu defnyddio. Bydd mannau awyr agored yn cael eu darparu i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm. Bydd parcio gwell ar y safle i ymwelwyr, staff a chludiant ysgol. Bydd y cynnig hefyd yn cynnwys adolygiad o lwybrau diogel i'r ysgol, ac os bydd angen, buddsoddiad yng ngwelliannau i seilwaith y briffordd.<br><br>Bydd yr ysgol wedi'i hariannu gan Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ac adnoddau cyfalaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Byddai'r ysgol arfaethedig yn agor i ddisgyblion fis Medi 2025 ar dir oddi ar Ffordd Cadfan ym Mracla, Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Wedi'i hadeiladu yn ôl Bwletin Adeiladu 99, byddai'r ysgol yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Reoliadau Adeiladu perthnasol. |
| **Pwy fydd yn elwa? / A allai'r polisi effeithio ar grwpiau Cymraeg?** | Dysgwyr yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr.<br>Dysgwyr cyfrwng Cymraeg sydd ag anghenion dysgu ychwanegol difrifol<br>Rhieni/gofalwyr disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr.<br>Staff Ysgol Gymraeg Bro Ogwr.<br>Y cymunedau ger yr ysgol.<br><br>Dylid gweld effaith gadarnhaol ar grwpiau iaith Gymraeg gan fydd yr adeilad newydd yn hygyrch i'r gymuned leol. Gallai hyn gynnwys dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion, cyfarfodydd grwpiau Cymraeg etc. |
| **Proffil ieithyddol cyfredol yr ardal(oedd) d(d)aearyddol:** | Yn ôl Cyfrifiad 2011, o blith 134,545 o breswylwyr Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, roedd 9.7% (13,103) ohonynt yn gallu siarad Cymraeg, ac nid oedd y 90.3% yn weddill (121,442) yn gallu siarad Cymraeg. Gellir cymharu hyn â'r ffigyrau ar gyfer Cymru gyfan a oedd yn dangos o blith y 2,955,841 o breswylwyr yn byw yng Nghymru, roedd 19.0% (562,016) yn gallu siarad Cymraeg, ac nid oedd yr 81.0% (2,393,825) yn weddill yn gallu siarad Cymraeg. |

Mae'r tabl isod yn dangos sgiliau iaith Gymraeg preswylwyr Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn cymhariaeth â'r ffigwr ar gyfer Cymru gyfan, a daw o Gyfrifiad 2011: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/Census-Welsh-Language/welshspeakers-by-localauthority-gender-detailedagegroups-2011census

| | Pen-y-bont ar Ogwr | Cymru gyfan |
|---|---|---|
| Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg | 7.3 | 14.6% |
| Yn gallu siarad a darllen ond yn methu ag ysgrifennu Cymraeg | 0.9% | 1.5% |
| Yn gallu siarad ond yn methu â darllen neu ysgrifennu Cymraeg | 1.5% | 2.7% |
| Yn deall Cymraeg ar lafar yn unig | 4.1% | 5.3% |
| Cyfuniad arall o sgiliau | 3.6% | 2.5% |
| Dim sgiliau | 82.7% | 73.3% |
| Cyfanswm | 100% | 100% |

Yn ôl y data, mae sgiliau iaith Gymraeg preswylwyr Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn is na lefel sgiliau iaith Gymraeg Cymru gyfan.

Adnabuwyd drwy Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben mis Mehefin 2021, bod 17.8% o breswylwyr Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, mewn cymhariaeth â 29.2% o ymatebwyr Cymru gyfan. Gellir dadansoddi hyn ymhellach yn y data sydd wedi'i gynnwys yn y tabl canlynol.

| Sgiliau Iaith Gymraeg Preswylwyr (%) | | |
|---|---|---|
| | Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Cymru |
| Yn gallu darllen Cymraeg | 16.9% | 25.9% |

| | | |
|---|---|---|
| Yn gallu ysgrifennu Cymraeg | 15.9% | 23.8% |
| Yn gallu deall Cymraeg ar lafar | 21.2% | 33.7% |

Dengys y data nad oes bwlch yn sgiliau iaith Gymraeg preswylwyr Pen-y-bont ar Ogwr mewn cymhariaeth â gweddill Cymru.

| Sgiliau Iaith Gymraeg Preswylwyr (%) | | |
|---|---|---|
| | Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Cymru |
| Siarad Cymraeg yn ddyddiol | 6.3% | 15.2% |
| Siarad Cymraeg yn wythnosol | 3.1% | 5.2% |
| Yn ei defnyddio'n llai aml neu fyth | 6.9% | 7.3% |

Mae'r data yn awgrymu, o ran yr iaith ar lafar, bod y % o breswylwyr Pen-y-bont ar Ogwr sy'n defnyddio'r iaith Gymraeg yn sylweddol is mewn cymhariaeth ag ymatebwyr Cymru gyfan.

Dengys y data yn glir fod sgiliau iaith Gymraeg preswylwyr Pen-y-bont ar Ogwr yn amrywio mewn cymhariaeth â'r data ar gyfer gweddill Cymru.

Rhagwelir y byddai'r cynnig hwn yn gwella'n sylweddol cyfleoedd addysgu a dysgu ac mae'n debygol y bydd mwy o bobl yn manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal yn sgil yr adeilad ysgol 21ain Ganrif, sydd felly yn cefnogi targedau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol, yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac yn cynyddu'r nifer o ddysgwyr meithrin sy'n mynd ymlaen i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.

Nid yw Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn cael ei defnyddio at ddibenion gweithgareddau cymunedol yn ystod yr wythnos. Fodd bynnag, mae sefydliadau megis Menter Bro Ogwr a'r Urdd yn cynnal clybiau gwyliau yn ystod peth o'r gwyliau ysgol. Mae gan yr ysgol glwb brecwast am ddim ac mae Menter Bro Ogwr yn cynnal clwb ar ôl ysgol ar gyfer dysgwyr. Cynigir clybiau allgyrsiol ar ôl ysgol yn ystod yr wythnos o ddydd Llun hyd at ddydd Iau.

Yn y gorffennol, mae Menter Bro Ogwr wedi cynnal sesiynau Cymraeg ar gyfer Oedolion i rieni ac mae'r ysgol yn ystyried sefydlu grŵp Rhieni a Babanod.

Mae Ysgol Gymraeg Bro Ogwr wedi'i chategoreiddio fel ysgol "werdd" ac yn cyflawni safonau rhagorol ar ddiwedd y cyfnod

| | |
|---|---|
| | sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Nid oes data na ffigyrau cyfredol ar gael mewn perthynas â hyn gan nad yw data cenedlaethol wedi'i gasglu ers dwy flynedd. |
| **A yw'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | Cadarnhaol |
| **Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg.** | Byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r iaith Gymraeg gan y byddai mwy o leoedd i ddisgyblion ar gael ar gyfer dysgwyr sy'n ceisio addysg cyfrwng Cymraeg.<br><br>Bydd y cyfleusterau yn cynnig cyfle i ddarparu cyrsiau iaith Gymraeg i rieni/gofalwyr.<br><br>Byddai'r ysgol arfaethedig yn cynnig cyfle i ddysgwyr sy'n ceisio addysg cyfrwng Cymraeg bontio o ysgol cyfrwng Saesneg.<br><br>Byddai'r addysg cyfrwng Cymraeg ragorol a ddarperir gan Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn gwella ymhellach drwy ddarparu cyfleusterau newydd, sy'n addas at y diben.<br><br>Mae cynyddu'r nifer o leoedd cyfrwng Cymraeg yn cefnogi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol ac agenda Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. |
| **Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi hyn?** | Ar hyn o bryd, mae lle i 378 o ddysgwyr rhwng 4-11 oed a 55 o leoedd yn y dosbarth meithrin yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr. Yn rheolaidd, ceir mwy o geisiadau i fynychu'r ysgol na'r nifer o leoedd sydd ar gael. Bydd gan yr ysgol newydd le i 525 o ddysgwyr rhwng 4-11 oed, a 90 o leoedd cyfwerth â llawn amser mewn dosbarth meithrin. Yn ogystal, bydd dosbarth asesu ac arsylwi gydag 8 lle. |
| **Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi ei wneud er mwyn cyfrannu at effeithiau cadarnhaol?** | Hyrwyddo’r iaith Gymraeg drwy weithgareddau ymgysylltu cynnar gyda rhieni/gofalwyr.<br><br>Cyfeirio rhieni/gofalwyr at ddosbarthiadau/cyrsiau iaith Gymraeg gan yr ysgol.<br><br>Nid oes canolfan drochi iaith yn yr awdurdod lleol ar hyn o bryd. Wedi dweud hynny, darperir cyllid i gefnogi dysgwyr wrth iddynt bontio o ysgolion cyfrwng Saesneg i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Gellid hysbysebu'r cyfle hwn. |

| | |
|---|---|
| | Datblygiad proffesiynol parhaus o staff ysgol a rhannu arfer orau.<br><br>Datblygu sesiwn Ti a Fi o ansawdd ym Mracla a fydd yn cynnig cyfle i rieni gael blas ar y buddion lu sydd ynghlwm â phrofiadau cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar i'w plentyn ac iddyn nhw eu hunain. |
| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg.** | Cynyddu cyfranogiad yn yr iaith Gymraeg drwy gynnig cyfle i rieni/gofalwyr ac aelodau eraill y gymuned fynychu dosbarthiadau Cymraeg a/neu gyfleoedd eraill ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, anogir nhw i gyfeirio rhieni/gofalwyr at ddosbarthiadau iaith Gymraeg.<br><br>Gellid defnyddio cyfleusterau'r ysgol ar gyfer gweithgareddau iaith Gymraeg a fydd yn cynyddu cyfranogiad. Mae cyfle i fagu partneriaeth ag asiantaethau gan gynnwys 'Cymraeg i Oedolion', 'Menter Bro Ogwr' (Menter Iaith Bro Ogwr) a Choleg Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn i aelodau'r gymuned ddysgu Cymraeg ac ymgymryd â gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, cynigir cyrsiau Cymraeg gan Dysgu Cymraeg Morgannwg sy'n cyflwyno cyrsiau ar-lein ac yn lleol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Maent hefyd yn cynnig ystod o gyrsiau blasu ar-lein y gall unrhyw un eu defnyddio a chynnig sesiynau Sadwrn Siarad bob hyn a hyn.<br><br>Caiff gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg eu cynnig yn bennaf gan Fenter Bro Ogwr er bod Partneriaeth Ddysgu Pen-y-bont ar Ogwr yn anelu at gynnig gweithgareddau dysgu pan allant, a phan mae'r gweithgareddau yn ddichonadwy o ran niferoedd.<br><br>Bydd dysgwyr yn cael cyfle i ymgymryd â gweithgareddau allgyrsiol drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Cyfleoedd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg.** | Gallai'r ysgol ganiatáu'r gymuned i ddefnyddio'r cyfleusterau ar gyfer dosbarthiadau Cymraeg/gweithgareddau sy'n cael eu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg, gan felly hyrwyddo'r iaith Gymraeg.<br><br>Bydd yr ysgol yn cael ei dylunio gyda defnydd gan y gymuned mewn golwg. Bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Efallai y bydd cyfleoedd i gynnal gweithgareddau cymunedol yn ystod oriau ysgol.<br><br>Mae gan yr ysgol gysylltiadau â'r Urdd a gellid datblygu cysylltiadau pellach gyda grwpiau chwaraeon cyfrwng Cymraeg. |

| | |
|---|---|
| | O ystyried ei lleoliad canolog ym Mhen-y-bont ar Ogwr, bydd yr ysgol yn hynod hygyrch i'r gymuned uniongyrchol a'r gymuned ehangach.<br><br>Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, cynyddu'r nifer o ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r nifer o leoedd dysgwyr, fel y manylir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. |
| **Cydymffurfio â Safonau Iaith Gymraeg y Cyngor.** | Bydd trefniadau a phrosesau cytundebol ar gyfer cyflawni'r prosiect yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Bydd cyfarfodydd ymgynghori yn ddwyieithog a bydd y contractwr yn cael gwybod am y gofyniad hwn a bydd gofyn iddo fabwysiadu'r dull hwn o ran cyflwyno unrhyw sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Bydd pob arwydd yn ystod y gwaith adeiladu, ac ar ei ôl, yn ddwyieithog. |

| **Adolygu – Sylwadau'r Ymgynghoriad** | **Dyddiad:** |
|---|---|
| Dengys y data nad oes bwlch yn sgiliau iaith Gymraeg preswylwyr Pen-y-bont ar Ogwr mewn cymhariaeth â gweddill Cymru. Mae cynigion fel hyn yn gwella'n sylweddol yr amgylchedd dysgu a'r cyfleoedd sydd ar gael i'n dysgwyr. Bydd pennaeth yr ysgol newydd yn cael ei annog a'i gefnogi i ystyried defnyddio'r cyfleusterau hyn i gynyddu cyfranogiad yn yr iaith Gymraeg drwy gynnig y cyfle i rieni/gofalwyr ac aelodau eraill y gymuned fynychu dosbarthiadau Cymraeg a/neu gyfleoedd eraill ar gyfer ymgysylltiad cymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg. | 17 Mai 2022 |

| **Monitro, Gwerthuso ac Adolygu** |
|---|
| Petai'r cynnig yn mynd ymlaen, bydd y prosiect yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn ystod y cam dylunio, cyflawni, ac ôl-ddefnydd gan y Rheolwr Prosiect – Tîm Moderneiddio Ysgolion. |

| **Crynodeb** |
|---|
| Y cynnig yw darparu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr gydag ysgol 21ain Ganrif newydd ar safle oddi ar Ffordd Cadfan, Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd yr ysgol newydd yn ysgol 2.5 dosbarth mynediad (h.y. 525 o leoedd i ddysgwyr) ar gyfer dysgwyr 4-11 oed, gyda 90 o leoedd cyfwerth â llawn amser yn y dosbarth meithrin ac 8 lle yn y dosbarth arsylwi ac asesu. Byddai'r ysgol yn agor fis Medi 2025.<br><br>Credir y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg:<br><br>• Bydd rhagor o leoedd i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg yn cael eu darparu.<br>• Bydd yr ysgol yn cael ei dylunio i hwyluso'r Cwricwlwm Newydd i Gymru. |

- Gellid defnyddio cyfleusterau'r ysgol ar gyfer defnydd cymunedol/dosbarthiadau oedolion drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae'r safle wedi'i leoli'n ganolog i annog defnydd gan y gymuned uniongyrchol a'r gymuned ehangach sy'n ceisio cyfle i gymryd rhan mewn dosbarthiadau/cyrsiau Cymraeg y gellid eu cynnig.
- Bydd yr ysgol yn gwbl hygyrch.
- Gellid cynnig cyfleoedd i drawsnewid o gyfrwng y Gymraeg i'r Saesneg.
- Byddai'r addysg cyfrwng Cymraeg ragorol y mae dysgwyr Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn ei chael yn parhau ac yn cael ei gwella ymhellach drwy ddarparu cyfleusterau newydd.

## Ffurflen Sgrinio'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r ddogfen hon yn adnodd amlbwrpas sy'n sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd i gydymffurfio â deddfwriaeth Asesu Effaith ar Gydraddoldeb Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac i ddangos ein bod wedi rhoi'r ystyriaeth ddyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau yn y canlyniadau sy'n deillio o fod dan anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol dan y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Mae hefyd yn sicrhau ystyriaeth i Safonau'r Gymraeg.

Cliciwch yma am ragor o wybodaeth ac arweiniad i'ch helpu chi gwblhau'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb hwn.

- **Dylid cynnal yr asesiad hwn yn ystod cam ffurfio eich polisi neu gynnig. Bydd unrhyw effaith negyddol a adnabyddir yn eich cefnogi chi i greu strategaethau ymgysylltu ar gyfer rhagor o gasglu tystiolaeth.**
- **Os ydych yn ymgymryd ag ymgynghoriad cyhoeddus llawn fel rhan o'ch polisi neu gynnig, dylid llenwi'r ffurflen hon cyn i'r ymgynghoriad ddechrau a'i defnyddio i fod yn sail i gwestiynau a gweithgareddau ymgysylltu eich ymgynghoriad.**
- **Mae angen ateb pob adran a phob cwestiwn. Peidiwch eu gadael yn wag hyd yn oed os ydynt yn 'amherthnasol' neu'n 'destun ymgynghoriad pellach'.**

| | |
|---|---|
| Enw'r prosiect, polisi, swyddogaeth, gwasanaeth neu gynnig dan asesiad: | Gogledd-ddwyrain Pen-y-bont ar Ogwr – ysgol newydd i Ysgol Gymraeg (YG) Bro Ogwr |
| Disgrifiad cryno a nod y polisi neu gynnig: | Cynnig i wneud addasiad rheoledig i ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr i ysgol 2.5 dosbarth mynediad, gyda dosbarth meithrin sydd â 90 lle cyfwerth â llawn amser a dosbarth arsylwi ac asesu sydd ag 8 lle ar dir ger Ffordd Cadfan, gan agor ddechrau tymor yr hydref 2025. |

| | |
|---|---|
| | |
| Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r polisi neu gynnig? | Cyfarwyddwr – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Dyddiad cwblhau ffurflen sgrinio'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb: | 10/06/21 |
| A yw'r polisi neu'r cynnig hwn yn ymwneud ag unrhyw bolisi arall? (nodwch) | • Rhaglen Moderneiddio Ysgolion<br>• Rhaglen Dechrau'n Deg<br>• Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru<br>• Maint Dosbarthiadau Babanod<br>• Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>• Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr – Cynllun Llesiant<br>• Cynllun Corfforaethol 2018-2022<br>• Strategaeth Ariannol Tymor Canolig<br>• Strategaeth Symud Cymru Ymlaen 2018-2021<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015<br>• Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl - cynllun gweithredu 2017-2021<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Cynllun Datblygu Lleol<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg<br>• Strategaeth y Gymraeg Cymraeg 2050 |

| | |
|---|---|
| Pwy yr effeithir arnynt gan y polisi hwn (e.e. Staff, preswylwyr, pobl anabl, merched yn unig?) | Dysgwyr, rhieni a staff |
| A yw'r polisi yn gysylltiedig â pholisïau neu feysydd gwaith eraill, wedi'i ddylanwadu neu ei effeithio ganddynt (yn fewnol neu'n allanol)? *Noder: Ystyriwch hyn o ran gofynion statudol, polisïau lleol, penderfyniadau rhanbarthol (partneriaeth), polisïau cenedlaethol, diwygio llesiant* | • Rhaglen Dechrau'n Deg<br>• Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru<br>• Maint Dosbarthiadau Babanod<br>• Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>• Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr – Cynllun Llesiant<br>• Cynllun Corfforaethol 2018-2022<br>• Strategaeth Ariannol Tymor Canolig<br>• Strategaeth Symud Cymru Ymlaen 2018-2021<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>• Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl - cynllun gweithredu 2017-2021<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Cynllun Datblygu Lleol<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg<br>• Strategaeth y Gymraeg Cymraeg 2050 |
| Ai adolygiad neu addasiad o bolisi cyfredol yw hwn, a oes Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i wneud? Cynhwyswch y dyddiad cwblhau: | Amherthnasol |

| | |
|---|---|
| Os yw Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb yn bodoli, pa ddata newydd sydd wedi'i gasglu ers ei gwblhau? | Amherthnasol |

**<u>Asesu Effaith</u>**

**Nodweddion gwarchodedig**
A yw'n bosibl y bydd unrhyw agwedd ar y polisi neu'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl o grwpiau gwahanol mewn ffyrdd gwahanol?

***Noder: Os ydych yn adnabod effaith negyddol ar <u>unrhyw</u> nodwedd warchodedig, bydd angen i chi gasglu rhagor o dystiolaeth i gwblhau Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb llawn.**

| | **Rhowch X yn y bocs perthnasol** | | | **Eglurhad o'r effaith** |
|---|---|---|---|---|
| | **Effaith/effeithiau cadarnhaol** | **Effaith/effeithiau negyddol** | **Dim effaith** | |
| Rhywedd | **X** | | | Bydd dyluniad yr adeilad yn addas ar gyfer defnyddwyr niwtral o ran rhywedd |
| Anabledd | | | **X** | |
| Hil | | | **X** | |
| Crefydd a chredo | | | **X** | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | | | **X** | |
| Oedran | **X** | | | Sicrhau amgylchedd ysgol gwell i ddysgwyr |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | | | **X** | |
| Trawsryweddol | | | **X** | |
| Priodas a Phartneriaeth sifil | | | **X** | |

**Effaith economaidd-gymdeithasol**
A yw'n bosibl y bydd unrhyw agwedd ar y polisi neu'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl neu gymunedau sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol?

***Noder: Os ydych yn adnabod effaith economaidd-gymdeithasol negyddol, bydd angen i chi gasglu rhagor o dystiolaeth i gwblhau Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb llawn.**

| | Rhowch X yn y bocs perthnasol | | | Eglurhad o'r effaith |
|---|---|---|---|---|
| | **Effaith/effeithiau cadarnhaol** | **Effaith/effeithiau negyddol** | **Dim effaith** | |
| Dan anfantais economaidd-gymdeithasol | **X** | | | Cyfleusterau gwell ar gyfer dysgwyr sy'n mynychu ac sy'n byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Posibilrwydd am ddarpariaeth gofleidiol, gan alluogi rhieni i geisio cyflogaeth neu hyfforddiant o bosibl |

**Yr Iaith Gymraeg**
A yw'n bosibl y bydd unrhyw agwedd ar y polisi neu'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sydd am ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac o ran trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg?
***Noder: Os ydych yn adnabod effaith negyddol ar bobl sydd am ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac o ran trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, bydd angen i chi gasglu rhagor o dystiolaeth i gwblhau Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb llawn.**

| | Rhowch X yn y bocs perthnasol | | | Eglurhad o'r effaith |
|---|---|---|---|---|
| | **Effaith/effeithiau cadarnhaol** | **Effaith/effeithiau negyddol** | **Dim effaith** | |
| A fydd y polisi neu'r cynnig yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg? | **X** | | | Bydd cynnydd yn y nifer o leoedd sydd ar gael mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg gydag YG Bro Ogwr yn ehangu, fel rhan o'r cynnig. Gellir defnyddio'r ysgol ar gyfer grwpiau cymunedol Cymraeg, e.e. Ti a Fi, dosbarthiadau Cymraeg i oedolion |
| A fydd y polisi neu'r cynnig yn trin yr iaith Gymraeg yr un mor ffafriol â'r iaith Saesneg? | **X** | | | Bydd cynnydd yn y nifer o leoedd sydd ar gael mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gydag YG Bro Ogwr yn ehangu, fel rhan o'r cynnig. Gellir defnyddio'r ysgol ar gyfer grwpiau cymunedol Cymraeg, e.e. Ti a Fi, dosbarthiadau Cymraeg i oedolion |

**Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb gyffredinol a dyletswyddau penodol, sy'n helpu awdurdodau i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol.

Nod y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol yw ymgorffori ystyriaethau hyrwyddo cydraddoldeb ym musnes bob dydd awdurdodau cyhoeddus. Yn gryno, rhaid i'r rheini sy'n destun y ddyletswydd gydraddoldeb, wrth gyflawni eu gwaith, roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac unrhyw fath arall o ymddygiad a waherddir gan y Ddeddf.
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig, a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd gyffelyb
- Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig, a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd gyffelyb

**Sut mae'r polisi neu'r cynnig hwn yn dangos eich bod wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol?**

| |
|---|
| Byddai'r cynllun yn cael ei ddatblygu i sicrhau nad oes effaith negyddol ar unrhyw grŵp gwarchodedig. |

**Caffael a phartneriaethau**

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn gofyn i bob awdurdod cyhoeddus ystyried anghenion nodweddion gwarchodedig wrth ddylunio a chyflawni gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys pan wneir hyn mewn partneriaeth â sefydliadau eraill neu drwy gaffael gwasanaethau. Mae Safonau'r Gymraeg hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ystyried effeithiau unrhyw benderfyniad polisi, neu newid yn narpariaeth gwasanaeth, ar yr iaith Gymraeg, sy'n cynnwys unrhyw waith a wneir mewn partneriaeth neu gan drydydd parti. Rhaid i ni hefyd sicrhau ein bod yn ystyried y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wrth gynllunio penderfyniadau caffael a chomisiynu mawr i ystyried sut all trefniadau o'r fath leihau anghydraddoldebau yn y canlyniadau oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol.

**A fydd y polisi neu'r cynnig hwn yn cael ei gynnal yn llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu bartneriaid?**

| | **Rhowch X yn y bocs perthnasol:** |
|---|---|
| Bydd | X (yn rhannol) |
| Na fydd | |

Os bydd, pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol, Deddfwriaeth y Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol mewn perthynas â chaffael a/neu bartneriaethau?

| | **Camau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfiaeth:** |
|---|---|
| Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol | Dogfennaeth gaffael a chontractau gadarn yn cynnwys ystyriaeth ddyledus i hyn |
| Deddfwriaeth iaith Gymraeg | Dogfennaeth gaffael a chontractau gadarn yn cynnwys ystyriaeth ddyledus i hyn |
| Dyletswydd economaidd-gymdeithasol | Dogfennaeth gaffael a chontractau gadarn yn cynnwys ystyriaeth ddyledus i hyn |

**<u>Beth ydych chi wedi penderfynu ei wneud?</u>**
Cofnodi penderfyniad yn seiliedig ar asesiad effaith ar nodweddion gwarchodedig, effaith economaidd-gymdeithasol a'r iaith Gymraeg. Rhowch X yn y bocs perthnasol.
**Os ydych yn adnabod effaith negyddol ar un, mwy nag un neu bob nodwedd warchodedig, dyletswydd economaidd-gymdeithasol neu'r iaith Gymraeg, RHAID i chi gwblhau Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb llawn.**

| **Effaith wedi'i hadnabod** | **Camau nesaf:** | **Rhowch X yn y bocs perthnasol:** |
|---|---|---|
| Dim effaith negyddol wedi'i hadnabod | Sgrinio allan: parhau â'r polisi neu gynnig | **X** |
| Wedi adnabod un neu fwy o effeithiau negyddol | Cwblhau Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb llawn i gasglu mwy o dystiolaeth ar effeithiau negyddol posibl | |
| **Eglurwch y rhesymau dros y penderfyniad hwn. Os ydych wedi 'sgrinio allan', rhaid i chi gynnwys gwybodaeth a thystiolaeth i gyfiawnhau eich penderfyniad.** | | |
| Adnabuwyd ei bod hi'n annhebygol y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar unrhyw grŵp gwarchodedig. Adnabuwyd effeithiau cadarnhaol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg, rhywedd ac oedran fel y manylir yn y tabl uchod. Gan na adnabuwyd unrhyw effeithiau negyddol, ni fydd angen gwneud asesiad effaith ar gydraddoldeb llawn. | | |

**Cymeradwyo:**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cwblhau ffurflen sgrinio'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb:** | **10/06/21** |
| **Cymeradwywyd gan (Pennaeth Gwasanaeth):** |  |
| **Dyddiad cymeradwyo gan y Pennaeth Gwasanaeth:** | **27/05/22** |

| | |
|---|---|
| **Os yw'r gweithgaredd sgrinio hwn wedi adnabod bod angen Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb llawn, pwy fydd yn gwneud yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb llawn?** | Amherthnasol |
| **Os yw'r gweithgaredd sgrinio hwn wedi adnabod bod angen Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb llawn, erbyn pa bryd fydd yr Asesiad llawn wedi'i gwblhau?** | Amherthnasol |

## Atodiad 13

**Rhestr o randdeiliaid**

- Y Corff Llywodraethu, rhieni, staff, gofalwyr, gwarcheidwaid a dysgwyr Ysgol Gymraeg Bro Ogwr
- Ysgolion eraill yn y clwstwr/ardal
- Awdurdodau cyfagos
- Awdurdodau'r Eglwys yng Nghymru a'r Esgobaeth Gatholig
- Gweinidogion Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Aelodau Cynulliad yr Etholaeth a Rhanbarthol ac Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal lle mae'r ysgol sy'n destun y cynigion wedi'i lleoli
- Estyn
- Undebau masnach addysgu a staff yn cynrychioli athrawon a staff eraill yn unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De
- Heddlu De Cymru a'r Comisiynydd Heddlu
- Cynghorau Tref a Chymuned yn cynrychioli'r ardal lle mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion wedi'i lleoli
- Darparwyr meithrinfa annibynnol neu wirfoddol a all gael eu heffeithio, gan gynnwys Mudiad Meithrin
- Tîm Gofal Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr/Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, pryd bynnag maent yn bresennol
- Aelodau Cabinet
- Bwrdd Rheoli Corfforaethol
- Aelodau Ward
- Rheolwr Grŵp Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cynhwysiant
- CAMHS, GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf.
  Tîm Iechyd Meddwl Sylfaenol, GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf.
- Gwasanaeth Therapi Lleferydd ac Iaith, GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf.

- Paediatregyddion, GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf.
- Therapi Galwedigaethol, GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf.
- Gwasanaeth Ffisiotherapi: GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf.
- Seicolegwyr Addysgol. Gwasanaeth Seicoleg Addysgol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- SNAP Cymru
- Barnardo’s Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg